Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 7fed Mehefin, 2016 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Sophie Hughes<br>01286 679729<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfed Wyn Edwards | Arweinydd |
| Dyfrig L. Siencyn | Dirprwy Arweinydd |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Adnoddau |
| John Wynn Jones | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Mair Rowlands | Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION Y CYFARFOD A GYNHELIR AR 3 MAI 2016 | | | |
| 6 | CYFRIFON TERFYNOL 2015/16 - ALLDRO REFENIW | Cyng./Cllr. Peredur Jenkins | Dafydd Edwards | 4 - 32 |
| 7 | RHAGLEN GYFALAF 2015/16 - 2017/18 | Cyng./Cllr. Peredur Jenkins | Dafydd Edwards | 33 - 37 |
| 8 | DARPARIAETH TOILEDAU CYHOEDDUS YNG NGWYNEDD | Cyng./Cllr. John Wynn Jones | Gwyn Morris Jones | 38 - 54 |
| 9 | CYNLLUN ADNEWYDDU PIBELLI DŴR STADAU TAI CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD | Cyng./Cllr. John Wynn Jones | Gwyn Morris Jones | 55 - 64 |
| 10 | ADOLYGU'R GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF GARDD | Cyng./Cllr. John Wynn Jones | Gwyn Morris Jones | 65 - 77 |
| 11 | PROSIECT TRIN GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU | Cyng./Cllr. John Wynn Jones | Gwyn Morris Jones | 78 - 81 |
| 12 | ARDALOEDD LLESIANT Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS | Cyng./Cllr. Dyfed Wyn Edwards | Janet Roberts | 82 - 86 |
| 13 | TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16 | Cyng./Cllr. Dyfed Edwards | Hawis Jones | 87 - 112 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 3 MAI 2016**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfed Wyn Edwards (Cadeirydd), Dyfrig L. Siencyn (Is-Gadeirydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Mandy Williams-Davies a Dyfrig Jones

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan G. Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Huw Ynyr (Uwch Reolwr - Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid) a Vera Jones (Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. William Gareth Roberts, y Cyng. Mair Rowlands ac Iwan Trefor Jones.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU**

Croesawyd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol, y Cyng. Dyfrig Jones i'r cyfarfod gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.

Croesawyd y cyfle i gryfhau cyfathrebu uniongyrchol rhwng y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu gan yr holl Aelodau a oedd yn bresennol. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn cynnwys argymhellion gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar dair eitem.

Ymateb i'r adroddiad –

<u>A. Eitem – Strategaeth Caffael Cyngor Gwynedd: Rheolaeth Categori a Chadw'r Budd yn Lleol</u>
Nododd y Cyng. Mandy Williams-Davies y dyhead i gynyddu'r budd a gedwir yn

lleol ac fe eglurodd yr angen i godi ymwybyddiaeth, o fewn a thu allan i'r Cyngor. Nododd hefyd ei pharodrwydd i ddiweddaru'r Pwyllgor Craffu bob 6 mis a croesawodd unrhyw drafodaethau pellach.

Cadarnhawyd y byddai'r Aelodau'n ailymweld â chynnydd y strategaeth gaffael, â sylw penodol i reolaeth gategori ymhen 6 mis.

B. Eitem – Strategaeth Technoleg Gwybodaeth Ddrafft
Croesawodd y Cyng. Peredur Jenkins y pwyntiau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Craffu a diolchodd i'r Pwyllgor am eu rhan yn y trafodaethau.

C. Eitem – Budd i Wynedd o Gadw'r Treth Fusnes
Croesawodd y Cyng. Dyfrig Siencyn y pwyntiau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor, a nododd yr argymhelliad na ddylai'r Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i ofyn am yr un telerau i Gymru a sy'n bodoli yn Lloegr.

Diolchodd y Cyng. Dyfrig Siencyn i'r Cyng. Dyfrig Jones a'r Pwyllgor am eu gwaith a croesawodd y drafodaeth defnyddiol.

**5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 15FED O FAWRTH 2016**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15fed o Fawrth 2016.

**6. STRATEGAETH TECHNOLEG GWYBODAETH (2016-18)**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

1. Mabwysiadu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth ac i'r perwyl o wireddu'r strategaeth, ariannu dwy swydd Rheolwr Cyfrif (gyda sgiliau dadansoddwr busnes/rheoli prosiect) am £74,000 yn barhaol, drwy ddefnyddio tanwariant y flwyddyn flaenorol ar gyfer 2016/17 a rhagfarnu llwyddiant cais am adnoddau erbyn 2017/18.

2. Er mwyn cyfarch pryderon y Pwyllgor Craffu Corfforaethol, y dylid ychwanegu ffrwd gwaith ychwanegol i'r Strategaeth o dan y gweithgaredd *"Technoleg fel galluogwr i drawsnewid a chyflawni"* i ystyried a yw'r cydbwysedd rhwng diogelwch ac hwylustod defnyddio'r dechnoleg yn gywir.

**7. YMATEB I OFYNION RHAN 8 O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn ar ran y Cyng. W Gareth Roberts a’r Cyng. Mair Rowlands.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadu a gweithredu’r Protocol a gyflwynwyd fel Atodiad 1 i’r adroddiad i sicrhau ein bod yn ymateb yn llawn i ofynion Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**8. YMATEB I OFYNION RHAN 9 O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn ar ran y Cyng. W Gareth Roberts a’r Cyng. Mair Rowlands.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyn nodi sefydlu’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn unol â Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

2. Cefnogi sefydlu'r Bwrdd Cysgodol Partneriaeth Rhanbarthol am y cyfnod hyd nes bydd y trefniadau ffurfiol wedi eu cadarnhau.

3. Enwebu y Cyng. William Gareth Roberts, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, sydd â chyfrifoldeb o fewn y maes gwasanaethau cymdeithasol, i eistedd ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Enwebu’r Cyng. Mair Rowlands, Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden fel dirprwy.

4. Ymrwymo i ariannu'r costau i gefnogi’r trefniadau rhanbarthol o 2017/18, yn unol â’r lefel trefniadau presennol.

5. Cyn cytuno i unrhyw strwythur arfaethedig y dylid gofyn am ragor o waith er mwyn manylu ymhellach ar gyfansoddiad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y drefn llywodraethu, ac yn arbennig y llinellau atebolrwydd a’i berthynas gyda’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**9. TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16 - MEYSYDD PLANT A PHOBL IFANC, Y GYMRAEG, CYNGOR EFFEITHIOL AC EFFEITHLON A CHYNLLUNIO ARIANNOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Edwards.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. John Wynn Jones.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod..

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.20 y.h.

**CADEIRYDD**

Eitem 6

**ADRODDIAD I'R CABINET**
7 MEHEFIN 2016

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** CYFRIFON TERFYNOL 2015/16 – ALLDRO REFENIW

**Swyddog cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

1.1 Ystyried a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2015/16.

1.2 **Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen** (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn **Atodiad 1**), sef -

| ADRAN | £'000 |
|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | (6) |
| Plant a Theuluoedd | (8) |
| Addysg | (48) |
| Economi a Chymuned | 5 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | (6) |
| Rheoleiddio | (90) |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 34 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol & Chyfreithiol | (20) |
| Cyllid | (70) |
| Cefnogaeth Corfforaethol | (95) |
| Cyllidebau Corfforaethol | 0 |

1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (amlinellwyd yn **Atodiad 2)** –

- Yn unol â chais y Pennaeth Adran Oedolion argymhellir cymeradwyo trosglwyddiadau cyllidebau o fewn yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant fel a restrir yn Atodiad 2 (effaith net o "£0").

- Argymhellir defnyddio £150k o'r sefyllfa tanwariant gros yr Adran Rheoleiddio am 2015/16 ar gyfer datblygu trefn archwilio ac asesu cyflwr pontydd, cwlferi a rhai waliau cynnal.

- Argymhellir fod £150k o'r sefyllfa tanwariant ar Gyllidebau Corfforaethol am 2015/16 yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn perthnasol i'r Bartneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru ar gyfer gofynion 2016/17, gyda'r gweddill sydd ei hangen ar gyfer 2017/18 i'w adnabod wrth ystyried y strategaeth ariannol am y flwyddyn honno.

- Argymhellir trosglwyddo £769k o danwariant ar Gyllidebau Corfforaethol am 2015/16 i gronfa er mwyn ariannu strategaeth ariannol 2016/17.

- Argymhellir defnyddio £292k o danwariant Cyllidebau Corfforaethol am 2015/16 er mwyn ariannu strategaeth ariannol 2015/16.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel a amlinellir yn Atodiad 3 (ynghyd â'r darpariaethau a ryddhawyd yn dilyn adolygiad).

1.5 Golygai hyn gwneud defnydd o (£833k) o falansau'r Cyngor, yn hytrach na'r (£2.019m) gwreiddiol er mwyn cwblhau'r pecyn i ariannu strategaeth ariannol 2015/16.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

2.1 Er gwaethaf gofynion parhaus i gyflawni arbedion heriol, **mae sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2015/16 yn cadarnhau y bu rheolaeth ariannol effeithiol gan yr Aelodau Cabinet perthnasol, penaethiaid adrannau a rheolwyr cyllidebau.** Wrth gwrs, mae hynny wedi'i gefnogi gan waith monitro proffesiynol ein cyfrifwyr, ynghyd â gwaith herio adeiladol fel bo angen gan y Cabinet, y Pwyllgor Archwilio, a'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

2.2 Felly, **gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2015/16 er mwyn galluogi'r Adran Cyllid i symud ymlaen i gynhyrchu, ardystio a chyhoeddi'r datganiadau ariannol statudol erbyn 30 Mehefin**, ac wedyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio graffu ar 14 Gorffennaf 2016.

## 3. Adrannau'r Cyngor

3.1 **Yn gyffredinol, gallaf gadarnhau bu cyllidebau rhan fwya'r adrannau dan reolaeth gadarn eto eleni.** Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn Atodiad 1, gyda'r symiau i'w cario 'mlaen (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig". Yn Atodiad 2, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion rheiny wedi'u hamlygu er ystyriaeth uchod yn 1.3.

3.2 Roedd sefyllfa ariannol y mwyafrif o'r adrannau yn lled niwtral, ac wedi'i ragamcanu'n gywir yn ystod 2015/16, ond nodaf y bu gwelliant sylweddol yn sefyllfa ariannol yr **Adran Oedolion** yn ystod ail hanner y flwyddyn, tra bu lleihad yn incwm masnachol **Ymgynghoriaeth Gwynedd**. Hefyd, mae'r **Adran Rheoleiddio** yn cyfrannu cyfran sylweddol o'u tanwariant gros i ariannu blaenoriaeth gorfforaethol.

3.3 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, fydd yn cymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Eleni, nid oes unrhyw gais i'r Cabinet ddileu diffyg adrannol, ac ar ôl trosglwyddiadau i gronfeydd, nid oes sefyllfa tanwariant adrannol sy'n uwch na'r trothwy £100,000 ar gau cyfrifon 2015/16.

3.4 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2015/16 yn unig.

3.5 Yn y mwyafrif o'r cyllidebau lle bu gôr/tanwariant yn 2015/16, rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r anghenion a chyfleon perthnasol yng nghylch cyllidebu 2016/17, ac mae'r mwyafrif o'r materion rheiny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2016/17 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

## 4. Ysgolion

4.1 Mae rhan o Atodiad 2 yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae'r cyfanswm sirol o falansau'r ysgolion wedi lleihau o £3.5m i £3.3m yn 2015/16. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'.

4.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb).

4.3 Mae cyfanswm yr ysgolion gyda diffygion ariannol wedi cynyddu o £327,873 (9 Cynradd, 5 Uwchradd, 1 Arbennig) ar 31 Mawrth 2015 i £447,692 (11 Cynradd, 4 Uwchradd, 1Arbennig) ar 31 Mawrth 2016. Cadarnhaf bydd yr Uned Gyllid perthnasol hefyd yn sicrhau bydd penaethiaid a chyrff llywodraethol yr ysgolion sydd â diffygion ariannol yn delio gyda hynny.

## 5. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol

5.1 Bu tanwariant un-tro sylweddol ar nifer o benawdau cyllideb gorfforaethol eleni, fel amlinellir yn rhan olaf Atodiad 2. Mae'r tanwariant net £292k yma, ynghyd â £894k neilltuwyd yn yr adolygiadau ail a trydydd chwarter, ar gael i gyfrannu tuag at ariannu blaenoriaethau corfforaethol un-tro.

5.2 Bydd aelodau yn cofio, ar gyfer Strategaeth Ariannol 2015/16 roedd £2.019m o'r balansau wedi'u hymrwymo. Hefyd, ar gyfer 2016/17 fod £2.164m wedi cynllunio i'w adnabod o adolygu reserfau ac yn y blaen, ac mae angen £616k pellach ar gyfer ariannu 'bidiau' un-tro yn 2016/17 (sef cyfanswm o bron i £4.8m).

5.3 Adolygwyd digonolrwydd holl gronfeydd penodol a darpariaethau'r Cyngor yn drylwyr unwaith eto gan y Pennaeth Cyllid wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi cymeradwywyd yr adeg yma llynedd. Llwyddodd yr adolygiad yma i gynhaeafu £2.011m o adnoddau (£871k o gronfeydd penodol a £1,140k o ddarpariaethau), fel amlinellir yn Atodiad 3.

5.4 Gyda chefnogaeth y Cabinet, os defnyddir y tanwariant fel argymhellir ym mharagraff 1.3 uchod, trwy reolaeth effeithiol o'i gyllidebau, bydd y Cyngor wedi llwyddo i leihau'r defnydd arfaethedig o'i falansau, a bydd balansau cyffredinol y Cyngor wedi gostwng dim ond £833k o £6.4m i £5.6m ar 31/03/2016.

## 6. Camau nesaf ac amserlen

6.1 Yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014, a Côd Ymarfer Cyfrifo CIPFA, rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid ardystio datganiadau ariannol statudol 2015/16 y Cyngor erbyn 30 Mehefin. Wrth werthfawrogi fod hyn yn amserlen heriol, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu yn y broses.

6.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar y sefyllfa alldro o ran tanwariant neu orwariant Adrannau unigol a gwariant y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2015/16, ac ystyried yr wybodaeth yn sgil hynny er mwyn medru adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.

6.3 Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

6.4 Bydd yr Adran Cyllid yn cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2015/16 i'w ardystio gan y Pennaeth Cyllid erbyn 30 Mehefin a'u cyflwyno i'w craffu gan y Pwyllgor Archwilio ar 14 Gorffennaf.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'r adroddiad yn cynnig darlun cyffredinol o reolaeth ariannol gadarn ar adeg pan y mae adnoddau wedi crebachu ac yn parhau i wneud hefyd, mae werth nodi, bod adrannau wedi bod yn gorfod paratoi ar gyfer arbedion a thoriadau i ddod.

Ar yr un pryd, mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal ei berfformiad yn arbennig o dda dros yr un cyfnod ac mae hyn yn bwynt sydd werth eu nodi er mwyn talu teyrnged i'r staff a rheolwyr sydd wedi llwyddo i wneud hyn a rheoli gwariant yn effeithiol mewn cyd-destyn ariannol heriol iawn.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau cywirdeb y cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 - sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran
Atodiad 2 - prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol
Atodiad 3 - adnoddau wedi'u cynhaeafu o adolygu cronfeydd a darpariaethau

## Cyllideb Refeniw 2015/16 - Crynhoad o'r amcan sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Terfynol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16 £ '000 | Symud i/o Gronfeydd £ '000 | Gor/ (Tan) Wariant Addasedig £ '000 | *Adolygiad Trydydd Chwarter £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **44,413** | **(6)** | | **(6)** | *338* |
| **Plant a Theuluoedd** | **13,171** | **(8)** | | **(8)** | *151* |
| **Addysg** | **81,864** | **(48)** | | **(48)** | *(4)* |
| **Economi a Chymuned** | **7,559** | **5** | | **5** | *25* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **21,558** | **(6)** | | **(6)** | *1* |
| **Rheoleiddio** (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | **6,754** | **(240)** | **150** | **(90)** | *(122)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **(39)** | **34** | | **34** | *(137)* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | **2,025** | **(20)** | | **(20)** | *(30)* |
| **Cyllid** | **5,604** | **(70)** | | **(70)** | *(69)* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | **7,286** | **(95)** | | **(95)** | *(96)* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn Unig)* | | **(1,211)** | **1,211** | **0** | *(3)* |
| **Cyfansymiau (net)** | **190,195** | **(1,665)** | **1,361** | **(304)** | *54* |

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 10,199 | 9,622 | (577) | 0 | (577) | (365) |
| Gofal Cartref | 6,006 | 6,068 | 62 | 0 | 62 | 79 |
| Eraill | 2,017 | 1,869 | (148) | 0 | (148) | (160) |
| | 18,222 | 17,559 | (663) | 0 | (663) | (446) |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 462 | 480 | 18 | 0 | 18 | 21 |
| Gofal Cartref | 985 | 990 | 5 | 0 | 5 | 19 |
| Eraill | 651 | 655 | 4 | 0 | 4 | 17 |
| | 2,098 | 2,125 | 27 | 0 | 27 | 57 |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 13,430 | 13,403 | (27) | 0 | (27) | (104) |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 1,292 | 1,444 | 152 | 0 | 152 | 148 |
| Eraill | 1,991 | 1,872 | (119) | 0 | (119) | (53) |
| | 3,283 | 3,316 | 33 | 0 | 33 | 95 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | | | | | | |
| Rheolwyr | 240 | 209 | (31) | 0 | (31) | (21) |
| Tim Pobl Hyn ac Anabledd Corff | 2,469 | 2,368 | (101) | 0 | (101) | (67) |
| | 2,709 | 2,577 | (132) | 0 | (132) | (88) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **39,742** | **38,980** | **(762)** | **0** | **(762)** | **(486)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | (729) | (536) | 193 | 0 | 193 | 118 |
| Gofal Dydd | (205) | (263) | (58) | 0 | (58) | (68) |
| Gofal Cymunedol | (49) | 143 | 192 | 0 | 192 | 177 |
| Eraill | (249) | (303) | (54) | 0 | (54) | (42) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **(1,232)** | **(959)** | **273** | **0** | **273** | **185** |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Tai | 1,650 | 1,623 | (27) | 0 | (27) | (5) |
| Gwasanaethau Gofal Cwsmer | 1,185 | 1,089 | (96) | 0 | (96) | (81) |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol | 3,068 | 3,674 | 606 | 0 | 606 | 725 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **5,903** | **6,386** | **483** | **0** | **483** | **639** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **44,413** | **44,407** | **(6)** | **0** | **(6)** | **338** |

**Crynodeb Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Prif Faterion :-**

**Gwasanaethau Pobl Hŷn:**

- Preswyl a Nyrsio - Cartrefi - cynnydd o (£212k) yn y lefel tanwariant i fyny i (£577k) ac yn cynnwys cyfuniad o wahaniaethau, sef tanwariant o (£248k) ar Gartrefi Annibynnol, oherwydd gostyngiad yn y nifer o leoliadau, ynghyd â chyfraniadau incwm ychwanegol o (£328k) sy'n gynnydd o (£223k) ers y trydydd chwarter.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - gostyngiad o £77k yn y tanwariant ers y trydydd chwarter, ac yn cynnwys nifer o wahaniaethau sylweddol, ac yn arbennig cynnydd mewn gwariant o £155k ar Lety Cefnogol, cynnydd o (£47k) yn y tanwariant ar Preswyl a Nyrsio - Cartrefi Annibynnol a cynnydd o (£26k) mewn tanwariant ar Cynlluniau Cefnogol oherwydd yn bennaf lleihad yn y lefel pecynnau cefnogaeth a ddarparir.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - gostyngiad o (£62k) yn y gorwariant blaenorol, i lawr i £33k, ac yn cynnwys incwm ychwanegol ac arbedion staffio un tro (£37k) ar Cynlluniau Cefnogol, ac incwm ychwanegol a lleihad mewn gwariant o (£27k) ar Cefnogaeth a Chynlluniau Eraill.

**Gwasanaethau Eraill (Oedolion)** - cynnydd o (£44k) yn y lefel tanwariant yn y chwarter olaf, ac yn cynnwys yn bennaf derbyniad incwm grant ychwanegol o (£35k) mewn perthynas a Tim Pobl Hyn ac Anabledd Corff.

**Gwasanaethau Darparu** - cynnydd o £88k yn y sefyllfa gorwariant terfynol i fyny i £273k, oherwydd yn bennaf, costau gweithredol uwch o £65k ar Cartrefi Pobl Hyn, a chostau staffio uwch o £9k ar Gartrefi Anabledd Dysgu.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - fe gynhwysir o dan y penawd yma sefyllfa'r "Cynlluniau Arbedion i'w Gwireddu", sef methiant cyflawni o £747k (ac fe adroddir ymhellach ar hyn isod), ond hefyd fe welwyd derbyniad incwm ychwanegol o (£91k) mewn perthynas a'r Gronfa Byw'n Annibynol.

**Crynhoad:**
Fe welir uchod fod nifer o wahaniaethau wedi ychwanegu i roddi tanwariant adrannol net o (£6k) erbyn diwedd y flwyddyn, sydd yn welliant sylweddol iawn o'r darlun a ragwelwyd yn gynharach yn y flwyddyn ac yn adlewyrchu llwyddiant yr Adran hefo nifer o fesurau a gymerwyd i reoli cyllidebau.

Mewn perthynas a sefyllfa "Cynlluniau Arbedion i'w Gwireddu" fel a gyfeirir uchod, mae'r Pennaeth Adran yn bwriadu cynnig rhai cynlluniau arbedion diwygiedig yn lle'r rhai a gynhwysir o fewn y rhaglen gyfredol. I'r perwyl yma, mae hefyd yn awyddus i wneud rhai trosglwyddiadau cyllidol rhwng gwahanol benawdau i adlewyrchu'n well y gofynion gwasanaeth diweddaraf, a thrwy hynny, galluogi cynnig meysydd arbedion effeithlonrwydd arfaethedig, a bydd y Pennaeth Oedolion yn adrodd ymhellach ar hyn.

Gan fod gwerth rhai o'r trosglwyddiadau yma dros y trothwy £200k, gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r pecyn cyfan.

Yn unol a chais y Pennaeth Adran Oedolion argymhellir cymeradwyo trosglwyddiadau y cyllidebau canlynol o fewn yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant :-

**Pennawd Cyllidol / Maes**

| | Lleihau'r Cyllideb | Cyllideb Ychwanegol | Net |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | |
| Preswyl a Nyrsio | (202) | | |
| Gwariant - Cartefi Annibynnol | (330) | | |
| Cyfraniadau Preswylwyr | (31) | | |
| Llety Cefnogol | | | |
| Gofal Cartref | | 60 | |
| | (563) | 60 | (503) |
| Addasu Cyllidebau y Cynlluniau Arbedion Gwreiddiol | | | |
| Ail-ddylunio gwasanaethau | | 235 | |
| Teleofal | | 237 | |
| Tai Gwarchod | | 31 | |
| | 0 | 503 | 503 |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | | | |
| Cartrefi Presywl a Nyrsio Annibynnol | (220) | | |
| Gwasanaethau Cefnogol | (150) | | |
| Llety Cefnogol | | 150 | |
| Gwasanaethau Dydd | | 150 | |
| Taliadau Uniongyrchol | | 70 | |
| | (370) | 370 | 0 |
| **CYFANSYMIAU** | (933) | 933 | 0 |

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 442 | 409 | (33) | 0 | (33) | (28) |
| Gwasanaethau Gweithredol | 1,858 | 2,035 | 177 | 0 | 177 | 187 |
| Gwasanaethau Lleoliadau | | | | | | |
| Uned Breswyl | 270 | 576 | 306 | 0 | 306 | 456 |
| Lleoliadau All-Sirol | 2,233 | 2,213 | (20) | 0 | (20) | (18) |
| Maethu Drwy Asiant | 1,020 | 1,118 | 98 | 0 | 98 | 78 |
| Maethu Mewnol | 1,805 | 1,595 | (210) | 0 | (210) | (204) |
| Eraill | 1,517 | 1,511 | (6) | 0 | (6) | (10) |
| | 6,845 | 7,013 | 168 | 0 | 168 | 302 |
| Gwasanaethau Ôl-16 | 998 | 861 | (137) | 0 | (137) | (147) |
| Gwasanaethau Arbenigol/Derwen | 1,533 | 1,424 | (109) | 0 | (109) | (71) |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid | 264 | 246 | (18) | 0 | (18) | (19) |
| Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar | 122 | 88 | (34) | 0 | (34) | (34) |
| Gwasanaethau Eraill | 1,109 | 1,087 | (22) | 0 | (22) | (39) |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **13,171** | **13,163** | **(8)** | **0** | **(8)** | **151** |

## Crynodeb Plant a Theuluoedd

**Prif Faterion:-**

**Gwasanaethau Gweithredol:**
Mân ostyngiad o (£10k) yn y lefel gorwariant, i lawr i £177k ac yn bennaf oherwydd gorwariant ar staffio. Mae'r Adran yn rhoddi ystyriaeth pellach i'r lefel gorwariant staffio, ac sydd yn batrwm weddol rheolaidd ar y pennawd yma.

**Gwasanaethau Lleoliadau:**
Gostyngiad o (£134k) yn y gorwariant terfynol, i lawr o £302k i £168k, yn bennaf yn dilyn defnydd o (£150k) o adnoddau penodol wrth gefn i liniaru ar sefyllfa yr Uned Breswyl, ble gwelwyd llithriad yn y cynllun arbedion perthnasol i gartref preswyl plant, gyda'r oediad wedi cyfrannu'n sylweddol at y gorwariant terfynol net o £306k.

**Gwasanaethau Arbenigol / Derwen:**
Cynnyddd o (£38k) yn y tanwariant terfynol o (£109k) oherwydd lleihad mewn costau gweithwyr cefnogol a chyflawni cynlluniau arbedion ymlaen llaw.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Addysg** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 70,278 | 70,278 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 4,152 | 4,222 | 70 | 0 | 70 | 58 |
| Diswyddo ac Ymddeol Cynnar | 1,431 | 1,431 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Integreiddio | 189 | 223 | 34 | 0 | 34 | 0 |
| All Sirol | 969 | 901 | (68) | 0 | (68) | (107) |
| Arlwyaeth a Glanhau | 263 | 289 | 26 | 0 | 26 | 49 |
| Addysg Meithrin | 599 | 573 | (26) | 0 | (26) | 0 |
| Grant Gwella Addysg | 579 | 581 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Rheolaeth | 1,351 | 1,308 | (43) | 0 | (43) | (20) |
| Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol | 1,940 | 1,921 | (19) | 0 | (19) | (10) |
| Strategaeth Cynhwysiad | 348 | 316 | (32) | 0 | (32) | (32) |
| Addysg Bellach | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arian wrth Gefn Ysgolion | (40) | 0 | 40 | 0 | 40 | 0 |
| Cyfraniad Addysg i Cyd-Bwyllgorau | 1,576 | 1,571 | (5) | 0 | (5) | 0 |
| Cyd-Bwyllgor ADY | (8) | (8) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | (1,763) | (1,790) | (27) | 0 | (27) | 58 |
| **Cyfanswm Addysg** | **81,864** | **81,816** | **(48)** | **0** | **(48)** | **(4)** |

**Crynodeb Addysg**

**Prif Faterion:-**

**Integreiddio:**
Rhagwelwyd sefyllfa niwtral yn y trydydd chwarter ond erbyn diwedd y flwyddyn gwelwyd gorwariant o £34k, oherwydd y cefnogaeth ychwanegol a ddarparwyd i ddisgyblion hefo anghenion dysgu ychwanegol (heb ddatganiad) oddi fewn yr ysgolion cynradd.

**All-Sirol:**
Lleihad o £39k yn y tanwariant a ragwelwyd, i lawr i (£68k) erbyn diwedd y flwyddyn oherwydd effaith derbyn un achos ychwanegol.

**Darpariaeth Wrth Gefn (Gofynion Arbennig Ysgolion):**
Gwelwyd gwariant ychwanegol o £40k ar y pennawd yma yn y chwarter olaf oherwydd rhyddhau dyraniad ychwanegol i un ysgol o ganlyniad i gynnydd mewn nifer disgyblion.

**Eraill:**
Gwelliant o (£85k) ar y pennawd yma ers y trydydd chwarter, ac sydd yn dangos tan wariant terfynol o (£27k). Yn cynnwys nifer o wahaniaethau, ac yn arbennig tanwariant o (£24k) ar gwasanaethau a chyflenwadau allanol, tanwariant o (£21k) ar Ddarpariaeth Dosbarthiadau Mawr, a tanwariant o (£9k) ar Grantiau Dewisiol.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 383 | 378 | (5) | 0 | (5) | 2 |
| Cefnogaeth Busnes | 7 | 16 | 9 | 0 | 9 | 10 |
| Marchnata a Gofal Cwsmer | 575 | 571 | (4) | 0 | (4) | 0 |
| Adfywio Cymunedol | 808 | 790 | (18) | 0 | (18) | (12) |
| Sgiliau a Maentgarwch | 55 | 63 | 8 | 0 | 8 | 0 |
| Tîm Prosiectau Strategol | 287 | 305 | 18 | 0 | 18 | 0 |
| Strategaeth a Datblygu | 273 | 268 | (5) | 0 | (5) | 0 |
| Archifiau | 312 | 305 | (7) | 0 | (7) | (7) |
| Amgueddfeydd | 97 | 96 | (1) | 0 | (1) | 0 |
| Orielau | 50 | 51 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Neuaddau | 156 | 189 | 33 | 0 | 33 | 21 |
| Celfyddydau | 260 | 256 | (4) | 0 | (4) | 0 |
| Parciau Gwledig | 39 | 28 | (11) | 0 | (11) | (4) |
| Morwrol | (169) | (151) | 18 | 0 | 18 | 17 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 943 | 865 | (78) | 0 | (78) | (78) |
| Gwasanaeth Cymunedau'n Iach (Cyfleusterau Hamdden) | 1,744 | 1,778 | 34 | 0 | 34 | 56 |
| Datblygu Chwaraeon | 197 | 196 | (1) | 0 | (1) | 0 |
| Llyfrgelloedd | 1,542 | 1,560 | 18 | 0 | 18 | 20 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **7,559** | **7,564** | **5** | **0** | **5** | **25** |

## Crynodeb Economi a Chymuned

**Crynhoad:-**

Y sefyllfa adrannol yn dangos gorwariant o £5k erbyn diwedd y flwyddyn sydd yn welliant o (£20k) ers y trydydd chwarter, ac er yn cynnwys nifer o fân wahaniaethau, fe welir fod y gorwariant ar Neuaddauu wedi codi o £21k i £33k oherwydd yn bennaf gostyngiad incwm, ond fod y gorwariant ar Gwasanaethau Cymunedau'n Iach (Cyfleusterau Hamdden) wedi lleihau o £56k yn y trydydd chwarter i £34k erbyn diwedd y flwyddyn.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 8,460 | 8,239 | (221) | 0 | (221) | (56) |
| Gwasanaethau Peirianneg | 529 | 541 | 12 | 0 | 12 | 16 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | | | | | | |
| Gwastraff | | | | | | |
| Gwaredu Gwastraff | 2,530 | 2,440 | (90) | 0 | (90) | (112) |
| Safleoedd Trin a Throsglwyddo | 1,047 | 1,253 | 206 | 0 | 206 | 224 |
| Canolfannau Ailgylchu | 1,128 | 1,114 | (14) | 0 | (14) | (51) |
| Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | 2,965 | 3,139 | 174 | 0 | 174 | 73 |
| Eraill Gwastraff | 338 | 408 | 70 | 0 | 70 | 111 |
| Is-Gyfanswm Gwastraff | 8,008 | 8,354 | 346 | 0 | 346 | 245 |
| Eraill Bwrdeistrefol | 3,732 | 3,453 | (279) | 0 | (279) | (204) |
| | 11,740 | 11,807 | 67 | 0 | 67 | 41 |
| Uned Darparu Bwrdeistrefol | 836 | 918 | 82 | 0 | 82 | |
| Uned Darparu Gwastraff | (155) | (124) | 31 | | 31 | |
| Uned Fflyd | 148 | 171 | 23 | 0 | 23 | |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)** | **21,558** | **21,552** | **(6)** | **0** | **(6)** | **1** |

**Crynodeb Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)**

**Prif Faterion:-**

**Gwasanaethau Priffyrdd (Cynnwys Cefnffyrdd):**
Cynnydd o (£165k) yn y tanwariant terfynol ers y trydydd chwarter, ac yn cynnwys sawl elfen, yn arbennig effaith gaeaf mwyn ar gostau cynnal gaeaf, arbedion staffio a chostau teithio unwaith ac am byth o (£93k) a thanwariant o (£48k) ar gostau ynni goleuo strydoedd.

**Maes Gwastraff:**
Gwaredu Gwastraff - gwelwyd tanwariant terfynol o (£90k) ar y penawd yma, yn bennaf oherwydd arbedion mewn costau treth tir lenwi.

Safleoedd Trin a Throsglwyddo - gorwariant terfynol o £206k ac yn cynnwys diffyg incwm o £298k o werthiant deunyddiau ailgylchu oherwydd sefyllfa cyfredol y farchnad berthnasol, ond hefyd tanwariant o (£98k) mewn costau gweithredol.

Casglu Gwastraff ac Ailgylchu - cynnydd o £101k yn y sefyllfa gorwariant terfynol o £174k ar Casglu Gwastraff ac Ailgylchu ers y trydydd chwarter ac yn cynnwys, yn bennaf, diffyg incwm o £32k, costau uwch o £23k i ymdrin â deunyddiau ailgylchu a gorwariant o £119k ar gostau gweithredol, yn bennaf, costau trafnidiaeth uwch.

**Eraill Bwrdeistrefol:**
Tanwariant terfynol o (£279k), ac yn cynnwys tanwariant o (£117k) ar Tiroedd Agored, yn bennaf oherwydd incwm ychwanegol o (£97k) ac arbedion ar rhai elfennau o gostau gweithredol, tanwariant o (£99k) ar Wasanaethau Profedigaeth (yn bennaf oherwydd incwm ychwanegol) a tanwariant o (£76k) ar Glanhau Strydoedd, yn bennaf tanwariant ar gostau staffio.

**Crynhoad**
Er y gwelir sefyllfa adrannol net o fân danwariant o (£6k), o fewn hyn mae yna rhai gwahaniaethau sylweddol, yn arbennig o fewn y maes gwastraff. Bydd angen ystyrieaeth fwy tymor hir i osgoi darlun parhaol yn datblygu.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Rheoleiddio** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 232 | 226 | (6) | 0 | (6) | (8) |
| Gwasanaethau Cynllunio | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu | 203 | 107 | (96) | 0 | (96) | (112) |
| Eraill | 16 | (3) | (19) | 0 | (19) | (18) |
| | 219 | 104 | (115) | 0 | (115) | (130) |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Cynllunio Ymlaen | 44 | 36 | (8) | 0 | (8) | (6) |
| Cynnal Adeiladweithiau | 1,128 | 1,153 | 25 | 0 | 25 | 154 |
| Diogelwch y Ffyrdd | 182 | 146 | (36) | 0 | (36) | (40) |
| Traffig a Threfniadau Statudol | 258 | 246 | (12) | 0 | (12) | (11) |
| Gwasanaethau Parcio a Datblygiad Gorfodaeth Parcio | (1,475) | (1,558) | (83) | | (83) | (83) |
| Cludiant | 1,704 | 1,674 | (30) | 0 | (30) | (26) |
| Eraill | 230 | 232 | 2 | 0 | 2 | 3 |
| | 2,071 | 1,929 | (142) | 0 | (142) | (9) |
| Gwasanaethau Cefn Gwlad a Mynediad | 944 | 1,031 | 87 | 0 | 87 | 17 |
| Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 237 | 237 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd | 1,599 | 1,553 | (46) | 0 | (46) | 15 |
| Gwasanaethau Arlwyo, Glanhau a Gofalu | (2) | (1) | 1 | 0 | 1 | 5 |
| Gwasanaethau Eiddo | 1,454 | 1,435 | (19) | 0 | (19) | (12) |
| Argymhelliad | | | | 150 | 150 | |
| **Cyfanswm Rheoleiddio** | **6,754** | **6,514** | **(240)** | **150** | **(90)** | **(122)** |

**Crynodeb Rheoleiddio**

**Prif Faterion:-**

**Rheolaeth Datblygu:**
Tanwariant net terfynol o (£96k), ac yn cynnwys yn bennaf, derbyniad incwm ffioedd ychwanegol ynghyd â thanwariant ar rhai costau gweithredol.

**Cynnal Adeiladweithiau:**
Fe ragwelwyd gorwariant cynllunedig ar y penawd yma yn y trydydd chwarter i ymateb i'r problemau yn sgil llifogydd y gaeaf diwethaf. Fodd bynnag, erbyn diwedd y flwyddyn roedd y lefel gorwariant yn llawer îs na fwriadwyd yn wreiddiol, ac yn gadael gorwariant net o £25k.

**Gwasanaethau Parcio:**
Y darlun terfynol yn gyson a'r sefyllfa a ragwelwyd yn y trydydd chwarter, sef gweddill o (£83k), ac yn bennaf o ganlyniad dderbyniad incwm ychwanegol.

**Crynhoad:**
Wrth ystyried yr Adolygiad Strategol Priffyrdd, penderfyniad y Cabinet oedd i gymeradwyo datblygu trefn archwilio ac asesu pontydd, sef i adnabod cyflwr ein asedau. Fe amcangyfrifwyd cost o £104k, ac i'w ariannu o'r gronfa buddsoddi i arbed.

Fe welir cyfle yma hefo'r Adran Rheoleiddio yn dangos sefyllfa tanwariant gros o (£240k) i hunan-ariannu'r gost o'r tanwariant adrannol, yn hytrach na defnyddio cronfeydd canolog. Mae'r Pennaeth Rheoleiddio (dros dro) hefyd yn awyddus i ymestyn y gwaith perthnasol i gynnwys asedau ychwanegol fel chwlferi a rhai waliau cynnal, ar gost o £46k ychwanegol, sy'n gwneud cyfanswm o £150k.

**Fe argymhellir** defnyddio £150k o'r sefyllfa tanwariant gros yr Adran Rheoleiddio am 2015/16 ar gyfer datblygu trefn archwilio ac asesu cyflwr pontydd, cwlferi a rhai waliau cynnal.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd, Peirianneg ac Amgylchedd | (439) | (388) | 51 | 0 | 51 | (118) |
| Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd | 417 | 417 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Adeiladu | (17) | (34) | (17) | 0 | (17) | (19) |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **(39)** | **(5)** | **34** | **0** | **34** | **(137)** |

## Crynodeb Ymgynghoriaeth

**Prif Faterion:-**

**Gwasanaeth Ffyrdd, Peirianneg ac Amgylchedd:**

Fe ragwelwyd sefyllfa tanwariant o (£118k) ar y pennawd yma yn y trydydd chwarter, ond erbyn diwedd y flwyddyn ariannol fe welwyd newid o £169k i ddangos sefyllfa gorwariant o £51k. Mae nifer o resymau am y newid yma, gan gynnwys gor-ptimistaidd am y lefel gwaith yn y chwarter olaf, rhai cynlluniau a ragwelwyd wedi llithro i'r flwyddyn newydd, a sefyllfa fwy cystadleuol hefo prisiau gwaith a ddisgwylir gan gleientiaid.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adrannau Canolog** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,025 | 2,005 | (20) | 0 | (20) | (30) |
| Cyllid | 5,604 | 5,534 | (70) | 0 | (70) | (69) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,286 | 7,191 | (95) | 0 | (95) | (96) |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **14,915** | **14,730** | **(185)** | **0** | **(185)** | **(195)** |

## Crynhoad Sefyllfa Adrannau Canolog

**Prif Faterion:-**

**Cyllid:**

Sefyllfa tanwariant o (£70k) sydd yn weddol gyson gyda'r hyn a ragwelwyd yn y trydydd chwarter, ac yn bennaf o ganlyniad i arbedion ar swyddi, sydd yn gyfuniad o arbedion a wireddwyd yn fuan ynghyd ag arbedion oherwydd trosiant staff.

**Cefnogaeth Gorfforaethol:**

Eto, y sefyllfa terfynol o danwariant o (£95k), yn weddol gyson a'r hyn a ragwelwyd yn y chwarter diwethaf, ac yn cynnwys gorwariant o £25k ar Comisiynu Corfforaethol a Chefnogi Newid, tanwariant o (£17k) ar Democratiaeth a Chefnogi Cyflawni a tanwariant o (£101k) ar Adnoddau Dynol, yn bennaf oherwydd llwyddiant i ddenu incwm allanol ychwanegol a gwireddu arbedion staffio ymlaen llaw.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| Crynhoad Sefyllfa Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau) | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Addasedig | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth y Cyngor | * | * | (427) | 0 | (427) | (32) |
| Budd-daliadau | * | * | (394) | 0 | (394) | (105) |
| Derbyniad Llog Net | * | * | 94 | 0 | 94 | 216 |
| Incwm Ychwanegol Cyffredinol | * | * | (66) | 0 | (66) | * |
| Eraill | * | * | (59) | 0 | (59) | (82) |
| Darpariaeth Penodol Chwyddiant Ynni a Thanwydd | * | * | (359) | 0 | (359) | * |
| Gofynnion Partneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru | * | * | 0 | 150 | 150 | * |
| Cyfrannu tuag at Strategaeth Ariannol 2016/17 | * | * | 0 | 769 | 769 | * |
| Cyfrannu tuag at Strategaeth Ariannol 2015/16 | * | * | 0 | 292 | 292 | * |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(1,211)** | **1,211** | **0** | **(3)** |

## CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

| | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Addasedig | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Treth y Cyngor** | | | **(427)** | | **(427)** | **(32)** |

Sefyllfa "tanwariant" terfynol sydd yn adlewyrchu cynnydd yn y cyfanswm taladwy ar yr holl gyfrifon Treth Cyngor.

**Budd-daliadau**

| Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(394)** | | **(394)** | **(105)** |

Yn unol â'r tueddiad a ragwelwyd yn flaenorol, bu tanwariant terfynol o (£394k).

**Derbyniad Llog Net**

| Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **94** | | **94** | **216** |

Er y gwelwyd ad-daliad pellach o (£137k) o'r buddsoddiad Heritable sy'n dod a'r cyfanswm a dalwyd yn ôl hyd yma i bron i 98.5%, gyda disgwyliad i'r cyfan gael ei dalu'n ôl maes o law, fe welwyd hefyd ostyngiad o £231k yng ngweddill o'r llog a dderbyniwyd sydd yn adlewyrchu sefyllfa'r farchnad yn gyffredinol.

**Incwm Ychwanegol Cyffredinol**

| Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(66)** | | **(66)** | |

Adennill incwm ychwanegol o weithgareddau allanol.

| | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Eraill** | | | **(59)** | | **(59)** | **(82)** |

Sefyllfa net derfynol sy'n cynnwys cyfuniad o amrywiol wahaniaethau ar nifer o benawdau.

| | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Darpariaeth Penodol Chwyddiant Ynni a Thanwydd** | | | **(359)** | | **(359)** | |

Y sefyllfa terfynol am 2015/16 yn caniatau rhyddhau gweddill y ddarpariaeth.

**Gofynnion Partneriaerth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru**

| Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | **150** | **150** | |

Fel y gynhwysir mewn adroddiad ar wahan i'r cyfarfod yma, fe welir fod costau ychwanegol yn codi mewn perthynas â'r rhan comisiynu o'r Bartneriaeth Gwastraff. Er bod y gofyn dros y ddwy flynedd nesaf dros £600k, rhagwelir am y tro y byddai £150k yn fwy na digon ar gyfer gofynion 2016/17.

**Fe argymhellir** fod £150k o'r sefyllfa tanwariant ar Gyllidebau Corfforaethol am 2015/16 yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn perthnasol i'r Bartneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru ar gyfer gofynion 2016/17, gyda'r gweddill sydd ei hangen ar gyfer 2017/18 i'w adnabod wrth ystyried y strategaeth ariannol am y flwyddyn honno.

**Cyfrannu Tuag at Strategaeth Ariannol 2016/17**

| Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | **769** | **769** | |

Roedd penderfyniad ar y Strategaeth Ariannol ar gyfer 2016/17 yn cynnwys angen i adnabod cyfanswm o £2.780m o wahanol ffynhonellau (reserfau, a.y.y.b) i gynorthwyo'r pecyn ariannu angenrheidiol am y flwyddyn.

Fe gynhwysir yn Atodiad 3, fanylion o'r gwaith cynhaeafu ac adolygu a wnaethpwyd o wahanol ffynhonellau ac fe adnabuwyd cyfanswm o £2.011m i'w rhyddhau.

Yn ychwanegol felly mae angen £769k pellach i gyrraedd y cyfanswm angenrhediol o £2.780m.

**Fe argymhellir** trosglwyddo £769k o tanwariant ar Gyllidebau Corfforaethol am 2015/16 i gronfa er mwyn ariannu strategaeth ariannol 2016/17.

**Cyfrannu Tuag at Strategaeth Ariannol 2015/16 (a defnydd o falansau)**

| Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | **292** | **292** | |

Roedd penderfyniad ar y Strategaeth Ariannol ar gyfer 2015/16 yn cynnwys defnyddio £2.019m o falansau'r Cyngor.

Rydym eisioes yn ystod adolygiadau chwarter 2 a chwarter 3 eleni wedi manteisio ar amgylchiadau ffafriol i drosglwyddo i gronfa benodol cyfanswm o £894k tuag at y sefyllfa ariannol y Cyngor.

Gellir rwan ychwanegu y gweddill sydd ar gael o'r tanwariant a welir ar penawdau Cyllidebau Corfforaethol uchod i'r pwrpas, sef £292k.

Mae'r defnydd o (£894k) o'r adolygiadau chwarterol blaenorol ynghyd â'r (£292k) o'r sefyllfa tanwariant Cyllidebau Corfforaethol (uchod) am 2015/16 yn rhoddi cyfanswm o (£1,186m), ac yn golygu ein bod wedi gallu lleihau y gofyn yn erbyn balansau'r Cyngor am eleni o (£2,019m) fel a benderfynwyd yn wreiddiol i lawr i (£833k).

**Fe argymhellir** defnyddio £292k o tanwariant Cyllidebau Corfforaethol am 2015/16 er mwyn ariannu strategaeth ariannol 2015/16.

Golygir hyn wneud defnydd o £833k o falansau'r Cyngor yn hytrach na'r £2.019m gwreiddiol er mwyn cwblhau pecyn ariannu ar gyfer strategaeth ariannol 2015/16.

## Cynhaeafu Cronfeydd

Atodiad 3

Yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, argymhellir rhyddhau'r symiau canlynol ar gyfer defnydd Strategaeth Ariannol 2016/17:

| Cronfa | Swm i'w rhyddhau (£) |
|---|---|
| Cronfa Stiwardiaeth Amgylcheddol | 35,672.91 |
| Partneriaeth Gwynedd a Môn - Uned Cefnogi Partneriaeth ar y Cyd | 67,190.00 |
| Ariannu swyddi rheolwyr prosiect | 50,000.00 |
| Cyfraniad tuag at ofynion trefniadau Caffael Gogledd Cymru | 16,500.00 |
| Cynllun Gweithio Unigol | 68,000.00 |
| Gofynion Democratiaeth | 35,000.00 |
| Ariannu prosiectau er mwyn creu arbedion i'r dyfodol | 17,560.00 |
| Cronfa ar gyfer cyflogi graddedigion | 4,030.00 |
| Ariannu Swyddog Cyfathrebu Mewnol dros dro | 55,400.00 |
| Gofynion Maes Diwygio Lles | 161,000.00 |
| Swydd Hyrwyddo Budd-daliadau | 24,140.00 |
| Prosiect Ymgysylltu | 20,000.00 |
| Gofynion Gwarchod y Cyhoedd | 66,450.00 |
| Gweithiau Cyffredinol Contractau | 100,000.00 |
| Reserf Tendro Contractau | 150,000.00 |
| **Cyfanswm** | **870,942.91** |

## Adolygiad o Anghenion Darpariaethau

Yn dilyn adolygiad o anghenion y darpariaethau, argymhellir rhyddhau'r canlynol ar gyfer defnydd Strategaeth Ariannol 2016/17:

| Darpariaeth | Swm i'w rhyddhau (£) |
|---|---|
| Adolygiad Tâl | 540,000.00 |
| Darpariaeth Pensiwn (Corfforaethol) | 400,000.00 |
| Darpariaeth Gofynion Trafnidiaeth | 200,000.00 |
| **Cyfanswm** | **1,140,000.00** |

| | |
|---|---|
| **CYFANSWM** | **2,010,942.91** |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
7 Mehefin 2016

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins – Aelod Cabinet Adnoddau

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2015/16 - Adolygiad Diwedd Blwyddyn (31 Mawrth 2016)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2016) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- lleihad £3,068,000 mewn defnydd o fenthyca heb gefnogaeth
- cynnydd £2,023,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- lleihad £22,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- cynnydd £80,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- cynnydd £546,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu

---

**1. Cyflwyniad / Crynodeb**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r broses cau cyfrifon 2015/16. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 5:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £82.215m am y 3 blynedd 2015/16 – 2017/18.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r lleihad net oddeutu £0.441m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae manylion ar lefel rhai cynlluniau penodol yn yr atodiadau er gwybodaeth:

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2015/16 i 2016/17

**2. Prif Gasgliadau:**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw -

- Llwyddodd y Cyngor i wario dros £38m yn 2015/16 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £20m wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Bydd £9.5m o gyllideb gwariant yn llithro o 2015/16, o'i gymharu â'r llithriad o £15m ar ddiwedd 2014/15. Ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3 RHAGLEN GYFALAF 2015/16 i 2017/18

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig hyd at ddiwedd Mawrth 2016:

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 12,354 | 17,735 | 7,959 | 38,048 | (31) |
| Cyllid | 494 | 872 | - | 1,366 | 10 |
| Economi a Chymuned | 5,147 | 1,922 | - | 7,069 | (33) |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 3,399 | 2,423 | - | 5,822 | (1,188) |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 495 | 928 | 155 | 1,578 | 108 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 103 | - | - | 103 | 4 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 4,508 | 3,799 | 2,413 | 10,720 | 540 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 348 | 119 | - | 467 | - |
| Rheoleiddio | 11,314 | 5,261 | 51 | 16,626 | 69 |
| Ymgynghoriaeth | 191 | 23 | - | 214 | 80 |
| Corfforaethol | - | 202 | - | 202 | - |
| **CYFANSWM** | **38,353** | **33,284** | **10,578** | **82,215** | **(441)** |

## 4 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

Mae lleihad o £0.441m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,126 | 6,637 | 2,817 | 13,580 | - |
| Benthyca Arall (gan gynnwys benthyca heb gefnogaeth) | 1,903 | 9,322 | 1,620 | 12,845 | (3,068) |
| Grantiau a Chyfraniadau | 20,454 | 8,535 | 3,222 | 32,211 | 2,023 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,622 | 894 | - | 2,516 | (22) |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 4,796 | 1,281 | 300 | 6,377 | 80 |
| Cronfa Cyfalaf | 1,612 | 2,432 | 155 | 4,199 | - |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 3,840 | 4,183 | 2,464 | 10,487 | 546 |
| **CYFANSWM** | **38,353** | **33,284** | **10,578** | **82,215** | **(441)** |

**5 ARGYMHELLION**

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2015/16 i 2017/18, a**
- **chymeradwyo'r ffynonellau ariannu berthnasol (para. 4 uchod).**

**6. Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2015/16 - 2017/18.

**7. Ystyriaethau perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

**8. Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen fel bydd modd i'r Adran Gyllid symud ymlaen i gau cyfrifon ariannol y Cyngor ar gyfer 2015/16, gan gyhoeddi'r datganiadau statudol erbyn diwedd mis Mehefin.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Rwy'n ddiolchgar am yr adroddiad sydd yn cadarnhau eto eleni na gollwyd unrhyw adnoddau gan y Cyngor yn sgil llithriad. Fodd bynnag, fel mae'r adroddiad yn nodi, mae'r llithriadau a welwyd yn ystod y flwyddyn wedi golygu oedi mewn gwireddu canlyniadau i drigolion ac efallai bod angen edrych ar ba wersi y gellir eu dysgu o hynny er mwyn ceisio osgoi ail-adrodd yr un gwendidau.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiad**
Atodiadau A a B

---------------------------

**ATODIAD A**

**PRIF NEWIDIADAU FESUL FFYNHONNELL ARIANNU:**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu yn ystod y chwarter diwethaf:

| | 2015/16 £'000 |
|---|---|
| **Benthyca Arall (gan gynnwys Benthyca Heb Gefnogaeth)** | |
| • Cynlluniau Ysgolion Ganrif 21 – addasiad technegol i gyfnewid benthyciad a dderbynnir gan y Llywodraeth am grant (Adran Addysg) – gweler hefyd Grantiau isod | (2,000) |
| • Cronfa Benthyciadau Tai (Uned Tai) - addasiad technegol, sy'n deillio o reidrwydd rheolau cyfrifo i beidio â'i gynnwys yng nghyfrifon y Cyngor, gan fod y Cyngor yn gweithredu fel asiant i'r Llywodraeth. | (900) |
| • Cerbydau Uned Gwaith Bwrdeistrefol (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) - cyfnewid ffynhonnell ariannu, gan ddefnyddio cronfa adnewyddu yn hytrach na benthyca - gweler hefyd Cronfeydd Adnewyddu isod | (121) |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | |
| • Cynlluniau Ysgolion Ganrif 21 – addasiad technegol ble derbyniwyd grant hwyr gan y Llywodraeth i ddisodli'r angen i fenthyca (Adran Addysg) – gweler hefyd Benthyca uchod | 2,000 |
| • Cynlluniau Argyfwng (Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol) - grant gan y Llywodraeth ar gyfer y gwaith adfer yn dilyn llifogydd a tywydd garw Gaeaf 15/16 | 400 |
| • Prosiect 'ECO' Arbed (Uned Tai) – lleihad yn yr angen ar gyfer y grant Cartrefi Clyd (Llywodraeth Cymru) | (385) |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | |
| • Nifer o fan gynlluniau | (22) |
| **Refeniw Adrannol** | |
| • Nifer o fan gynlluniau | 80 |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | |
| • Academi Hwylio (Adran Economi a Chymuned) – defnydd uwch o gronfeydd adrannol i ddiweddaru'r proffil gwariant | 217 |
| • Biniau Cartgylchu (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) – gwariant uwch yn sgil y newid o finiau ailgylchu i'r math yma o gynhwysydd | 126 |
| • Cerbydau Uned Gwaith Bwrdeistrefol (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) - cyfnewid ffynhonnell ariannu, gan ddefnyddio cronfa adnewyddu yn hytrach na benthyca - gweler hefyd Benthyca uchod | 121 |

---------------------------

## AIL-BROFFILIO CYLLIDEB – PRIF GYNLLUNIAU:

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi'u hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2015/16 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| • Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) | (3,562) | 3,562 |
| • Cerbydau'r Cyngor (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) | (1,612) | 1,612 |
| • Cynlluniau Rheoli Carbon (Adran Rheoleiddio) | (1,548) | 1,548 |
| • Ystafelloedd Ddosbarth Dros Dro mewn Ysgolion (Adran Addysg) | (351) | 351 |
| • Cynlluniau Technoleg Gwybodaeth (Adran Gyllid) | (313) | 313 |
| • Cynllun i-Gwynedd (EDRMS) (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) | (298) | 298 |
| • Adfywio Tref a Glannau Caernarfon (Adran Economi a Chymuned) | (203) | 203 |

**NODER:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

---------------------------

**ADRODDIAD I'R CABINET**
7 Mehefin, 2016

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd John Wynn Jones

**Pwnc:** Darpariaeth Toiledau Cyhoeddus yng Ngwynedd

**Swyddog cyswllt:** Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

---

**Y penderfyniad a geisir**

Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Craffu Cymunedau, i addasu'r penderfyniad i wneud toriad o £244,000 yn y gwasanaeth drwy yn gyntaf ymgeisio i sefydlu partneriaethau gyda chymunedau lleol er mwyn osgoi cau'r cyfleusterau tra'n cyflawni'r un swm o doriad.

---

**Cyflwyniad**

Yn dilyn ymarferiad ymgysylltu Her Gwynedd, bu i'r Cyngor yn ei gyfarfod 3 Mawrth, 2016 argymell gwneud toriadau oedd yn cynnwys 'cau 50 allan o 73 o doiledau cyhoeddus y Sir' gan dorri £244,000 o'r gyllideb ar gyfer y gwasanaeth.

Mae disgwyliad bod rhaid cyflawni'r £244,000 toriad erbyn 1 Ebrill, 2017 ar yr hwyraf. Ynghyd â'r Pennaeth Adran perthnasol, 'rwyf wedi datblygu cynllun amgen i gadw cymaint â phosib o doiledau yn agored a gweithredol tra'n cyflawni'r un swm o doriad.

Bu i mi gyflwyno'r Cynllun amgen i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn ei gyfarfod 19 Mai, 2016 (gweler Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn) i bwrpas sefydlu os oedd cefnogaeth i'r Cynllun ac i bwrpas derbyn awgrymiadau o ran unrhyw welliannau i'r Cynllun.

Mae'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r Cynllun sydd yn ddibynnol ar sefydlu partneriaethau gyda Chynghorau Cymuned a Thref, ac wedi cynnig gwelliannau i'r Cynllun Partneriaethu. Argymhelliad y Pwyllgor Craffu yw bod y Cabinet yn addasu'r penderfyniad i dorri £244,000 o'r gwasanaeth drwy yn gyntaf rhoddi cyfle i wireddu'r Cynllun hwn ac i bwrpas cyflawni'r un swm o doriad.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Pe byddai gwireddu toriad drwy gau 50 allan o 73 o doiledau cyhoeddus y Sir, mae'n debyg byddai hyn yn cael ei wireddu ar sail gwerthusiad o 'bwysigrwydd' y toiledau ddatblygwyd gan Weithgor y Pwyllgor Amgylchedd yn 2008/09.

Mewn gwireddu'r Cynllun Partneriaethu mae posibiliad, drwy gefnogaeth a chydweithrediad Cynghorau Cymuned a Thref, cadw nifer fawr o doiledau yn agored i'r dyfodol er y toriad yn y gyllideb berthnasol.

Mae manteision eraill i'r cymunedau a'r Cyngor mewn gwneud hyn e.e. posibiliad o ddatblygu trefniadaeth amgen ar gyfer cadw'r ddarpariaeth i'r dyfodol, sicrhau bod y gymuned leol yn cael dylanwad ar reoli'r ddarpariaeth, posibiliadau o welliannau i'r ddarpariaeth i'r dyfodol a rhoddi gwell sicrwydd cyflogaeth i'r rhai sydd yn cynnal a glanhau'r toiledau.

**Ystyriaethau perthnasol**

Mae'r Pwyllgor Craffu yn argymell y drefn o ddisgwyl cyfraniad wedi ei osod ar £4000 neu £2000 y flwyddyn (agored drwy'r flwyddyn neu dymhorol) gan gynghorau cymuned a thref.

Rhaid i'r partneriaethau perthnasol fod mewn lle ar gyfer derbyn y cyfraniadau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2017/18 ac fel bod y toriad o £244,000 i'r gwasanaeth yn cael ei wneud.

Pe byddai ddim diddordeb mewn partneriaethu i gynnal y ddarpariaeth yna bydd disgwyl i'r toiled dan sylw gau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, sef 2016/17.

Bu i'r Pwyllgor Craffu hefyd argymell:

- bod angen edrych eto ar y cyfleon i godi tal ar ddefnydd toiled fyddai'n cynorthwyo i gyfrannu tuag at gostau rhedeg y ddarpariaeth (Bydd angen cynghori Cynghorau Cymuned a Thref sydd â diddordeb yn y mater hwn).
- bod angen ymchwilio os oes modd ymestyn ymhellach Gynllun Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Toiledau Cymunedol lle mae busnesau lleol a mentrau cymunedol yn derbyn grant am ddefnydd cyhoeddus o'u toiledau, ac er mwyn cynyddu'r nifer o leoliadau sydd ar gael i'r cyhoedd.

Asesiad Cydraddoldeb

Cyn gwneud penderfyniad, mae gan bob unigolyn yn y sector gyhoeddus ddyletswydd i ystyried effaith debygol y penderfyniad ar bobl sydd â nodweddion sy'n cael eu gwarchod gan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010). Wrth gyflwyno'r arbediad yma i'r Cabinet a'r Cyngor ym Mis Mawrth paratowyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb oedd yn adnabod effeithiau posib y cynllun gwreiddiol a gymerwyd i ystyriaeth wrth ddod i benderfyniad ar lefel y toriad ariannol. Atodi'r yr asesiad i'r adroddiad. Bwriad y cynllun yma yw rhoi cyfle i Gynghorau Cymuned gynnal cyfleusterau cyhoeddus yn eu hardal. Mae hyn eto yn gyfrwng i fireinio effaith y toriad posib ar y ddarpariaeth gyhoeddus. Fe adroddir yn ôl i'r Cabinet ar ganlyniad y prosiect yn yr Hydref ac fe ail ymwelir â'r asesiad cydraddoldeb wrth gloriannu'r modd y bwriedir symud ymlaen i benderfynu ar unrhyw gamau pellach i wireddu'r arbediad."

Bil Iechyd Cyhoeddus

Mae synau o'r Llywodraeth yn awgrymu nad yw'r bil yma wedi mynd i ffwrdd yn gyfan gwbl a gall felly ail ymddangos gydag angen ar gyfer y strategaeth a gweithredu ar ddarparu cyfleusterau. Yn ymarferol gellir rhagdybio fod gofyn i drefn cytundebol fod yn ddigon cadarn i sicrhau ymrwymiad tymor hir digonol gan y cynghorau cymuned. Mae angen osgoi'r risg o scenario ble mae strategaeth yn adnabod angen am doiled mewn lleoliad heb fedru sicrhau cefnogaeth neu ymrwymiad cyngor cymuned ar ei gyfer.

**Camau nesaf ac amserlen**

Ar gael cymeradwyaeth y Cabinet i geisio gwireddu'r Cynllun Partneriaethu yn gyntaf, bydd yr Adran berthnasol yn ymgysylltu â'r Cynghorau Cymuned a Thref i bwrpas sefydlu os oes cefnogaeth i bartneriaethu. Oherwydd yr angen cyflawni'r toriad erbyn 1 Ebrill, 2017 bydd angen cadarnhau'r sefyllfa o ran y Cynllun hwn erbyn Medi 2016.

Rhagwelir felly, bydd diweddariad ar y mater hwn yn derbyn sylw'r Cabinet yn ei gyfarfod 4 Hydref, 2016.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'r adroddiad sydd gerbron yn cynnig cynllun amgen ar gyfer gwireddu toriad y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddo. Mae'n gynnig fydd, o dderbyn cefnogaeth y cynghorau tref a chymuned, yn fodd i warchod adnoddau o fewn cymunedau tra'n gwireddu'r arbediad y mae'n rhaid i'r Cyngor ei wneud. Gwelaf o'r adroddiad bod y Pwyllgor Craffu wedi croesawu'r datblygiad hwn yn amodol ar rhai sylwadau. Yn amlwg, bydd y trafodaethau gyda'r cynghorau cymuned yn allweddol er mwyn i hyn lwyddo.

**Y Swyddog Monitro:**

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ym mis Mawrth i gwtogi'r gyllideb cyfleusterau cyhoeddus, mae'r adroddiad yn cynnig cynllun all fod yn gyfrwng i wireddu'r arbediad tra'n lleihau ardrawiad ar lefel y ddarpariaeth sydd yn y Sir. Mae'r model cytundebol ariannol hefyd yn cynnig modd hyblyg ac ymarferol o weithio mewn partneriaeth i gadw darpariaeth heb orfod ymdrin â'r cymhlethdodau all godi gyda throsglwyddiad ffurfiol o'r ased. Mae'n amlwg y bydd angen sefydlu trefn gytundebol gadarn a thymor hir ar gyfer gweithredu canlyniadau'r prosiect.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwy'n croesawu'r cynllun amgen o bartneriaethu gyda Chynghorau Cymuned a Thref. Byddai hyn yn golygu cadw'r ddarpariaeth yn agored a gweithredol, yn ogystal â chynnal cyflogaeth gweithwyr sy'n glanhau. Nodaf fod yr amserlen yn caniatáu i Gynghorau Cymuned a Thref addasu eu praeseptau rhwng rŵan a Ionawr erbyn 2017/18. Diau na fydd pob Cymuned a Thref yn manteisio ar y cyfle i gadw pob cyfleuster yn agored, ond mae'n cynnig ffordd arall o wireddu'r arbedion o £244k penderfynwyd arno eisoes fel rhan o arbedion 'Her Gwynedd' a strategaeth ariannol 2016/17 - 2017/18.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 19 Mai 2016 |
| **TEITL** | Toiledau Cyhoeddus |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd John Wynn Jones |
| **PWRPAS** | I ystyried a gwneud argymhelliad ar Gynllun i geisio cadw toiledau cyhoeddus sydd dan fygythiad o gau oherwydd y toriadau yn agored a gweithredol i'r dyfodol. |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn dilyn ymarferiad ymgysylltu Her Gwynedd bu i'r Cyngor yn ei gyfarfod 3 Mawrth, 2016 argymell gwneud toriadau oedd yn cynnwys 'cau 50 allan o 73 o doiledau cyhoeddus y Sir' gan dorri £244,000 o'r gyllideb ar gyfer y gwasanaeth.

1.2 Pe byddai gwireddu hyn, rhagwelir dethol pa rai i'w cadw neu gau ar sail gwerthusiad o bwysigrwydd toiledau ddatblygwyd gan Weithgor Toiledau Cyhoeddus (Pwyllgor Amgylchedd) yn 2008/2009 dan y meini prawf canlynol:

- lefel defnydd
- cysylltiad a'g atyniad i ymwelwyr
- defnydd gan fodurwyr ar gefnffyrdd neu Ffyrdd Dosbarth 1 a 2
- cysylltiad â chanolfan siopau
- cyfleusterau ar gyfer yr anabl
- cysylltiad â chyfnewidfa cludiant cyhoeddus e.e. gorsaf bysiau
- cysylltiad â Thraeth Banner Las.

1.3 Mae disgwyliad bod rhaid cyflawni'r £244,000 toriad erbyn 1 Ebrill, 2017 ar yr hwyraf. Ynghyd â'r Pennaeth Adran perthnasol, 'rwyf wedi edrych os oes modd datblygu cynllun amgen i gadw cymaint a phosib o doiledau yn agored a gweithredol er y gostyngiad sylweddol mewn cyllideb.

1.4 Pwrpas yr Adroddiad hwn yw i gael argymhelliad y Pwyllgor Craffu ar gynllun amgen i gwrdd â'r toriad gan geisio cynnal y ddarpariaeth bresennol o Doiledau Cyhoeddus yn y Sir.

## 2 CYNLLUN PARTNERIAETHU I GYNNAL DARPARIAETH

2.1 Yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn mae rhestr o doiledau cyhoeddus mae'r Cyngor hwn yn eu darparu ar hyn o bryd.

Mae'r rhestr yn cynnwys:

- tref/pentref/cyngor cymuned neu gyngor tref perthnasol
- lleoliad y toiled
- cyfnod agor: sef trwy'r flwyddyn neu dymhorol (fel arfer o'r Pasg hyd ddiwedd mis Hydref)
- nodi unrhyw drefn partneriaethu presennol
- amcangyfrif gorau o gost ar gyfartaledd gweithredu'r toiled yn flynyddol.

2.2 Mae'r Cynllun yn ddibynnol ar ennyn diddordeb Cynghorau Cymuned a Thref i bartneriaethu er mwyn sicrhau parhad y ddarpariaeth yn 2017/18. Disgwylir cyfraniad ariannol gan y Cynghorau Cymuned a Thref i'r pwrpas ac mae dau opsiwn mewn gwneud hyn sef:

- **Opsiwn 1:** lefel cyfraniad o £4000 i bob toiled yn agored drwy'r flwyddyn a chyfraniad o £2000 i bob toiled sy'n agored yn dymhorol.

- **Opsiwn 2:** cyfraniad cyfwerth a thraean (33.3%) cost blynyddol ar gyfartaledd o weithredu'r toiled.

2.3 Yn amlwg, mae gan rai cynghorau cymuned a thref fwy na un toiled yn eu cymuned/tref ac mae'r rhestr yn Atodiad 1 yn cynnwys cyfanswm cyfraniad blynyddol y gymuned neu dref ar gytuno i bartneriaethu dan y Cynllun.

2.4 Mae'r Cynllun yn cynnwys ail ran i'w weithredu o 2017/18 ymlaen sef rhoddi'r dewis i'r Cyngor Cymuned/Tref:

- i barhau gyda'r drefn partneriaethu i'r flwyddyn/blynyddoedd olynol, neu
- i ddatblygu trefniadaeth ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb llawn am y ddarpariaeth wedi 2017/18.

2.5 O brofiad, gall gymeryd hyd at ddwy flynedd i ddatblygu trefniadau i Gynghorau Cymuned/Tref gymeryd cyfrifoldeb am yr eiddo a chyflenwadau yn llawn.

2.6 Yn Atodiad 2 i'r Adroddiad hwn, mae drafft o lythyr safonol fyddai'n debygol o fynd i gynghorau cymuned a thref pe wireddir y Cynllun hwn.

2.7 Rhagwelir mai manteision partneriaethu i'r Cyngor Cymuned a Thref fyddai:

- cadw'r ddarpariaeth yn agored a gweithredol
- posibiliad o ddatblygu trefniadaeth amgen ar gyfer eu gweithredu, pe dymunir
- rhoddi rôl ddylanwadol i'r gymuned o ran sicrhau'r ddarpariaeth i'r dyfodol
- rhoddi amser digonol ar gyfer addasu praeseptau
- agor cyfleon ar gyfer denu grantiau allanol i wella'r ddarpariaeth i'r dyfodol.

2.8 Manteision partneriaethu i'r Cyngor hwn fyddai:

- cadw'r ddarpariaeth yn agored a gweithredol
- gwell sicrwydd o gynnal cyflogaeth gweithwyr sy'n glanhau a chynnal y ddarpariaeth
- cyflawni'r toriad i'r gyllideb erbyn 1 Ebrill, 2017
- creu sail gadarn i strategaeth o ddarparu toiledau cyhoeddus yn y Sir fydd yn cwrdd ag unrhyw ofyn statudol posibl i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru.

2.9 Pe byddai ddim diddordeb mewn partneriaethu i gynnal y ddarpariaeth yna bydd disgwyl i'r toiled dan sylw gau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, sef 2016/17.

**3. ARGYMHELLION**

3.1 Y Pwyllgor Craffu i ystyried y Cynllun ac i gynghori:

3.1.1 Os oes cefnogaeth i'r Cynllun (gan gynnwys unrhyw awgrymiadau o ran gwelliannau i'r Cynllun).

3.1.2 Os yn cefnogi, pa opsiwn (1 neu 2) ddylid ei ddilyn.

3.1.3 Os yn cefnogi, bod y Pwyllgor Craffu yn argymell i'r Cabinet y dylid addasu'r penderfyniad i wneud toriad o £244,000 drwy yn gyntaf ymgeisio i sefydlu partneriaethau gyda chymunedau lleol er mwyn ceisio osgoi cau y cyfleusterau tra'n cyflawni'r un swm o doriad.

**ATODIAD / APPENDIX 1**

| | | | | | | Opsiwn/Option 1 | | Opsiwn/Option 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tref neu Bentref / Town or Village | Lleoliad / Location | Agored / Open | Partneriaeth/Partnership | Cyfanswm Cost Gweithredu ar gyfartaledd/Average Total Cost | Cyfraniad gan Cynghorau Cymuned/Thref / Town/Community Council Contribution | Cyfanswm Cost I'r Cyngor Cymuned/Thref / Total Cost for Town/Community Council | Cyfraniad/ Contribution 33.333333% |
| | **Ardal ARFON Area** | | | | | | | |
| 1 | Bangor | Glanrafon | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £27,719.42 | £4,000 | | |
| 2 | Bangor | Tanyfynwent | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £30,536.53 | £4,000 | | |
| 3 | Bangor | Y Pier | Tymhorol / Seasonal | | £8,200.54 | £2,000 | **£10,000** | **£22,152.16** |
| 4 | Bethesda ** | Stryd Fawr | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £7,686.19 | £4,000 | £4,000 | £2,562.06 |
| 5 | Caernarfon | Allt y Castell | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £34,864.85 | £4,000 | | |
| 6 | Caernarfon* | Empire | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £36,641.34 | £4,000 | | |
| 7 | Caernarfon* | Penllyn | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £32,674.68 | £4,000 | **£12,000** | **£34,726.96** |
| 8 | Dinas Dinlle (Llandwrog) | Marine | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £14,739.41 | £4,000 | £4,000 | £4,913.14 |
| 9 | Felinheli | Ffordd y Traeth | Trwy'r flwyddyn /All Year | Trosglwyddiad/Transfer | £6,963.00 | | **£6,963.00** | £6,963.00 |
| 10 | Llanberis | Ger y Llyn | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £9,431.45 | £4,000 | | |
| 11 | Llanberis | Maes Padarn | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £9,329.02 | £4,000 | | |
| 12 | Llanberis | Y Glyn | Tymhorol / Seasonal | | £12,392.48 | £2,000 | **£10,000** | **£10,384.32** |
| 13 | Penygroes (Llanllyfni) | Heol y Dwr | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £6,289.60 | £4,000 | £4,000 | £2,096.53 |
| | | | | | | | | |
| | **Ardal DWYFOR Area** | | | | | | | |
| 14 | Aberdaron | Traeth | Tymhorol / Seasonal | | £3,915.26 | £2,000 | £2,000 | £1,305.09 |
| 15 | Aberdesach (Clynnog) | | Tymhorol / Seasonal | | £2,315.08 | £2,000 | | |
| 16 | Clynnog | | Tymhorol / Seasonal | | £2,414.87 | £2,000 | **£4,000** | **£1,576.65** |
| 17 | Abersoch (Llanengan) | Ger y bont | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £10,604.62 | £4,000 | | |
| 18 | Abersoch (Llanengan) | Golff | Tymhorol / Seasonal | | £6,345.18 | £2,000 | | |
| 19 | Abersoch (Llanengan) | Machroes | Tymhorol / Seasonal | | £4,509.68 | £2,000 | | |
| 20 | Mynytho (Llanengan) | | Tymhorol / Seasonal | | £2,452.96 | £2,000 | **£10,000** | **£7,970.81** |
| 21 | Beddgelert | | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £10,821.66 | £4,000 | £4,000 | £3,607.22 |
| 22 | Criccieth*** | Esplanade | Tymhorol / Seasonal | | £7,009.72 | £2,000 | | |
| 23 | Criccieth | Maes Parcio | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £10,576.60 | £4,000 | | |
| 24 | Criccieth | Marine | Tymhorol / Seasonal | | £6,246.47 | £2,000 | **£8,000** | **£7,944.26** |
| 25 | Llanbedrog | Traeth | Tymhorol / Seasonal | | £4,410.57 | £2,000 | £2,000 | £1,470.19 |
| 26 | Llanystumdwy | | Tymhorol / Seasonal | | £3,713.61 | £2,000 | £2,000 | £1,237.87 |
| 27 | Llithfaen (Pistyll) | | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £7,656.54 | £4,000 | £4,000 | £2,552.18 |
| 28 | Morfa Bychan (Porthmadog) | Traeth | Tymhorol / Seasonal | | £9,754.22 | £2,000 | | |
| 29 | Morfa Bychan (Porthmadog) | Gwydryn | Tymhorol / Seasonal | | £4,208.09 | £2,000 | | |
| 30 | Borth y Gest (Porthmadog) | Maes Parcio | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £8,746.19 | £4,000 | | |
| 31 | Tremadog (Porthmadog) | Stryd Fawr | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £6,146.65 | £4,000 | | |
| 32 | Porthmadog* | Y Parc | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £4,606.45 | £4,000 | **£16,000** | **£11,153.87** |
| 33 | Morfa Nefyn (Nefyn) | Cae Coch | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £8,295.61 | £4,000 | | |
| 34 | Morfa Nefyn (Nefyn) | Traeth | Tymhorol / Seasonal | Partner £3815 | £9,059.19 | £2,000 | | |
| 35 | Nefyn | Cefn Twr | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £7,769.21 | £4,000 | | |
| 36 | Nefyn | Lon Gam | Tymhorol / Seasonal | Partner £3754 | £5,529.91 | £2,000 | **£12,000** | **£10,217.97** |
| 37 | Pwllheli | South Beach | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £6,517.99 | £4,000 | | |
| 38 | Pwllheli | Stryd Penlan | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £7,171.54 | £4,000 | | |
| 39 | Pwllheli | West End | Tymhorol / Seasonal | | £4,224.89 | £2,000 | | |
| 40 | Pwllheli* | Y Maes | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £14,552.33 | £4,000 | **£14,000** | **£10,822.25** |
| 41 | Sarn Meillteyrn (Botwnnog) | | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £4,914.25 | £4,000 | £4,000 | £1,638.08 |
| 42 | Trefor (Llanelhaearn) | Traeth | Tymhorol / Seasonal | | £2,607.22 | £2,000 | £2,000 | £869.07 |
| 43 | Tudweiliog | | Tymhorol / Seasonal | | £4,016.77 | £2,000 | £2,000 | £1,338.92 |
| | | | | | | | | |
| | **Ardal MEIRIONNYDD Area** | | | | | | | |
| 44 | Aberdyfi | Neuadd Dyfi | Tymhorol / Seasonal | | £7,996.22 | £2,000 | | |
| 45 | Aberdyfi | Y Cei | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £15,488.97 | £4,000 | **£6,000** | **£7,828.40** |
| 46 | Abergynolwyn (Llanfihangel) | | Tymhorol / Seasonal | | £3,263.76 | £2,000 | £2,000 | £1,087.92 |
| 47 | Abermaw | Llys Cambrian | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £42,310.47 | £4,000 | | |
| 48 | Abermaw | Promenad y Gogledd | Tymhorol / Seasonal | | £12,986.02 | £2,000 | | |
| 49 | Abermaw | Y Cei | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £22,375.97 | £4,000 | **£10,000** | **£25,890.82** |
| 50 | Bala | Plase | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £8,110.77 | £4,000 | | |
| 51 | Bala ** | Y Grin | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £15,927.61 | £4,000 | **£8,000** | **£8,012.79** |
| 52 | Blaenau Ffestiniog ** | Diffwys | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £9,705.97 | £4,000 | £4,000 | £3,235.32 |
| 53 | Bryncrug | | Tymhorol / Seasonal | | £2,879.55 | £2,000 | £2,000 | £959.85 |
| 54 | Corris Isaf ** | | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £3,032.48 | £4,000 | £4,000 | £1,010.83 |
| 55 | Dinas Mawddwy ** | | Trwy'r flwyddyn /All Year | Partner £360 | £3,616.22 | £4,000 | £4,000 | £1,205.41 |
| 56 | Dolgellau* | Maes Parcio'r Marian | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £14,449.49 | £4,000 | £4,000 | £4,816.50 |
| 57 | Dyffryn Ardurdwy | | Tymhorol / Seasonal | | £4,070.22 | £2,000 | | |
| 58 | Talybont (Dyffryn Ardurdwy) | Pentre | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £5,788.87 | £4,000 | **£6,000** | **£3,286.36** |
| 59 | Fairbourne (Arthog) | Ffordd yr Orsaf | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £5,698.44 | £4,000 | | |
| 60 | Fairbourne (Arthog) | Penrhyn Drive South | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £6,789.68 | £4,000 | **£8,000** | **£4,162.71** |
| 61 | Ganllwyd ** | | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £4,773.19 | £4,000 | £4,000 | £1,591.06 |
| 62 | Harlech | Bron y Graig | Tymhorol / Seasonal | | £6,637.52 | £2,000 | | |
| 63 | Harlech | Castell | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £7,184.54 | £4,000 | | |
| 64 | Harlech | Min y Don | Tymhorol / Seasonal | | £4,413.56 | £2,000 | | |
| 65 | Harlech | Queen's | Tymhorol / Seasonal | | £9,408.80 | £2,000 | **£10,000** | **£9,214.81** |
| 66 | Llanbedr | | Tymhorol / Seasonal | | £3,947.00 | £2,000 | £2,000 | £1,315.67 |
| 67 | Llandanwg (Llanfair) | | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £5,567.00 | £4,000 | £4,000 | £1,855.67 |
| 68 | Llwyngwril (Llangelynin) | | Tymhorol / Seasonal | | £3,556.70 | £2,000 | £2,000 | £1,185.57 |
| 69 | Maentwrog ** | Newydd | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £6,816.00 | £4,000 | £4,000 | £2,272.00 |
| 70 | Pennal | | Trwy'r flwyddyn /All Year | Partner £1736 | £4,716.57 | £4,000 | £4,000 | £1,572.19 |
| 71 | Penrhyndeudraeth ** | Maes Parcio | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £5,927.84 | £4,000 | £4,000 | £1,975.95 |
| 72 | Trawsfynydd | | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £6,212.07 | £4,000 | £4,000 | £2,070.69 |
| 73 | Tywyn | Maes Adloniant | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £11,543.18 | £4,000 | | |
| 74 | Tywyn | Sinema | Trwy'r flwyddyn /All Year | | £12,221.23 | £4,000 | **£8,000** | **£7,921.47** |
| | *** Toiled lle codi'r ffi / Toilets where a fee is charged** | | | | **£705,997.75** | **Cyfanswm / Total** | **£240,963** | **£239,974.58** |

**** Cyfraniad tuag at costau gan Asiantaeth Cefnffyrdd / Trunk Road Agency contribution towards running costs**

*****Costau Cynnal a Chadw Uchel ar gyfer yr Adeilad dros 3 blynedd / High building maintenance costs over 3 years**

ATODIAD 2a

**Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol**
**Head of Highways and Municipal**
Gwyn Morris Jones B.Eng., C.Eng., M.I.C.E.

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

, 2016

DRAFFT O LYTHYR SAFONOL

Annwyl Glerc,

**Toiled/au Cyhoeddus yn eich Tref/Cymuned**

Fe wyddoch o'r ymarferiad 'Her Gwynedd' diweddar fod Cyngor Gwynedd yn gorfod gwneud toriadau i wasanaethau oherwydd diffyg sylweddol mewn cyllidebau. Mae'n debyg eich bod yn ymwybodol bod bygythiad i ddyfodol toiledau cyhoeddus ddarperir ganddom gyda'r rhagolwg bydd angen cau nifer fawr ohonynt o fewn y flwyddyn.

Er mwyn osgoi cau toiledau, yr ydym yn cysylltu gyda chi a holl gynghorau cymuned/tref/dinas perthnasol yn y Sir i sefydlu os byddwch yn fodlon cyfrannu a mynd i bartneriaeth gyda ni i gadw'r ddarpariaeth yn eich cymuned yn agored a gweithredol. I'r pwrpas, yr ydym wedi dethol lefel cyfraniad ariannol blynyddol ddisgwylir gan Gynghorau Cymuned/Tref i'n galluogi i gyflawni hyn.

Byddai eich cytundeb i'r bartneriaeth yn ein galluogi i gadw'r toiled/au yn agored ac yn weithredol yn 2017/18 a lle bydd cyfle pellach i ni yntau ymestyn y bartneriaeth i'r flwyddyn olynol neu, **pe dymunir ganddoch**, ddatblygu trefniadau ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb am y ddarpariaeth yn llwyr i chi.

Mae'r daflen atodol yn berthnasol i chi a byddaf yn ddiolchgar pe medrwch ddynodi arno:

1. Os ydych â diddordeb mewn partneriaethu.
2. Os oes ganddoch ddiddordeb mewn datblygu trefniadaeth amgen ar gyfer y ddarpariaeth wedi 2017/18.

Byddaf yn ddiolchgar pe medrwch ddychwelyd y daflen atodol wedi ei lenwi i'm sylw a chyn ……… 2016 os gwelwch yn dda.

Hoffwn ddiolch i chi o flaen llaw am eich ystyriaeth o'r mater ac edrychaf ymlaen i dderbyn eich ymateb.

Yn gywir,

*Ansawdd* — *9001 - FS 66550*
*Amgylcheddol* — *14001 - EMS 576764*
*Iechyd a Diogelwch* — *18001 - OHS 544926*

Swyddfeydd y Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.cymru

**ATODIAD 2b**

## CYNLLUN PARTNERIAETHU TOILEDAU CYHOEDDUS

| **Cyngor:** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Toiled/Lleoliad** | **Agored** | **Cost Gweithredu Blynyddol ar Gyfartaledd** | **Eich Cyfraniad Blynyddol** | **Diddordeb Partneriaethu** | **Diddordeb rheoli i'r dyfodol** |
| | Trwy'r Flwyddyn | | £4,000 | | |
| | Tymhorol | | £2,000 | | |
| | **Cyfanswm:** | | | | |

**√ diddordeb**
**X dim diddordeb**

I'w ddychwelyd erbyn y ..........., 2016 i sylw:

……………………………………………………………………..
……………………………………………………………………..
……………………………………………………………………..

Unrhyw ymholiadau cysylltwch â'r uchod ar 01286 ……….. neu ………………….@gwynedd.llyw.cymru os gwelwch yn dda.

**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB UNEDAU CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS**

Os am gymorth gyda llenwi'r templed yma, cysylltwch â Delyth G Williams, DelythGadlysWilliams@gwynedd.gov.uk, est. 2708

**1) AWDUR (ON) YR ASESIAD**

Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

**2) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD**

6ed Gorffennaf 2015

**3) FERSIWN A/NEU DDYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD**

Disgwylir y bydd mwy nag un fersiwn o'r Asesiad. Dylid nodi'r gwahanol fersiynau er mwyn sicrhau cywirdeb.

2

**4) PWRPAS YR UNED A MANYLION Y CYNNIG**

Nodwch yn fyr bwrpas yr uned a manylion y cynnig dan sylw

Mae'r uned yn cynnal, rheoli a glanhau 73 o doiledau cyhoeddus ar draws y Sir, a chyfrifoldeb am reoli Cynllun Grant Toiledau Cyhoeddus ar gyfer 35 o fusnesau ar draws y Sir.

Mae'n bosib torri'r gyllideb gyfan gan nad oes gofyn statudol, ar hyn o bryd, i gynnal cyfleusterau cyhoeddus.

Byddai hyn yn golygu:

- Cau pob un o'r 73 toiled cyhoeddus ar draws y Sir gan ddiswyddo 39 o lanhawyr toiledau sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd;
- Effaith ar drigolion ac ymwelwyr o beidio cael cyfleusterau hwylus.

**5) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**

Mae Cyngor Pobl Hŷn o'r farn y byddai torri'r gwasanaeth Toiledau Cyhoeddus yn cael effaith arnynt ac yn ei nodi fel blaenoriaeth. Mae yn wasanaeth hanfodol iddynt wrth fynd allan. Byddai diffyg toiledau cyhoeddus yn gallu effeithio ar annibyniaeth pobl hyn.

"adnodd pwysig iawn i bobl hŷn sydd ddim yn hoff o fynd i leoliadau preifat. Pobl hŷn yn fwy tebygol o gael materion iechyd sy'n gwneud toiledau yn

bwysicach a dydy toiledau mewn tafarndai ddim o’r glanaf yn aml”

“Public toilets – basic human needs.  Needs to be free. Safety comes first – toilets we all need them”

Mae'r Grŵp Cynnal Gofalwyr Pwllheli o'r farn y byddai torri'r gwasanaeth Toiledau Cyhoeddus yn cael effaith a'r bobl anabl. Gwelir y gwasanaeth yma yn un hanfodol ar eu cyfer pan eu bod yn mynd allan.

Defnyddwyr CILDe Gwynedd (pobl anabl) yn nodi toiledau fel blaenoriaeth ond yn dweud eu bod yn fodlon talu amdano.

Rhai o ddisgyblion Ysgol Botwnnog hefyd yn dweud fod toiledau cyhoeddus yn bwysig:

- “Toiledau cyhoeddus, rhywbeth pwysig yn phob man ble fuasai twristiaid yn defnyddio’r tŷ bach? Angen prynu rhywbeth i ddefnyddio llawer o doiledau e.e. weatherspoons.”

Ar yr holiadur dywedodd pobl dros 50:

“Public toilets. Disproportionately affects the elderly, many of whom are prescribed diuretics, which already makes going out of the house difficult. Many elderly people have become in increasingly housebound due to lack of existing provision.  Any more would make them unable to go out at all.””

“...Also I use Gwynedd's public toilets in every town I visit so please don't close them!..........”

Dywedodd person anabl:

“Hello, I`m disabled and unable to drive so bus cuts affect my ability to travel also I use the public disabled toilets a lot, So cuts in these services will have marked impact on my quality of life “.

Nododd pobl eraill

“Closing any toilets would seriously affect people with diabetes who need to urinate at a distressing frequency throughout the day.  With no available toilet - where would they be supposed to 'pee' - in the street ? !!!   Toilet closures would be criminal!”

“With young children, I make regular use of the leisure centres, parks and library's. Families with young children are also dependant on public toilets.”

**6) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**

Cynnwys unrhyw dystiolaeth perthnasol am gydraddoldeb, e.e. a fydd y newid yn effeithio un carfan o bobl yn fwy na'r lleill (e.e. pobl hŷn, merched, ayb?). Sut ydych chi'n gwybod hynny? Gall y dystiolaeth fod yn lleol, rhanbarthol neu genedlaethol e.e. adroddiad gan y Cynulliad, ymgysylltiad gyda grŵp penodol o bobl lleol, data am ddiolchiadau neu gwynion a.y.b.

Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd – Llywodraeth Cymru Hydref 2014 (Bwriadu creu deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn statudol i Cynghoraru Lleol gael strategaeth ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus

Papur "Help the Aged": Ddim Unlle i fynd: Darpariaeth Cyfleusterau Cyhoeddus ym Mhrydain (Mai 2007) yn amlygu y gost cymdeithasol i bobl hyn ar y lleihad mewn cyfleusterau cyhoeddus:

12% o pobl hyn (1.2 miliwn) yn teimlo yn gaeth i'w cartref, mae 13% o pobl hyn (1.26 miliwn) ddim yn mynd allan mwy nag unwaith yr wythnos ac o gwmpas 100,000 byth yn mynd allan.

Mae ei thystiolaeth yn awgrymu bod y diffyg mewn cyfleusterau cyhoeddus yn ffactor cyfrannol sylweddol i'r unigedd o bobl hyn, gyda mwy na hanner o bobl hyn yn teimlo bod diffyg cyfleusterau cyhoeddus lleol yn nadu iddynt fynd allan mor aml a dymunent.

Ty'r Cyffredin Pwyllgor Dethol – Darpariaeth Cyfleusterau Cyhoeddus, Adroddiad deuddeg sesiwn 2007-08

Adran y Gymuned a Llywodraeth Leol: Gwella Mynediad y Cyhoedd i Gyfleusterau Cyhoeddus o Ansawdd – Canllaw Strategol

**7) PERTHNASEDD AC EFFAITH**

Rhaid dangos yw perthnasedd y cynnig i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r nodweddion gwarchodedig (grwpiau cydraddoldeb). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion , ond os canfyddir perthnasedd a/ neu effaith mewn unrhyw un neu fwy o gategorïau, yna bydd gofyn bwrw ymlaen gyda'r Asesiad

**7a)**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Perthnasedd** A ydi'r toriad yn cael effaith ar y dyletswyddau isod? | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | nac ydi | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | ydi | Bydd rhai carfannau'n ei chael yn anodd i fynd allan ac felly'n profi problemau cael mynediad at wasanaethau, cymdeithasu ayb. |
| **Meithrin perthnasau da** | ydi | Gallai methu mynd allan effeithio ar gymdeithasu sy'n groes i'r dyletswydd i ffeithrin perthnasau da. |

**7b)**

| Nodweddion | Perthnasedd<br>A ydi'r toriad yn cael effaith ar y nodweddion isod? | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Hil** | nac ydi | Dim effaith gwahaniaethol. |
| **Anabledd** | Ydi | Effaith debygol – Anabledd<br>Mae elusennau a mudiadau sy'n cynrychioli pobl anabl o'r farn bod toriadau i gyfleusterau cyhoeddus yn cael effaith niweidiol iawn o safbwynt y byddent yn cael eu rhwystro neu'n ofnus o fentro o'i cartrefi oherwydd diffyg cyfleusterau ar gael yn y gymuned. Gall rhai anhwylderau neu amhariadau wneud yr effaith yn waeth. |
| **Rhyw** | nac ydi | Dim effaith gwahaniaethol. |
| **Ailbennu rhywedd** | nac ydi | Dim effaith gwahaniaethol. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | nac ydi | Dim effaith gwahaniaethol. |
| **Crefydd neu gred** | perthnasedd | Mewn nhermau cyffredinol ni fydd fwy o effaith ar y grwpiau yma na'r cyhoedd yn gyffredinol; ond gyda rhai crefydd buasai defnyddio cyfleusterau amgen preifat yn gyfyngedig wrth ddefnyddio rhai sefydliadau (e.e. tafarnau) gall fod yn erbyn rhai crefydd neu gred. |
| **Yr iaith Gymraeg** | nac ydi | Dim effaith gwahaniaethol. |
| **Oedran** | Ydi | Effaith Debygol - Pobol Hyn |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae elusennau a mudiadau sy'n cynrychioli pobl hyn o'r farn bod toriadau i gyfleusterau cyhoeddus yn cael effaith niweidiol iawn o safbwynt y byddent yn cael eu rhwystro neu'n ofnus o fentro o'i cartrefi oherwydd diffyg cyfleusterau ar gael yn y gymuned. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Ydi | Effaith debygol – Plant<br><br>Mae rhieni a gwarcheidwad o fabanod a blant ifanc angen gallu defnyddio cyfleusterau addas mewn cyfleusterau cyhoeddus merched a dynion pan yn ymweld a mannau cyhoeddus ac yn aml ar fyr rhybudd. Y gall rhieni gyda fabanod a phlant ifanc, fod yn amharod i ddefnyddio cyfleusterau mewn tafarnau, sydd yn cyfyngu y dewis o gyfleusterau iddynt. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | nac ydi | Dim effaith gwahaniaethol. |

**8) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH**

| | |
|---|---|
| **a)** | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb**<br>Crynodeb o'r uchod<br><br>Mae'r lleihad mewn cyfleusterau yn cael effaith ar bawb. Ond nid yw'r cynnig yn targedu grwpiau penodol, ond gall rhai grwpiau cael ei effeithio yn fwy nag eraill oherwydd y toriad. Y gall y lleihad mewn cyfleusterau cyhoeddus gael effaith gaeth ar barodrwydd grwpiau penodol sef pobl hyn, plant a pobl anabl i gael mynediad at fannau cyhoeddus, cymdeithasu ac i siopa yn lleol. Mae hyn yn gallu arwain tuag at unigedd ac effaith niweidiol ar les unigolion. |
| **b)** | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Cadw elfen o'r gyllideb ar gyfer ol-ofalaeth yr adeiladau ac i ddatblygu trefn o ariannu busnesau lleol i gynnig defnydd o'u cyfleusterau ar gyfer y cyhoedd, tebyg i'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus Lleol ariannir yn bresennol gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn rhaid ystyried anghenion y gwahanol nodweddion wrth wneud hyn.<br><br>Bydd angen i unrhyw ddarpariaeth ystyried yr angen am doiledau hygyrch a mannau newid. |
| **c)** | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Mae'r toriad arfaethedig hwn yn rhan o Gyfundrefn Toriadau'r Cyngor. Bydd yr holl wybodaeth, gan gynnwys barn o'r ymgysylltiad a'r asesiad effaith cydraddoldeb yma, yn cael eu hystyried gan y Cabinet a'r Cyngor Llawn wrth wneud penderfyniad ar yr hyn sydd i'w dorri. |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
(7 Mehefin, 2016)

**Aelod Cabinet:** Cyng. John Wynn Jones

**Pwnc:** Cynllun Adnewyddu Pibelli Dwr Stadau Tai CCG

**Swyddog cyswllt:** Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

---

**Y penderfyniad a geisir**

I awdurdodi Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol mewn ymgynghoriad a'r Penaethiaid Cyllid a Gwasanaethau Cyfreithiol i gytuno trefn ac amodau gydweithio gyda Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) i wireddu Cynllun Rheoli ac Adnewyddu Pibelli Dwr yn Stadau Tai CCG fel amlinellir yn yr adroddiad.

---

**Cyflwyniad**

Ar 12 Ebrill, 2010 gwnaethpwyd Cytundeb Trosglwyddo ar gyfer trosglwyddo asedau Tai Cyngor Gwynedd i Gartrefi Cymunedol Gwynedd Cyfyngedig (CCG). Wrth drosglwyddo'r stoc tai ar draws i CCG gorfu ymdrin â nifer o gyfrifoldebau am asedau ar y stadau. Roedd amryw o drafodaethau ar faterion oedd yn cyfrannu at gyrraedd cytundeb terfynol i wireddu'r trosglwyddiad ac amcanion y prosiect.

Ymysg y materion yma oedd y cyfrifoldeb am y rhwydwaith cyflenwad dwr oedd eisoes yn hanesyddol yn gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd. Yn sgil trafodaethau daethpwyd i gytundeb ynglŷn â chyfrifoldebau am y pibellau dwr oedd yn gwasanaethu'r stoc tai.

Ar y trosglwyddiad bu i Gyngor Gwynedd gadw cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r prif bibellau dwr (heb eu mabwysiadu) oedd yn gwasanaethu'r stadau a derbyn swm o £1.6 miliwn ar gyfer cynnal ac ymdrin â'r pibelli hyn (y 'gronfa'). Fodd bynnag nid oedd pibelli dwr (heb eu mabwysiadu) oddi fewn i gwrtil unrhyw eiddo drosglwyddwyd i CCG, yn rhan o'r cytundeb yma ac mae'r rhain yn parhau yn gyfrifoldeb CCG. Mae Lluniad Rhif ADC/04/02 atodol yn amlygu'r pibelli dwr sydd yn parhau dan gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd.

Mae 462 o Stadau Tai CCG sy'n cynnwys 4514 tŷ preifat a 6103 tŷ gyda CCG.

Mae risgiau sylweddol i'r Cyngor mewn bod a chyfrifoldeb am gynnal a chadw'r pibelli dwr hyn. Mae nifer fawr iawn ohonynt, maent yn amrywio'n sylweddol o ran oed a chyflwr. Mewn un achos sef Stad Sandilands, Tywyn, bu'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio £506k o'r gronfa i adnewyddu'r pibelli i 98 eiddo oherwydd pryderon iechyd cyhoeddus (e.e. lefelau uchel o blwm).

Bu i'r gwaith adnewyddu yn Sandilands gael ei wneud i safon mabwysiadu ac erbyn hyn mae'r pibellau wedi eu trosglwyddo i Dwr Cymru, felly mae'r cyfrifoldeb amdanynt a'r risgiau ynghlwm, ddim mwyach gyda'r Cyngor.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

I bwrpas rheoli risgiau gyda'r asedau, mae CG a CCG wedi bod yn cydweithio ar ddatblygu Cynllun Rheoli ac Adnewyddu'r Asedau hyn. Yn wreiddiol, roedd y rhaglen dros 25 mlynedd ond i gyd-fynd gyda Chynllun Rheoli Asedau'r Cyngor mae hyn am gyfnod cychwynnol o 10 mlynedd erbyn hyn.

Mae CG a CCG yn bwriadu cyd-weithio ar gyflawni'r rhaglen drwy gyrraedd Memorandwm o Ddealltwriaeth (M.O.U.).

Er mwyn rheoli risgiau sylweddol i'r Cyngor yn ymdrin â'r asedau hyn ac er mwyn cwrdd â gofynion y Gytundeb Trosglwyddo a drwy hynny gwireddu'r nôd o gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru awgrymir bod y Cabinet yn cefnogi'r bwriad i gyrraedd dealltwriaeth gyda CCG i wireddu Cynllun Adnewyddu Pibelli Dwr Stadau Tai.

**Ystyriaethau perthnasol**

Yn atodol, mae rhaglen adnewyddu cychwynnol 10 mlynedd sy'n dangos bod angen cyfraniad blynyddol o £300k gan y Cyngor i'r rhaglen. Yr unig ffordd i ddygymod gyda'r gofyn fyddai ei gynnwys yn y Cynllun Rheoli Asedau 10 mlynedd [newydd] y Cyngor. Bydd yr union raglen a blaenoriaethau yn destun trafodaeth gyda CCG yn unol ar drefn o dan y M.O.U.

Ymhob lleoliad lle bydd adnewyddu, bydd y gwaith yn cael ei wneud i safon mabwysiadu gan Dwr Cymru. Unwaith bydd y gwaith ar y stadau wedi ei gwblhau bydd cyfrifoldeb y pibelli yn trosglwyddo i Dwr Cymru fel bod y Cyngor yn cael gwared o'i gyfrifoldeb am yr asedau hyn.

**Camau nesaf ac amserlen**

Ar gael cymeradwyaeth y Cabinet i wireddu'r Cynllun Adnewyddu hwn bydd angen i Gyngor Gwynedd a Cartrefi Cymunedol Gwynedd gytuno i'r Memorandwm o Ddealltwriaeth berthnasol a rhaid i Fwrdd Llywodraethu CCG, yn ogystal, gytuno i ariannu'r Rhaglen Adnewyddu.

Ar gyflawni hyn bydd yn bosib cychwyn ar y Rhaglen Adnewyddu yn y flwyddyn ariannol hon (2016/17) gan ddefnyddio beth sy'n weddill o'r 'gronfa' bresennol y Cyngor i'r pwrpas.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'n amlwg bod yr hanes i'r mater hwn yn reit gymhleth ond y realiti bellach yw bod yn rhaid dod i gytundeb ar drefniant i warchod a chynnal asedau allweddol i rai o'n cymunedau. Yn amlwg, bydd goblygiadau i'r Cyngor yn hyn o beth ond mae hynny'n anorfod yn yr amgylchiadau.

**Y Swyddog Monitro:**


Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Ceir amlinelliad o gyfrifoldebau sydd gan y Cyngor ynglŷn â cynnal a chadw rhai adnoddau cyflenwad dwr ar y stadau tai a drosglwyddwyd. Gan fod y cyfrifoldebau yn rhannol ar y Cyngor ac ar y Gymdeithas Dai mae trefn gyd weithredol yn synhwyrol. Mae'n bwysig nodi wrth gwrs na fydd hyn yn gyfrwng i ychwanegu neu ddwysau unrhyw gyfrifoldebau sydd ar y Cyngor dan y cytundeb drosglwyddo a bydd angen sicrhau fod unrhyw gytundeb ar sail M.O.U yn destun mewnbwn blaenllaw gan y Gwasanaethau Cyllid a Chyfreithiol.

**Y Pennaeth Cyllid:**


Mae'r adroddiad yn egluro cyfrifoldeb rhannol, ond anorfod, y Cyngor am reoli ac adnewyddu rhai pibelli dŵr mewn stadau tai. I'r perwyl hyn, awgrymir rhaglen adnewyddu fyddai angen cyfraniad blynyddol o £300k gan y Cyngor, sydd i'w gynnwys yng Nghynllun Rheoli Asedau'r Cyngor. Byddaf yn cyflwyno adroddiad am y Strategaeth Asedau ('Cynllun Rheoli Asedau') i gyfarfod dilynol o'r Cabinet. Bydd ein Strategaeth Asedau arfaethedig yn darparu ar gyfer hyd at £300k y flwyddyn am y 3 blynedd o 2016/17 hyd at 2018/19, er mwyn cynnal y pibelli dŵr perthnasol.
Pryd daw'r Strategaeth Asedau i'r Cabinet am ystyriaeth i'w ariannu, er mwyn osgoi ymhlygiad refeniw ar gyllideb y Cyngor, bydd modd ystyried defnyddio cronfa o £1.7m neilltuwyd eisoes o gyn-falansau'r Cyfrif Refeniw Tai i'r perwyl hyn. Byddai hynny yn galluogi ariannu hyd at £300k y flwyddyn am tua 6 mlynedd. Cyn hynny, bydd angen Strategaeth Asedau newydd ar gyfer y 10 mlynedd ddilynol (2019/20 - 2028/29), lle bydd raid adolygu a diweddaru'r holl anghenion a'r ymrwymiadau, gan gynnwys y pibelli dŵr yma.

ATODIAD 1
ATTACHMENT 1

DW1




DW2






| | | |
|---|---|---|
| INDIVIDUAL SERVICE PIPE TO PROPERTY MAINTAINED BY THE OWNER | (blue line) | PIBELL GWASANAETH UNIGOL IR EIDDO YN CAEL EI GYNNAL GAN Y PERCHENNOG |
| INDIVIDUAL SERVICE PIPE TO PROPERTY MAINTAINED BY CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD | (orange line) | PIBELL GWASANAETH UNIGOL IR EIDDO YN CAEL EI GYNNAL GAN CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD |
| SUPPLY PIPE MAINTAINED BY GWYNEDD COUNCIL | (green line) | PIBELL CYFLENWAD YN CAEL EI GYNNAL GAN CYNGOR GWYNEDD |
| MAIN SUPPLY MAINTAINED BY WELSH WATER | (red line) | PRIF GYFLENWAD YN CAEL EI GYNNAL GAN DWR CYMRU |

THE TYPICAL DIAGRAMS ILLUSTRATED ARE INTENDED TO PROVIDE GENERAL GUIDANCE. IN CASES OF EXCEPTION IN LAYOUT OR SEQUENCE, SEEK SITE SPECIFIC OR DEFINITIVE GUIDANCE

STOP TAP

FH FIRE HYDRANT

SLUICE VALVE

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

HIGHWAYS AND MUNICIPAL DEPARTMENT

# YSTADAU CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD ESTATES
Cyfrifoldebau cynnal pibellau dwr yfed.
Maintenance responsibility for drinking water supply pipes

| | | | |
|---|---|---|---|
| DARLUNWYD GAN : DRAWN BY : | Glyn Evans | DYDDIAD DARLUNWYD : DATE DRAWN : | Nov 2014 |
| GWIRIWYD GAN : CHECKED BY : | AR | DYDDIAD GWIRIWYD : DATE CHECKED : | |
| Taflen Sheet | o of | GRADDFEYDD : SCALES : | AS SHOWN |
| Rhif Lluniad Drawing No. | ADC/04/002 | CYWI REV | |

ATODIAD 2

## Strategaeth Fuddsoddi Prif Gyflenwad Dŵr

**Cynodeb o'r Cynllun Buddsoddi 10 Mlynedd**

## Water Main Investment Strategy

**10 Year Investment Plan Summary**

| Blwyddyn / Year | Costau CCG / CCG Costs | | | Costau Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Costs | | | Cyfanswm Buddsoddiad a Amcangyfrifir / Estimated Total Investment |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth / Service Pipes | Cyfanswm / Total | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth /Service Pipes | Cyfanswm / Total | |
| 1 | 326,172 | 119,448 | 445,620 | 189,786 | 57,192 | 246,978 | **692,598** |
| 2 | 46,848 | 201,600 | 248,448 | 76,416 | 286,272 | 362,688 | **611,136** |
| 3 | 89,472 | 237,888 | 327,360 | 184,320 | 114,912 | 299,232 | **626,592** |
| 4 | 19,968 | 254,016 | 273,984 | 43,008 | 245,952 | 288,960 | **562,944** |
| 5 | 76,416 | 249,984 | 326,400 | 205,440 | 143,136 | 348,576 | **674,976** |
| 6 | - | 370,944 | 370,944 | - | 256,032 | 256,032 | **626,976** |
| 7 | 61,440 | 235,872 | 297,312 | 169,728 | 143,136 | 312,864 | **610,176** |
| 8 | 117,504 | 145,152 | 262,656 | 189,696 | 135,072 | 324,768 | **587,424** |
| 9 | 15,744 | 298,368 | 314,112 | 118,656 | 213,696 | 332,352 | **646,464** |
| 10 | 57,216 | 161,280 | 218,496 | 210,816 | 118,944 | 329,760 | **548,256** |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **810,780** | **2,274,552** | **3,085,332** | **1,387,866** | **1,714,344** | **3,102,210** | **6,187,542** |

**Strategaeth Fuddsoddi Prif Gyflenwad Dŵr** | **Cynodeb o'r Cynllun Buddsoddi 10 Mlynedd** | **BLWYDDYN 1**

**Water Main Investment Strategy** | **10 Year Investment Plan Summary** | **YEAR 1**

| Rhif Safle / Site Ref No | Cyfeiriad 1 / Address 1 | Cyfeiriad 2 / Address 2 | Costau CCG / CCG Costs | | | Costau Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Costs | | | Cyfanswm Buddsoddiad a Amcangyfrifir / Estimated Total Investment |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth / Service Pipes | Cyfanswm / Total | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth /Service Pipes | Cyfanswm / Total | |
| Plan 061 | Bryn Rhedyw | Llanllyfni | - | 40,320 | **40,320** | - | 24,192 | **24,192** | **64,512** |
| Plan 067 | Lleuar Terrace | Pontllyfni | 40,704 | 16,128 | **56,832** | 49,536 | - | **49,536** | **106,368** |
| Plan 298 | Pentre Helen | Deiniolen | 285,468 | 63,000 | **348,468** | 140,250 | 33,000 | **173,250** | **521,718** |
| | | | **326,172** | **119,448** | **445,620** | **189,786** | **57,192** | **246,978** | **692,598** |

**Strategaeth Fuddsoddi Prif Gyflenwad Dŵr** | **Cynodeb o'r Cynllun Buddsoddi 10 Mlynedd** | **BLWYDDYN 2**

**Water Main Investment Strategy** | **10 Year Investment Plan Summary** | **YEAR 2**

| Rhif Safle / Site Ref No | Cyfeiriad 1 / Address 1 | Cyfeiriad 2 / Address 2 | Costau CCG / CCG Costs | | | Costau Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Costs | | | Cyfanswm Buddsoddiad a Amcangyfrifir / Estimated Total Investment |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth / Service Pipes | Cyfanswm / Total | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth /Service Pipes | Cyfanswm / Total | |
| Plan 092 | Ty'n Rhos | Criccieth | - | 44,352 | **44,352** | - | 66,528 | **66,528** | **110,880** |
| Plan 103 | Fron Fawr | Blaenau Ffestiniog | - | 78,624 | **78,624** | - | 44,352 | **44,352** | **122,976** |
| Plan 187 | Penchwintan Rd, Heol Dewi, Ainon Rd | Bangor | - | 46,368 | **46,368** | - | 122,976 | **122,976** | **169,344** |
| Plan 228 | Glanywerydd | Dyffryn Ardudwy | - | 2,016 | **2,016** | - | - | **-** | **2,016** |
| Plan 321 | Bryntirion | Penisarwaun | 46,848 | 30,240 | **77,088** | 76,416 | 52,416 | **128,832** | **205,920** |
| | | | **46,848** | **201,600** | **248,448** | **76,416** | **286,272** | **362,688** | **611,136** |



**Strategaeth Fuddsoddi Prif Gyflenwad Dŵr** | **Cynodeb o'r Cynllun Buddsoddi 10 Mlynedd** | **BLWYDDYN 3**

**Water Main Investment Strategy** | **10 Year Investment Plan Summary** | **YEAR 3**

| Rhif Safle / Site Ref No | Cyfeiriad 1 / Address 1 | Cyfeiriad 2 / Address 2 | Costau CCG / CCG Costs | | | Costau Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Costs | | | Cyfanswm Buddsoddiad a Amcangyfrifir / Estimated Total Investment |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth / Service Pipes | Cyfanswm / Total | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth /Service Pipes | Cyfanswm / Total | |
| Plan 098 | Nant y Felin | Nefyn | - | 34,272 | **34,272** | - | 8,064 | **8,064** | **42,336** |
| Plan 371 | 14 Hill Street | Bethesda | - | 2,016 | **2,016** | - | - | **-** | **2,016** |
| Plan 506 | Flats Ffordd Coed Marion | Caernarfon | - | 24,192 | **24,192** | - | - | **-** | **24,192** |
| Plan 010 | Rhyd y Fenai | Felinheli | 20,352 | 14,112 | **34,464** | 6,528 | 6,048 | **12,576** | **47,040** |
| Plan 013 | Bro Waun | Waunfawr | 32,256 | 24,192 | **56,448** | 39,936 | 26,208 | **66,144** | **122,592** |
| Plan 042 | Tanymaes | Bangor | 36,864 | 16,128 | **52,992** | 20,736 | 8,064 | **28,800** | **81,792** |
| Plan 044 | Maes y Dref | Bangor | - | 6,048 | **6,048** | - | 42,336 | **42,336** | **48,384** |
| Plan 057 | Maes Tryfan | Groeslon | - | 18,144 | **18,144** | 117,120 | 6,048 | **123,168** | **141,312** |
| Plan 364 | Lon Cefn Du, Lon Helen (Pt), Lon Ty Gwyn, 1 Ty Gwyn House, Lon Eilian (Pt), | Caernarfon | - | 98,784 | **98,784** | - | 18,144 | **18,144** | **116,928** |
| | | | **89,472** | **237,888** | **327,360** | **184,320** | **114,912** | **299,232** | **626,592** |

**Strategaeth Fuddsoddi Prif Gyflenwad Dŵr** | **Cynodeb o'r Cynllun Buddsoddi 10 Mlynedd** | **BLWYDDYN 4**

**Water Main Investment Strategy** | **10 Year Investment Plan Summary** | **YEAR 4**

| Rhif Safle / Site Ref No | Cyfeiriad 1 / Address 1 | Cyfeiriad 2 / Address 2 | Costau CCG / CCG Costs | | | ostau Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Cost | | | Cyfanswm Buddsoddiad a Amcangyfrifir / Estimated Total Investment |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth / Service Pipes | Cyfanswm / Total | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water | Pibellau Gwasanaeth /Service Pipes | Cyfanswm / Total | |
| Plan 188 | Lon y Glyder, Lon Ogwen, Lon Pwys,Trem Elidir,Gardd Denman, Ffordd Penchwintan (part), Ffordd Cynfal, Ffordd Denman | Bangor | - | 201,600 | **201,600** | - | 245,952 | **245,952** | **447,552** |
| Plan 096 | Dol Eilian, Blaen Ddol | Llanberis | 19,968 | 52,416 | **72,384** | 43,008 | - | **43,008** | **115,392** |
| | | | **19,968** | **254,016** | **273,984** | **43,008** | **245,952** | **288,960** | **562,944** |

**Strategaeth Fuddsoddi Prif Gyflenwad Dŵr** | **Cynodeb o'r Cynllun Buddsoddi 10 Mlynedd** | **BLWYDDYN 5**

**Water Main Investment Strategy** | **10 Year Investment Plan Summary** | **YEAR 5**

| Rhif Safle / Site Ref No | Cyfeiriad 1 / Address 1 | Cyfeiriad 2 / Address 2 | Costau CCG / CCG Costs | | | ostau Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Cost | | | Cyfanswm Buddsoddiad a Amcangyfrifir / Estimated Total Investment |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth / Service Pipes | Cyfanswm / Total | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth /Service Pipes | Cyfanswm / Total | |
| Plan 279 | Bro Silyn | Talysarn | 76,416 | 100,800 | **177,216** | 205,440 | 16,128 | **221,568** | **398,784** |
| Plan 363 | Hyfrydle, Lon Arfon, 17 Llanbeblig Road, Lon y Bryn, Lon Helen (Pt), Lon Eilian (Pt) | Caernarfon | - | 149,184 | **149,184** | - | 127,008 | **127,008** | **276,192** |
| | | | **76,416** | **249,984** | **326,400** | **205,440** | **143,136** | **348,576** | **674,976** |

**Strategaeth Fuddsoddi Prif Gyflenwad Dŵr** | **Cynodeb o'r Cynllun Buddsoddi 10 Mlynedd** | **BLWYDDYN 6**

**Water Main Investment Strategy** | **10 Year Investment Plan Summary** | **YEAR 6**

| Rhif Safle / Site Ref No | Cyfeiriad 1 / Address 1 | Cyfeiriad 2 / Address 2 | Costau CCG / CCG Costs | | | ostau Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Cost | | | Cyfanswm Buddsoddiad a Amcangyfrifir / Estimated Total Investment |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth / Service Pipes | Cyfanswm / Total | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth /Service Pipes | Cyfanswm / Total | |
| Plan 350 | Ffordd y Castell (Pt), 2 Tan y Mynydd, Penrhyn Avenue (Pt), Kingsley Avenue (Pt), Greenwood Avenue (Pt), Llys Branwen, | Maesgeirchen, Bangor | - | 197,568 | **197,568** | - | 116,928 | **116,928** | **314,496** |
| Plan 351 | Greenwood Avenue (Pt), Min y Coed, Ffordd Tegai, Penrhyn Avenue (Pt), Llys Dylan, Queens Avenue (Pt) | Maesgeirchen, Bangor | - | 173,376 | **173,376** | - | 139,104 | **139,104** | **312,480** |
| | | | **-** | **370,944** | **370,944** | **-** | **256,032** | **256,032** | **626,976** |

**Strategaeth Fuddsoddi Prif Gyflenwad Dŵr** — **Cynodeb o'r Cynllun Buddsoddi 10 Mlynedd** — **BLWYDDYN 7**

**Water Main Investment Strategy** — **10 Year Investment Plan Summary** — **YEAR 7**

| Rhif Safle / Site Ref No | Cyfeiriad 1 / Address 1 | Cyfeiriad 2 / Address 2 | Costau CCG / CCG Costs | | | Costau Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Costs | | | Cyfanswm Buddsoddiad a Amcangyfrifir / Estimated Total Investment |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth / Service Pipes | Cyfanswm / Total | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth /Service Pipes | Cyfanswm / Total | |
| Plan 362 | Ffordd Maes Barcer (Pt), Cil Coed, Cae'r Garreg, Ffordd Pandy, Ffordd Wern, Ffordd Cibyn (Pt), Ffordd Coed Marion (Pt), Lon Bach, Glan Peris (Pt) | Caernarfon | 61,440 | 235,872 | **297,312** | 169,728 | 143,136 | **312,864** | **610,176** |
| | | | **61,440** | **235,872** | **297,312** | **169,728** | **143,136** | **312,864** | **610,176** |

**Strategaeth Fuddsoddi Prif Gyflenwad Dŵr** — **Cynodeb o'r Cynllun Buddsoddi 10 Mlynedd** — **BLWYDDYN 8**

**Water Main Investment Strategy** — **10 Year Investment Plan Summary** — **YEAR 8**

| Rhif Safle / Site Ref No | Cyfeiriad 1 / Address 1 | Cyfeiriad 2 / Address 2 | Costau CCG / CCG Costs | | | Costau Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Costs | | | Cyfanswm Buddsoddiad a Amcangyfrifir / Estimated Total Investment |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth / Service Pipes | Cyfanswm / Total | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth /Service Pipes | Cyfanswm / Total | |
| Plan 011 | Y Wern | Felinheli | 39,936 | 84,672 | **124,608** | 153,984 | 116,928 | **270,912** | **395,520** |
| Plan 145 | Cefn Gwyn | Trawsfynydd | 77,568 | 60,480 | **138,048** | 35,712 | 18,144 | **53,856** | **191,904** |
| | | | **117,504** | **145,152** | **262,656** | **189,696** | **135,072** | **324,768** | **587,424** |

**Strategaeth Fuddsoddi Prif Gyflenwad Dŵr** — **Cynodeb o'r Cynllun Buddsoddi 10 Mlynedd** — **BLWYDDYN 9**

**Water Main Investment Strategy** — **10 Year Investment Plan Summary** — **YEAR 9**

| Rhif Safle / Site Ref No | Cyfeiriad 1 / Address 1 | Cyfeiriad 2 / Address 2 | Costau CCG / CCG Costs | | | Costau Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Costs | | | Cyfanswm Buddsoddiad a Amcangyfrifir / Estimated Total Investment |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth / Service Pipes | Cyfanswm / Total | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth /Service Pipes | Cyfanswm / Total | |
| Plan 146 | Maes Gwyndy | Trawsfynydd | - | 28,224 | **28,224** | - | 16,128 | **16,128** | **44,352** |
| Plan 190 | Ffordd Coed Mawr (part), Torronnen & Trehwfa (part) | Bangor | - | 50,400 | **50,400** | 15,360 | 80,640 | **96,000** | **146,400** |
| Plan 334 | Heol Llywelyn | Barmouth | 15,744 | 108,864 | **124,608** | 103,296 | - | **103,296** | **227,904** |
| Plan 396 | Ffordd y Castell (Pt), Lon y Felin, Kingsley Avenue (Pt), Lon Tyddyn (Pt), | Maesgeirchen, Bangor | - | 110,880 | **110,880** | - | 116,928 | **116,928** | **227,808** |
| | | | **15,744** | **298,368** | **314,112** | **118,656** | **213,696** | **332,352** | **646,464** |

**Strategaeth Fuddsoddi Prif Gyflenwad Dŵr** | **Cynodeb o'r Cynllun Buddsoddi 10 Mlynedd** | **BLWYDDYN 10**

**Water Main Investment Strategy** | **10 Year Investment Plan Summary** | **YEAR 10**

| Rhif Safle / Site Ref No | Cyfeiriad 1 / Address 1 | Cyfeiriad 2 / Address 2 | Costau CCG / CCG Costs | | | Costau Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Costs | | | Cyfanswm Buddsoddiad a Amcangyfrifir / Estimated Total Investment |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth / Service Pipes | Cyfanswm / Total | Pibellau Prif Gyflenwad Dŵr heb eu mabwysiadu / Un-adopted Water Mains | Pibellau Gwasanaeth /Service Pipes | Cyfanswm / Total | |
| Plan 048 | Llety a Llwyn | Rhosgadfan | - | 14,112 | **14,112** | - | - | **-** | **14,112** |
| Plan 168 | Bro Hywyn | Aberdaron | - | 12,096 | **12,096** | 31,104 | 10,080 | **41,184** | **53,280** |
| Plan 204 | Pemprys | Pentre Ucha | 9,600 | 8,064 | **17,664** | 8,832 | 4,032 | **12,864** | **30,528** |
| Plan 213 | Maes Eifion | Rhoslan | 26,496 | 8,064 | **34,560** | 28,416 | 8,064 | **36,480** | **71,040** |
| Plan 310 | Godrer Gaer | Llwyngwril | 21,120 | 14,112 | **35,232** | 115,584 | 54,432 | **170,016** | **205,248** |
| Plan 391 | Glan Peris (Pt). Ffordd Cibyn (Pt), | Caernarfon | - | 66,528 | **66,528** | 26,880 | 20,160 | **47,040** | **113,568** |
| Plan 332 | Heol y Sarn, Heol Idris, Heol Meirion | Barmouth | - | 22,176 | **22,176** | - | 22,176 | **22,176** | **44,352** |
| Plan 418 | Dolgarreg Ddu | Blaenau Ffestiniog | - | 12,096 | **12,096** | - | - | **-** | **12,096** |
| Plan 485 | 1 & 2 Maengwyn | Trawsfynydd | - | 4,032 | **4,032** | - | - | **-** | **4,032** |
| | | | **57,216** | **161,280** | **218,496** | **210,816** | **118,944** | **329,760** | **548,256** |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
7 Mehefin, 2016

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd John Wynn Jones

**Pwnc:** Adolygu'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gardd

**Swyddog cyswllt:** Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

---

**Y penderfyniad a geisir**

I fabwysiadu trefn fel yr amlygir yn yr Adroddiad hwn o godi ffi ar drigolion am gasglu gwastraff gardd o 1 Ionawr, 2017.

I osod ffi o £33 y flwyddyn ar gasglu biniau gwastraff gardd maint 240 litr (neu 5 sach pydradwy) a £28 y flwyddyn ar gyfer bob bin ychwanegol neu ar gyfer biniau maint 140 litr.

---

**Cyflwyniad**

Yn ei gyfarfod 16 Rhagfyr, 2014 bu i'r Cabinet gymeradwyo gweithredu ystod o gynlluniau arbedion effeithlonrwydd gan gynnwys 'Adolygu'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gardd' i gyflawni arbedion o £750,000 yn y flwyddyn ariannol 2017/18.

Mae'r bwriad i adolygu ein trefniadau casglu gwastraff gardd, gan gynnwys y posibiliad o godi ffi am y ddarpariaeth, yn unol â Strategaeth Wastraff 2010 - 2025 y Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru yn ei ganllawiau ymarfer da 'Glasbrint Casglu' yn argymell y dylid codi ffi ar drigolion am gasglu gwastraff gardd ar amlder pob pythefnos a hyn i bwrpas lleihau ar y cyfaint o wastraff roddir allan gan drigolion ac er mwyn arbed costau casglu a thirlenwi.

Mae'r mater hwn wedi derbyn sylw'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn ei gyfarfod 19 Mai, 2016 a lle gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried yr opsiynau ar gael i gyflawni'r newid ac i gynnig awgrymiadau ar sut i wella'r hyn awgrymir ar gyfer gweithredu'r newid (gweler Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn).

Mae'r Adroddiad hwn i bwrpas derbyn cefnogaeth y Cabinet i argymhelliad y Pwyllgor Craffu ar y drefn i'w weithredu ar godi ffi am gasglu gwastraff gardd.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Ar hyn o bryd mae 9 o siroedd yng Nghymru yn codi rhyw fath o ffi am gasglu gwastraff gardd gan drigolion gyda nifer fawr o siroedd eraill yn ystyried gwneud yr un peth.  Mae'r Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Lloegr a Chymru) 2012 a'r Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd, 1990 yn rhoddi hyblygrwydd i awdurdodau godi ffi resymol am gasglu gwastraff gardd.

Mae cost bresennol darparu'r gwasanaeth oddeutu £807,000 y flwyddyn a byddai codi ffi priodol yn caniatáu i'r Cyngor wneud arbediad blynyddol o £750,000.  Mae'r cynllun arbedion effeithlonrwydd hwn eisioes wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet ond mae angen yn awr gwneud penderfyniad ar y drefn i'w fabwysiadu ar gyfer cyflawni hyn.

**Ystyriaethau perthnasol**

Mae'r Pwyllgor Craffu yn argymell gweithredu trefn o gasglu ar amlder o bythefnos drwy'r flwyddyn yn hytrach nag am 9 mis yn unig.

Argymhellir gosod ffi ar gyfer 2017 o £33 y flwyddyn am fin maint 240 litr (neu 5 sach pydradwy) gyda gostyngiad o 15% ar y ffi hwn ar gyfer biniau ychwanegol neu lai (maint 140 litr).

Y prif bryder a fynegwyd gan y Pwyllgor gyda cyflawni'r newid yw'r gostyngiad ragwelir yn y gofyn am y gwasanaeth o ganlyniad i godi ffi, ac effaith posib hyn ar lefel perfformiad ailgylchu y Cyngor.  Mae gostyngiad o hyd at 3% mewn perfformiad ailgylchu yn bosib a bydd yn angenrheidiol monitro hyn yn ofalus ar gyflwyno'r newid ac er mwyn osgoi denu dirwyon gan Lywodraeth Cymru pe byddai gostwng o dan y trothwy ailgylchu statudol o 58% , 64% erbyn Mawrth 2020 a 70% erbyn Mawrth, 2025.

Bu i'r Pwyllgor Craffu hefyd argymell y dylid pwyso ar Lywodraeth Cymru nad yw yn briodol bod posibiliad i'r Cyngor ddenu dirwyon am beidio compostio gwastraff gardd sydd, yn fwy priodol, gael ei gompostio gartref.

Mater arall o bwys ydi sicrhau trefn hwylus a dealladwy i drigolion mewn talu'r ffi am y gwasanaeth a'r angen sicrhau cyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth i'r newid, ac i bwysleisio nad yw defnydd o'r bin gweddilliol ar gyfer gwaredu gwastraff gardd yn dderbyniol.

'Roedd gan y Pwyllgor Craffu bryderon, yn ogystal, ynglŷn ag amseriad cyflwyno'r newid hwn mor agos i'r newid sylweddol i gasglu gweddilliol ar amlder 3 wythnos.

**Camau nesaf ac amserlen**

Ar gael cymeradwyaeth y Cabinet, bwriedir cychwyn ar y drefn newydd 1 Ionawr, 2017 sy'n cyd-fynd a'r amser 'tawelaf' o ran casglu ac mewn digon o amser cyn y tymor tyfu, ac er mwyn sicrhau bod yr arbediad disgwyliedig yn cael ei wireddu yn y flwyddyn ariannol 2017/18.

Er mwyn gwneud hyn bydd angen casglu a derbyn taliadau ffi gan drigolion rhwng mis Hydref a chanol Rhagfyr, 2016.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Yn amlwg, mae'r arbediad effeithlonrwydd hwn yn un sylweddol a heb ei weithredu, byddem yn wynebu twll mawr yn y gyllideb y byddai'n rhaid ei ganfod trwy doriadau pellach. Mae'n amlwg bod risgiau ynghlwm â'i weithredu, yn arbennig o safbwynt targedau ail-gylchu'r Cyngor. Diau, wrth basio hwn, y bydd y Cabinet yn dymuno pwyso ar yr Aelod Cabinet a'r Adran i adeiladu ar y gwaith ymgysylltu da a wnaed adeg y drafodaeth am symud i gasgliadau tair wythnos er mwyn ceisio rheoli'r risg hynny.

Mae'r pwynt a wnaed gan y Pwyllgor Craffu am sut y mae perfformiad yn y maes hwn yn cael ei fesur yn un da iawn. Byddai'n anffodus a dweud y lleiaf pe byddai'r Cyngor a phobl Gwynedd yn cael eu cosbi yn sgil twf mewn compostio gartref.

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r ddeddfwriaeth ynglŷn â chasglu gwastraff yn adnabod gwastraff gardd fel math o wastraff anheddol y gall y Cyngor godi ffi ar gyfer ei gasglu. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r sail ar gyfer sefydlu'r ffi sydd yn gysylltiedig â chostau darparu'r gwasanaeth. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae'r Cyngor a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol eisoes wedi ymrwymo i wireddu arbediad o £750k o'r cynllun yma i godi ffi ar drigolion am wastraff gardd. Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru yn argymell codi ffi am wastraff gardd yn eu "Glasbrint Casglu", a chodir ffi amdano eisoes yn nifer o siroedd Cymru. Wrth gefnogi'r argymhelliad, rhaid nodi'r risgiau a fynegwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, a'r effaith ariannol all ddeillio o'r risgiau yma. Nodaf hefyd fod sawl pennawd cyllideb anwadal yn y maes gwastraff, a'i fod yn heriol i reoli nifer o gynlluniau arbedion yn y maes sy'n anodd ei rhagamcanu.

Mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi ymgynghori â'r siroedd sy'n codi'r ffi er mwyn asesu effaith tebygol y newid yma, a deallaf fod tebygolrwydd o wrthwynebiad sylweddol yn y flwyddyn gyntaf (o Ebrill 2017), cyn i'r drefn sefydlogi wedyn. Credaf fod tebygolrwydd o wireddu'r arbediad yn y tymor canol trwy gyfuniad o incwm ychwanegol a lleihau costau casglu, ond bydd angen monitro'r lefelau perfformiad ailgylchu dros amser, ac adolygu llwyddiant y cynllun yma eto, gan na welwn arwydd clir o'r deilliant parhaol cyn canol 2018.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 19 Mai, 2016 |
| **TEITL** | Adolygu'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gardd |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd John Wynn Jones |
| **PWRPAS** | I ystyried a gwneud argymhellion ar y drefn awgrymir ar gyfer codi ffi ar drigolion am gasglu gwastraff gardd |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn ei gyfarfod 16 Rhagfyr, 2014 bu i'r Cabinet gymeradwyo gweithredu ystod o gynlluniau arbedion effeithlonrwydd gan gynnwys 'Adolygu Gwasanaeth Gwastraff Gardd' i gyflawni arbedion o £750,000 yn y flwyddyn ariannol 2017/18.

1.2 Mae'r bwriad i adolygu ein trefniadau casglu gwastraff gardd, gan gynnwys y posibiliad o godi ffi am y ddarpariaeth, yn unol â Strategaeth Wastraff (2010-2025) y Cyngor fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod 21 Ionawr, 2010.

1.3 O dan 'Reoliadau Gwastraff Penodol 2012 gall awdurdodau godi ffi ar gasglu gwastraff gardd gan drigolion (hyn ddim i gynnwys y gost o'i waredu) ac mae Deddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990 yn rhoddi hyblygrwydd ar godi ffi neu beidio ar hawl pe dymunir i godi ffi rhesymol am y gwasanaeth.

1.4 Mae Llywodraeth Cymru yn ei ganllawiau ymarfer da 'Glasbrint Casglu' yn argymell y dylid codi ffi ar drigolion am gasglu gwastraff gardd ar amlder pob pythefnos a hyn i bwrpas lleihau ar y cyfaint o wastraff gardd roddir allan gan drigolion ac er mwyn arbed costau casglu a thirlenwi.

1.5 O ganlyniad, felly, mae nifer o siroedd yng Nghymru eisoes wedi newid eu trefniadau drwy godi ffi am y gwasanaeth casglu gardd. Mae'r gweddill o siroedd Cymru, fel Gwynedd, yn y broses o ystyried gwneud yr un peth.

1.6 Mae'r Adroddiad hwn i bwrpas galluogi'r Pwyllgor Craffu i ystyried yr opsiynau ar gael i gyflawni'r newid ac i gynnig unrhyw argymhelliad fyddai'n gwella ar yr hyn awgrymir ar gyfer gweithredu'r newid.

## 2. TREFNIADAU PRESENNOL

2.1 Yn bresennol mae Cyngor Gwynedd yn darparu un bin olwyn (brown) 240 litr i bob tŷ sydd yn dymuno cael y gwasanaeth. Mae llai na 500 o dai yn defnyddio bin maint 140 litr i'r pwrpas. Ar gyfer nifer fechan o dai lle mae cyfyngiadau (llai na 200 mewn nifer drwy'r Sir) cesglir gwastraff gardd drwy ddefnydd hyd at 3 sach pydradwy (gwyn). Mae'r casgliadau presennol ar amlder pob pythefnos a hynny drwy'r flwyddyn.


2.2 Nid pawb sydd yn dymuno cael y gwasanaeth, mae rhai trigolion heb erddi, eraill gyda’r gallu i fedru compostio gartref, gyda thir amaethyddol neu bod yn well ganddynt ei gludo i’n Canolfannau Ailgylchu. O’r 61530 eiddo sy’n derbyn casgliadau gwastraff, oddeutu 45204 eiddo (73.5%) sydd yn derbyn y gwasanaeth casglu gwastraff gardd.

2.3 Cost presennol darparu’r gwasanaeth casglu gwastraff gardd yw oddeutu £807,000 y flwyddyn. Yn ychwanegol, mae costau adnewyddu a darparu cynhwysyddion ar ei gyfer, sydd oddeutu £32,000 y flwyddyn.

2.4 O ran adnoddau mae 17 nifer o weithwyr (FTE) a 3 cerbyd ei angen i ddarparu’r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys y gweithwyr tymhorol sydd eu hangen er mwyn ymdrin â’r cynnydd mewn defnydd o’r gwasanaeth yn ystod yr haf.

2.5 Wedi ei gasglu bydd gwastraff gardd yn mynd i Orsaf Compostio Mewn Llestr Penhesgyn, Ynys Môn i’w brosesu a’i droi yn ‘wrtaith gwella pridd’ neu i safle Gwrtaith Gwynedd, Afonwen i’r un pwrpas. Mae’r Orsaf yn cael ei redeg mewn partneriaeth rhwng Cyngor Ynys Môn, Cyngor Conwy a Chyngor Gwynedd. Mae compostio’r gwastraff gardd yn ein galluogi i osgoi ei anfon i’w waredu drwy dirlenwi. Gan fod gwastraff gardd yn bydradwy, mae ei gompostio yn hytrach na thirlenwi yn hanfodol os yw’r Cyngor am osgoi dirwyon drwy’r drefn Lwfans Tirlenwi.

2.6 Mae’r ffigwr canlynol yn amlygu'r hyn gesglir o wastraff gardd yn ystod y flwyddyn am y 4 mlynedd diwethaf. Sylwer bod y tunelledd gesglir yn eithaf cyson a bod defnydd ar y gwasanaeth oddi allan i’r tymor tyfu.



2.7 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r cyfanswm gwastraff gardd mewn tunelledd y casglwyd gan drigolion yn ystod y 4 mlynedd diwethaf:

| Blwyddyn | Cyfanswm Tunelledd a Gasglwyd |
|---|---|
| 2012/13 | 8264 |
| 2013/14 | 8059 |
| 2014/15 | 8072 |
| 2015/16 | 7926 |

2.8 Mae casglu gwastraff gardd yn cyfrannu tuag at gyflawni ein targed ailgylchu. Ar 31 Mawrth, 2016 bu i'r Cyngor gyrraedd 58.75% ailgylchu/compostio (targed statudol yn 58%). Mae'r 58.75% yn seiliedig ar ail-ddefnyddio (0.18%), ailgylchu (35.46%), compostio gwastraff gardd gesglir gan drigolion (oddeutu 10%), compostio eraill (13.11%). Dylid nodi byddai'r Cyngor yn derbyn dirwyon pe byddai'r ganran ailgylchu yn gostwng yn is na 58% mewn unrhyw flwyddyn a bod angen cyrraedd targed statudol o 64% ailgylchu/compostio erbyn 31 Mawrth, 2020, a 70% erbyn 31 Mawrth, 2025.

**3. PROFIADAU A THREFNIADAU SIROEDD ERAILL**

3.1 O'r 22 Sir yng Nghymru mae 9 Sir ar hyn o bryd yn codi rhyw fath o ffi ar drigolion am gasglu gwastraff gardd. Mae 4 o'r siroedd hyn yn codi ffi cychwynnol am y sach ddefnyddir i'r pwrpas e.e. £1.50 am sach gellir ei ail-ddefnyddio neu £1 am dri sach pydradwy. Mae'r 5 Sir arall yn codi ffi blynyddol am gasgliadau gwastraff gardd rheolaidd ac mae'r tabl isod yn amlygu beth yw eu trefniadau ar ei gyfer:

| Sir | Codi am y Cynhwysydd | Cynhwysydd | Amlder Casglu | Cyfnod Casglu | Manylion Ffi Blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | Na | Sachau hesian | Pythefnos | 9 mis | £25 |
| Pen y Bont | Na | 2 sach | Pythefnos | 9 mis | £27 |
| Dinbych | Na | Bin 140 litr/neu 240 litr neu sachau | Pythefnos | Trwy'r flwyddyn | £34 bin 240 litr, £22 bin 140 litr/3 sach |
| Mynwy | Na | Sachau | Wythnosol | 9 mis | £12 |
| Penfro | Na | 240 litr neu sachau | Pythefnos | 9 mis | £38 |

3.2 O'r hyn yr ydym ar ddeall, lle mae sir yn codi ffi am y gwasanaeth oedd yn flaenorol am ddim, mae gostyngiad eithaf sylweddol yn y gofyn am, a'r defnydd, o'r gwasanaeth yn y flwyddyn gyntaf o'i gyflwyno. Gall hyn fod cymaint â 60% o ostyngiad yn y nifer sy'n derbyn y gwasanaeth. Mae'r siroedd hyn yn adrodd bod cynnydd oddeutu 20% yn y galw am y gwasanaeth wedi'r flwyddyn gyntaf o gyflwyno'r ffi.

3.3 Yr ydym wedi dilyn trywydd a chael gwybod profiadau un sir yn benodol sydd wedi cyflwyno'r drefn o godi ffi ar gasglu gardd dwy flynedd yn ôl. Mae'r canlynol yn amlygu effaith y newid ynghyd a threfniadau sydd nawr mewn lle ac wedi eu datblygu ar ei gyfer:

- Gostyngiad hyd at 60% yn y galw am y gwasanaeth yn y flwyddyn gyntaf o'i gyflwyno.
- Cynnydd o 20% yn y galw am y gwasanaeth yn y flwyddyn olynol.
- Trefn Talu - syml ar-lein gyda cherdyn/cost £2 ychwanegol os yn trefnu dros y ffôn.
- Trefn Adnewyddu – syml ar-lein/dros y ffon, (adnewyddu o fewn 12 wythnos i ddiwedd y flwyddyn).
- Gwybod gan bwy I Gasglu – label unigryw ar y cynhwysydd.
- Diwrnod Casglu – ar y calendr ddarperir gyda'r label wedi talu'r ffi.
- Gwastraff Gardd yn y Bin Gweddilliol – ddim yn dderbyniol, camau gorfodaeth.

3.4 Mae profiadau'r siroedd hyn yn amlygu bod gostyngiad yn y galw am y gwasanaeth ar godi ffi am y ddarpariaeth. Mae hyn o ganlyniad yn golygu llai o gostau i'r awdurdod o ran ei gasglu ac ymdrin.

## 4. YSTYRIAETHAU AR EI GYFLWYNO YNG NGWYNEDD

### 4.1 Y Cynhwysydd ar ei Gyfer

Er y byddai manteision o newid i gynhwysydd newydd (lliw gwahanol) ar gyfer y gwasanaeth ar ei *'newydd wedd'*, byddai'r gost o wneud hyn yn llesteiriol gan fod cost darparu pob bin olwyn 240 litr o ddeutu £25.00 ar hyn o bryd e.e. pe byddai 40% o anheddau'r sir yn derbyn y gwasanaeth byddai'r gost o ddarparu cynhwysydd newydd o gwmpas £615,000.

Felly argymhellir cadw at ddefnyddio'r cynhwysyddion a ddarperir yn bresennol. Ar wneud hyn mae ambell fater yn codi ac angen sylw sef:

- **os oes gofyn am fin ychwanegol ar gyfer gwastraff gardd a ddylid ei ganiatáu?** *Awgrymir y dylid gwneud hyn ar sail ffi ychwanegol am y ddarpariaeth (sydd dywed 15% yn is na'r ffi am y bin cyntaf).*

- **os oes gofyn am newid i fin llai, sef newid o 240 litr i 140 litr a ddylid ei ganiatáu?** *Awgrymir y dylid gwneud hyn a chodi ffi osodir am gasglu drwy ddefnydd bin llai (sydd dywed 15% yn is na'r ffi am y bin 240 litr).*

- **os na fydd angen y bin olwyn gwastraff gardd mwyach a ddylid ei gasglu o'r eiddo?** *Awgrymir y dylid ei gasglu o'r eiddo ond ar adegau pan fydd cais gan y trigolyn i wneud hyn.*

- **i'r ychydig sy'n derbyn casgliad drwy ddefnydd 3 sach pydradwy (gwyn), a ddylid codi am ddarparu'r bagiau fel mae rhai siroedd yn ei wneud?** (gweler 3.1 o'r Adroddiad hwn).
*Awgrymir ei fod yn rhan o'r ffi a godir yn flynyddol am y gwasanaeth ond y dylid darparu 5 sach pydradwy yn hytrach na 3 er mwyn bod yn gyson o ran cyfaint ar bin olwyn 240 litr.*

➢ **rhagwelir bydd label yn cael ei ddarparu yn flynyddol i'r cwsmer sydd yn talu am y gwasanaeth ac ar gyfer ei roddi ar y cynhwysydd. Yr ydym yn ymwybodol bod o leiaf un sir yn codi ffi o £10 os bydd angen darparu label newydd ar ei golli. A ddylid gwneud hyn?**
*Awgrymir na ddylid gwneud hyn ond ei fod yn fater i'w ystyried i'r dyfodol os bydd yn achosi costau gweinyddu ychwanegol.*

**4.2 Amlder Casglu**

Gan fod trigolion wedi arfer derbyn y gwasanaeth casglu gwastraff gardd ar amlder o bythefnos, mae'n fwyaf tebygol bydd disgwyliad, ar godi ffi, y byddai hyn yn parhau. Argymhellir felly, bod yr amlder yn aros pob pythefnos.

Mater sydd angen ei ystyried yw os ddylid darparu gwasanaeth casglu gwastraff gardd drwy'r flwyddyn neu ei gyfyngu i 9 mis y flwyddyn (y tymor tyfu), fel mae rhai siroedd wedi dewis gwneud.

Mae'r canlynol yn cloriannu'r manteision ac anfanteision.

| | **Manteision** | **Anfanteision** |
|---|---|---|
| **Casglu am 9 mis** | • Costau llai mewn darparu'r gwasanaeth<br>• Ffi ychydig yn llai i'r trigolion | • Yn wahanol i'r drefn bresennol<br>• Yn fwy cymhleth i gwsmeriaid<br>• Ddim yn cael y tunelledd casglu gwastraff gardd yn y gaeaf, effaith ar y Gorsaf Compostio a ffigyrau ailgylchu<br>• Trefn anghyson a thoredig gyda'r gweithlu |
| **Casglu trwy'r flwyddyn** | • Fel y gwasanaeth presennol<br>• Yn syml i gwsmeriaid ddilyn<br>• Galluogi casglu gwastraff gardd yn y gaeaf, llai o effaith ar y Gorsaf Compostio a ffigyrau ailgylchu<br>• Trefn cyson gyda'r gweithlu | • Costau uwch mewn darparu'r gwasanaeth<br>• Ffi ychydig yn uwch i'r trigolion |

O ran darparu gwasanaeth fwy cyflawn, cyson a syml i drigolion, mae manteision gyda parhau'r drefn bresennol o gasglu drwy'r flwyddyn. Dylid nodi o baragraff 2.6 o'r Adroddiad hwn bod tunelledd eithaf sylweddol o wastraff gardd yn cael ei gasglu yn ystod misoedd y gaeaf. Prif fantais casglu ond am 9 mis y flwyddyn yw lleihad yng nghostau'r gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei ystyried ymhellach a fwy manwl yn rhan nesaf o'r Adroddiad hwn a dan yr 'Achos Busnes'.

## 4.3 Yr Achos Busnes

Mae'r amcangyfrif o gostau sy'n dilyn ar gyfer casglu a gweinyddu yn unig, nid yw yn cynnwys costau compostio.

| | Llafur £ | Trafnidiaeth £ | Eraill* £ | Incwm £ | Cyfanswm Net £ | Arbediad Blynyddol £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Casglu Presennol** | 546,590 | 260,410 | | -- | 807,000 | -- |
| **<u>Opsiwn 1</u>: Trwy'r flwyddyn**<br>>Amcan 40% o'r tunelledd presennol yn cael ei gasglu<br>>Lefel ffi o £33/fl | 390,590 | 221,410 | 30,000 | 585,000 | 57,000 | 750,000 |
| **<u>Opsiwn 2:</u> 9 mis y flwyddyn**<br>>Amcan 40% o'r tunelledd presennol yn cael ei gasglu<br>>Lefel ffi o £30/fl | 360,590 | 200,000 | 30,000 | 540,000 | 50,590 | 756,410 |

Eraill*

| | |
|---|---|
| Gweinyddu'r Drefn Ffioedd | £7,000 |
| Sticeri | £3,000 |
| Amser Swyddog Monitro | £10,000 |
| Costau Ychwanegol Canolfannau Ailgylchu | £10,000 |
| Cyfanswm | £30,000 |

Mae'r lefel ffi uchod o rhwng £30 i £33 y flwyddyn yn cymharu'n dda gyda'r hyn godir gan siroedd eraill (gweler tabl yn 3.1 o'r Adroddiad hwn). Mae'r dewis o lefel ffi yn bwysig os am sicrhau'r arbediad blynyddol disgwyliedig o £750,000.

Mae angen bod yn wyliadwrus gyda'r ffigyrau uchod gan ei fod yn hynod o anodd darogan faint yn union fydd yn defnyddio'r gwasanaeth ar godi ffi, er mae'r amcan uchod yn amlygu sut fyddai'r arbediad disgwyliedig o £750,000 blynyddol yn cael ei gyflawni ar wireddu'r newid a drwy ddethol ffi briodol am y gwasanaeth. Gellir cyflawni hyn drwy gasglu drwy gydol y flwyddyn neu am gyfnod o 9 mis yn unig. Gan mai ond tua £3 o wahaniaeth y flwyddyn fyddai ar y ffi godir ar drigolion rhwng un opsiwn ar llall, awgrymir y dylid cadw at y drefn bresennol o gasglu drwy gydol y flwyddyn.

Yn amlwg, gyda'r ansicrwydd o ran yr union ofyn am y gwasanaeth wedi cyflwyno'r drefn o godi ffi, bydd angen adolygu lefel y ffi yn flynyddol er mwyn sicrhau bod yr arbedion disgwyliedig yn cael ei wireddu.

**4.4 Oblygiadau Staff**

Ar weithredu Opsiwn 1, sef casglu drwy'r flwyddyn rhagwelir bydd colli 6 (FTE) mewn nifer o weithwyr casglu. Gyda Opsiwn 2, rhagwelir y byddai colli 7 (FTE) mewn nifer o weithwyr casglu. Bydd yn ddisgwyliedig bod ymgynghori priodol gyda staff ac undebau perthnasol i'r pwrpas. O ran sicrwydd cyflogaeth, mae'r opsiwn o weithredu'r casglu drwy'r flwyddyn, sef Opsiwn 1, yn well.

**4.5 Gweinyddu**

Er mwyn casglu'r ffioedd bydd angen sefydlu trefn sy'n galluogi talu yntau drwy ddefnydd Safle We y Cyngor neu drwy gysylltu â Galw Gwynedd a hynny drwy ddefnydd cerdyn credyd neu ddebyd. Dylid caniatáu talu trwy ddefnydd siec neu arian parod ond drwy ymweld â Siop Gwynedd. Dylid nodi nad yw rheoliadau yn deillio o'r Ddeddf Cyllid Awdurdodau Lleol, 1992 yn caniatáu i ni gasglu'r ffi drwy'r drefn talu treth cyngor.

**4.6 Monitro Cydymffurfiaeth**

Ar gyflwyno ffi am gasglu gwastraff gardd, mae pryder y bydd rhai trigolion yn rhoddi gwastraff gardd yn y bin gweddilliol. Oherwydd y drefn tair wythnos o gasglu gwastraff gweddilliol, mae llai o bosibiliad o hyn ddigwydd oherwydd cyfyngder lle yn y bin gweddilliol.

Er mwyn atal hyn ddigwydd bydd angen monitro defnydd o'r bin gweddilliol a chymryd camau gorfodaeth o dan Adran 46 o'r Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd lle mae achosion o gamddefnydd.

Yn sicr, bydd angen pwysleisio ar drigolion nad yw hyn yn dderbyniol fel rhan o'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth i'r newid.

**4.7 Codi Ymwybyddiaeth**

Fel yn achos cyflwyno'r drefn casglu gwastraff gweddilliol pob 3 wythnos, bydd gwaith sylweddol ei angen ar godi ymwybyddiaeth i'r newid. Unwaith yn rhagor bydd Tîm Ymgysylltu yn cael ei sefydlu ar gyfer sicrhau hyn.

Mewn gwneud hyn bydd defnydd o Safle We y Cyngor, Newyddion Gwynedd, Rhaeadr, gwefannau cymdeithasol a phapurau lleol er mwyn lledaenu'r neges a chael trigolion i ddeall beth fydd y trefniadau newydd.
Un o'r prif faterion i'w gyfarch fydd sicrhau ei fod yn hawdd i drigolion gysylltu â thalu am y gwasanaeth. Wedi ei gyflwyno a dros amser, mae'n debyg bydd angen newid i'r cylchdeithiau casglu oherwydd newid yn y cyfaint gesglir. Er hyn, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gadw at y drefn bod pob casgliad h.y. gwastraff bwyd, deunyddiau ailgylchu, gwastraff gweddilliol a gardd, yn digwydd ar yr un diwrnod casglu.

**4.8 Effaith ar Berfformiad Ailgylchu'r Cyngor Gwynedd**

Rhagwelir gostyngiad yn y tunelledd gesglir o wastraff gardd ar gyflwyno’r newid a bydd gan hyn effaith, yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf o’i gyflwyno, ar ein perfformiad ailgylchu. Gall hyn greu hyd at 3% o ostyngiad yn ein canran ailgylchu, a rhaid sicrhau nad ydym yn gostwng o dan y targed statudol o 58% rhag denu dirwyon ar y Cyngor.

O’r mesurau sydd wedi ei gynllunio dan ein Strategaeth Wastraff, rhagwelir proffil fel a ganlyn o ran ein perfformiad ailgylchu sirol ar wireddu’r newid i gasglu gwastraff gardd:.

| **Blwyddyn** | **Targed Statudol** | **Perfformiad Rhagwelir** | **Mesurau Perthnasol** |
|---|---|---|---|
| **2015/16** | **58%** | 58.75% | |
| **2016/17** | | 59.8% | |
| **2017/18** | | 58.5% | • Codi ffi ar wastraff gardd gostyngiad hyd at 3% mewn perfformiad |
| **2018/19** | | 63% | • 1% cynnydd mewn perfformiad o ganlyniad i gynnydd mewn gwastraff gardd<br>• Cynllun Rhanbarthol (ymdrin â gwastraff gweddilliol) yn weithredol |
| **2019/20** | **64%** | 67% | |

Felly, er y gostyngiad yn y flwyddyn gyntaf o’i gyflwyno, rhagwelir na fyddwn yn gostwng o dan y targed statudol o 58% yn ystod y cyfnod sy’n arwain at y targed statudol nesaf yn 2019/20 o 64% ailgylchu. **Bydd angen monitro hyn yn hynod ofalus ar ei gyflwyno.**

**4.9 Amserlen Cyflwyno’r Newid**

Mewn cyflwyno’r newid, mae manteision o gael trefn yn seiliedig ar y flwyddyn galendr, sef i gychwyn 1af Ionawr, 2017. Mae hyn yn cyd-fynd gyda’r amser tawelaf o ran casglu, a mewn digon o amser cyn y tymor tyfu, ac yn hwyluso sefydlu a gweithredu trefn labeli am y flwyddyn. Byddai hyn a manteision amlwg o ran sicrhau cyflawni’r arbedion disgwyliedig yn y flwyddyn ariannol 2017/18. I gyflawni hyn, bydd angen casglu a derbyn y taliadau ffi rhwng mis Hydref a chanol Rhagfyr 2016.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Y Pwyllgor Craffu i ystyried yr opsiynau ar gael i gyflawni'r newid ac i gynnig unrhyw argymhellion fyddai'n gwella ar yr hyn awgrymir ar gyfer gweithredu'r newid a chyflawni'r arbedion disgwyliedig yn 2017/18.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
7 Mehefin, 2016

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd John Wynn Jones

**Pwnc:** Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

**Swyddog cyswllt:** Gwyn Morris Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

---

**Y penderfyniad a geisir**

I gymeradwyo ariannu camau nesaf o'r Prosiect, gyda'r ffynhonnell ariannu berthnasol i'w gadarnhau wrth ystyried sefyllfa ariannol derfynol y Cyngor am 2015-16.

---

**Cyflwyniad**

Ers 2010 mae Cyngor Gwynedd, ynghyd â phedwar Cyngor arall sef Fflint, Ynys Môn, Conwy a Dinbych, yn rhan o bartneriaeth Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC) er mwyn caffael gwasanaeth trin gwastraff gweddilliol am gyfnod o 25+ mlynedd. Mae hyn ar gyfer ymdrin â gwastraff gweddilliol na ellir ei ailgylchu nai gompostio ac i bwrpas sicrhau ein bod yn cyrraedd targedau statudol tirlenwi ac ailgylchu Llywodraeth Cymru i'r dyfodol. Mae'r Prosiect yn un o'r camau/datblygiadau sydd ei angen ar gyfer gwireddu Strategaeth Wastraff 2010-2025 y Cyngor.

Cyngor Sir y Fflint sy'n arwain y Prosiect a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Mae Cytundeb Rhyng-Awdurdod mewn lle sy'n golygu bod pob Sir yn y bartneriaeth wedi cytuno i gyfrannu at gostau rheoli a datblygu'r Prosiect.

Mewn cyrraedd y pwynt hwn yn natblygiad y Prosiect mae'r gost hyd yn hyn oddeutu £5 miliwn rhwng y pum awdurdod.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Yn dilyn newidiadau i drefniadaeth gwaredu gwastraff drwy dirlenwi yn 2009, bu i Gyngor Gwynedd neilltuo swm o £1 miliwn mewn cronfa ddefnyddiwyd i ariannu datblygiad y Prosiect hwn. Erbyn hyn, dim ond £5k sydd yn weddill ar ôl setlo cyfraniad 2015-16.

O ganlyniad mae angen cymeradwyaeth y Cabinet i neilltuo arian ar gyfer cwrdd â chostau cyflawni'r camau nesaf mewn gwireddu'r Prosiect.

**Mae'r buddsoddiad yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Wastraff ac mae gwireddu'r Prosiect yn gwbl angenrheidiol os am atal gwastraff gael ei waredu drwy dirlenwi, er mwyn cadw oddi fewn i dargedau statudol y lwfans tirlenwi, cyrraedd targedau statudol ailgylchu ac o ganlyniad, osgoi dirwyon a chostau uwch i'r dyfodol.**

**Ystyriaethau perthnasol**

Cwmni Wheelabrator Technologies Inc (WTI) sydd erbyn hyn dan ystyriaeth i ddarparu'r dechnoleg a'r gwasanaeth i ymdrin â'r gwastraff gweddilliol drwy broses Ynni o Wastraff. Bydd y cyfleuster yn cael ei adeiladu ar dir yn y Parc Adfer, Glannau Dyfrdwy.

Y cam nesaf yn natblygiad y Prosiect yw cyrraedd a mynd i gytundeb gyda'r Cwmni a dod a'r broses caffael i derfyn, cam a adnabyddir fel y Terfyn Ariannol (Financial Close). Rhagwelir bydd hyn yn digwydd erbyn Gorffennaf, 2016. Yn ddilynol, bydd y Cwmni yn gyfrifol am adeiladu a chomisiynu'r ddarpariaeth (cyfnod o 2 flynedd) cyn gweithredu'r cyfleuster am gyfnod o 25 mlynedd (gyda'r opsiwn i'r bartneriaeth ei ymestyn am 5 mlynedd ychwanegol pe dymunir).

Rhagwelir bydd y Tîm sy'n rheoli'r Prosiect ar ran y Bartneriaeth yn lleihau i 2 neu 3 swyddog mewn nifer i weinyddu'r gytundeb yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y swyddogion hyn yn cael eu hymgorffori oddi fewn i strwythur staff Cyngor Sir y Fflint, gan mai hwy sy'n arwain y Prosiect.

Cyn comisiynu'r ddarpariaeth ymhen dwy flynedd mae angen i'r siroedd ofalu bod gorsafoedd trosglwyddo mewn lle i hwyluso cludo gwastraff i'r cyfleuster e.e. mae angen gorsafoedd trosglwyddo ar siroedd Conwy a Dinbych. Mae'r costau ar gyfer hyn yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y pum awdurdod, gyda'r swm wedi ei gapio.

**Camau nesaf ac amserlen**

Dyma'r proffil ariannol ar gyfer y camau nesaf o'r Prosiect

| **Cam/Datblygiad** | **Blwyddyn** | | | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** | |
| Gorsafoedd Trosglwyddo | - | - | £500k* | *uchafswm, gall fod yn llai |
| Cost Rheoli'r Cytundeb | - | £26k | £46*[1] | *[1] parhaol am 25+ mlynedd |
| Cost Gwaith Comisiynu | £17k*[2] | £42k | - | *[2] o'r gronfa bresennol |
| Cyfanswm | £17k | £65k | £546k | |

O ganlyniad, bydd yn rhaid rhoddi sylw i oblygiadau ariannu'r uchod wrth ystyried sefyllfa ariannol derfynol y Cyngor am y flwyddyn 2015/16 ac i'r dyfodol.

I grynhoi, bydd angen hyd at £565k ar sail unwaith ac am byth dros y cyfnod 2016-17 a 2017-18 ac hefyd £46k ar sail barhaol o 2017-18 ymlaen.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae hwn yn brosiect sylweddol iawn sydd yn gofyn am adnoddau sylweddol. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd ei fod yn allweddol yn awr i sicrhau cynnydd wrth i'r cynghorau leihau'r swmp o wastraff sydd yn mynd i'w dirlenwi. Rwy'n cymeradwyo'r argymhelliad.

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth i sefydlu'r ddarpariaeth ar y cyd gyda'r 4 awdurdod arall. Mae'r cais am adnoddau ychwanegol yn adlewyrchu gofynion sydd wedi datblygu wrth i'r trafodaethau fynd ymlaen. Gan fod y broses caffael bellach yn tynnu tua'r terfyn mae angen symud i gwblhau a gwireddu'r ymrwymiadau rhwng y partneriaid gan gynnwys cwblhau'r trefniadau partneriaethu ar gyfer cyfnod y gytundeb adeiladu a darparu. Mewn cyd-destun masnachol felly mae'r angen am adnoddau ychwanegol yn ynghlwm â chynnal y momentwm i sicrhau cytundeb. Mae hyn ar gefn proses gaffael gymhleth a hirfaith fydd yn sicrhau darpariaeth tymor hir ar gyfer gwastraff gweddilliol.

Felly yn ymarferol mae'r dewisiadau sydd o amgylch y penderfyniad yma yn ymarferol gyfyng. Disgwylir y bydd drafft diweddaraf o'r gytundeb rhwng awdurdod i fod i law cyn dyddiad y cyfarfod a gellir rhoi arweiniad ac eglurhad pellach yn y cyfarfod pe cyfyd angen.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Fel nodir uchod yn yr adroddiad, o dan "Camau nesaf ac amserlen", mae rhaid i'r Cyngor gyfrannu £565k ar sail un-tro, dros y cyfnod 2016/17 - 2017/18 i gwblhau'r rhan yma o'r prosiect. Yn ychwanegol, bydd cost barhaol o £46k y flwyddyn o 2017/18 ymlaen, sef cyfraniad Cyngor Gwynedd tuag at y gost o reoli'r gontract.

Gan fod pwysau ariannol sylweddol yn wynebu'r Cyngor yn 2016/17, mae'r adroddiad ar sefyllfa alldro refeniw 2015/16 i'r cyfarfod yma o'r Cabinet, yn cynnwys argymhelliad yn clustnodi adnoddau digonol ar gyfer gofynion 2016/17 am y tro, gyda'r gweddill ar gyfer 2017/18 i'w adnabod yn ystod y cylch cyllidebu arferol.

# Eitem 12

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD** | **7 Mehefin 2016** |
| **TEITL** | **Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** |
| **PWRPAS** | **Trafodaeth ar ffiniau'r ardaloedd llesiant** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol** |

**1. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â datblygu cynaliadwy ac yn rhoi gofyn statudol ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol eu hardaloedd.

1.2 Rhestrir pedwar aelod statudol o'r byrddau uchod yn adran 29 y Ddeddf sef yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol, yr awdurdod tân ac achub ar gyfer yr ardal a Chyfoeth Naturiol Cymru,

1.3 Rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol llesiant ym mhob cymuned ac yn yr ardal gyfan ddim hwyrach na blwyddyn cyn cyhoeddi ei gynllun llesiant lleol.

1.4 Mae'n rhaid i'r asesiad llesiant adnabod cymunedau daearyddol ar lefel is awdurdod o fewn ardal gyffredinol y bwrdd. Bwriad adnabod ardaloedd llai ydy cydnabod ymdeimlad o hunaniaeth o fewn cymunedau hyn a dangos gwahaniaethau rhwng ardaloedd.

1.5 Ni ddylid colli golwg ar bwrpas y Ddeddf yn syml sef gosod gofyn statudol ar gyrff unigol a byrddau gwasanaeth cyhoeddus i wella lles eu hardaloedd a hynny mewn modd cynaliadwy.

1.6 Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fydd yn penderfynu'n derfynol ar nifer a siâp yr ardaloedd yn dilyn ymgynghori'n statudol ar yr Asesiad Drafft. Ond mae disgwyl i bob bwrdd gysylltu'n eang efo r partneriaid a budd ddeiliaid eang iawn wrth fynd at y gwaith.

1.7 Gall y Cabinet wneud awgrym i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn ag ardaloedd posib. Ond bydd rhaid i'r Bwrdd ddod i'w gasgliad gan gyfarch gofynion y Ddeddf a'r gofynion statudol sydd ynglŷn â'r modd mae'n dod i gasgliad.

**2. YSTYRIAETHAU**

2.1 Ystyriwyd nifer o ffactorau wrth geisio adnabod yr ardaloedd daearyddol posib llai hyn megis:

- Hunaniaeth yr ardal
- Maint a phoblogaeth yr ardal

- Nifer yr ardaloedd o fewn un asesiad
- Ystyriaethau casglu data
- Ydy'r union 'ardal' mewn defnydd mewn meysydd eraill
- Prif ganolfannau gwasanaeth
- Ydy'r ardal yn gwneud synnwyr i sut mae pobl yn byw

## 3. Y CYNNIG

3.1 Er bod nifer o opsiynau wedi'u hystyried, opsiwn 8 ardal a gyflwynwyd yn gyntaf i'r Fforymau Ardal ac yna yn fwy eang i gynghorau cymuned, tref a dinas â thrigolion Gwynedd drwy ymarferiad ymgysylltu ar lein.

3.2 Mae'r cynnig o 8 ardal **(Atodiad A)** yn seiliedig ar brif drefi Gwynedd sef:

- Y Bala
- Bangor
- Caernarfon
- Dolgellau
- Ffestiniog
- Llŷn
- Porthmadog
- Tywyn

3.3 Ar sail y gwaith cychwynnol, ymddengys mai'r opsiwn hwn yw'r cynnig gorau o ran cydnabod hunaniaeth ardaloedd, casglu data yn ogystal â rhoi cyfle i adnabod y gwahaniaethau rhwng ardaloedd.

## 4. YMARFERIAD YMGYSYLLTU

4.1 Anfonwyd gwybodaeth am y cynnig 8 ardal at bob cyngor cymuned tref a dinas ar 9 Mai er mwyn cyfarfod ag amserlen y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cyfarfod ar 17 Mehefin.

4.2 Lluniwyd holiadur ar-lein hefyd ar gyfer sylwadau gan drigolion Gwynedd. Fel rhan o'r cynllun cyfathrebu i hyrwyddo'r ymarferiad:

- Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg i hyrwyddo'r ymarferiad a chyfeirio trigolion i'r ymarferiad ar wefan y Cyngor a wnaeth arwain at sylw yn y Daily Post (17 Mai), Herald (18 Mai), Cambrian News (19 Mai) a'r Chronicle (19 Mai).
- Cyhoeddwyd 8 neges ar wefan cymdeithasol Twitter ac 8 neges ar wefan cymdeithasol Facebook.
- Cyhoeddwyd erthygl yn E-Newyddlen Rhaeadr i hysbysu aelodau'r Cyngor o'r ymarferiad.

4.3 Bydd adroddiad llafar ar ganlyniadau'r ymarferiad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet 7 Mehefin.

## 5. CAMAU NESAF

5.1 Yn dilyn trafodaeth ar y sylwadau gan gynghorau cymuned a thrigolion Gwynedd, gofynnir i Aelodau'r Cabinet argymell opsiwn o ardaloedd daearyddol ar gyfer creu'r asesiad llesiant drafft i'w ystyried gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod 17 Mehefin 2016.

---

## Barn y swyddogion statudol

### Y Prif Weithredwr:

Fel sydd yn glir o'r adroddiad, mae gofyn statudol i wneud asesiad llesiant ac mae'n amlwg bod yn rhaid i'r asesiad hynny fod ar sail ardaloedd sydd yn synhwyrol yng ngoleuni'r pwyntiau a wneir yn rhan 2.1 o'r adroddiad. Mae'r ardaloedd sy'n cael eu cynnig yn ymddangos yn gynigion doeth ond, wrth gwrs, gallai'r asesiad ei hun awgrymu patrwm gwahanol ar gyfer cynllunio gwaith yn sgil hynny.

Fel y noda'r Pennaeth Cyllid, mae posibilrwydd y gallai'r asesiad godi materion allai arwain at alw i wario neu fuddsoddi. Ond, mae'n amlwg y bydd unrhyw anghenion all godi o hynny'n gorfod cael sylw yn nhrefn blaenoriaethu'r Cyngor a'i bartneriaid maes o law.

### Y Swyddog Monitro:

Fel y nodir yn yr adroddiad mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sefydlu egwyddorion a dyletswyddau ar gyfer cyrff cyhoeddus yn seiliedig ar y cysyniad o ddatblygu cynaliadwy. Mae'r ddeddf hefyd yn gosod cyfundrefn lywodraethu statudol sydd yn cynnwys creu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gydag aelodaeth benodedig. Gosodir swyddogaeth ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan y Ddeddf ac un o'r rhain yw cynnal asesiad gofynion llesiant ei ardal fydd yn cynnwys pennu ardaloedd cymunedol. Yn ogystal mae'r Ddeddf a'r canllawiau statudol yn gosod gofynion ymgynghori ac ymgysylltu ar y Bwrdd wrth weithredu eu swyddogaethau a chynnal yr asesiad. Oherwydd hyn, er y gall y Cabinet awgrymu ffordd ymlaen i'r Bwrdd ynglŷn â'r ardaloedd rhaid pwysleisio mai cyfrifoldeb y Bwrdd fel corff ydi cloriannu'r wybodaeth yma a chanfyddiadau ei brosesau a dod i gasgliad ei hun ar gynnwys yr asesiad.

### Y Pennaeth Cyllid

Nodaf gallasai sefydlu'r ardaloedd yma godi disgwyliadau o weithredu yn unol â gofynion niferus ac amwys y Ddeddf Llesiant, o agweddau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Nid yw'r setliad yn

wybyddus er mwyn adnabod os bydd y byrdwn ychwanegol perthnasol wedi'i ariannu.

Mae llawer o ofynion y Ddeddf Llesiant eisoes wedi'u hystyried fel ymrwymiadau yng Nghynllun Strategol cyfredol y Cyngor. Nid oes adnoddau ychwanegol wedi'u neilltuo er mwyn cyflawni llawer mwy na'r prosiectau rheiny sydd eisoes wedi'u cynllunio.

Os bydd gofyn am adnodd datblygol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu'r ardaloedd arfaethedig yma, er mwyn buddsoddi mewn treftadaeth, gweithgareddau hamdden, neu nodau llesiant eraill, yna diau y bydd raid i'r Cabinet flaenoriaethu'r rheiny o fewn darpariaeth cronfa'r Cynllun Strategol.

**Dogfen gefndir**

**SPSF3:** Rôl gydweithredol (byrddau gwasanaethau cyhoeddus) Llywodraeth Cymru

**Atodiad A**

## Ardaloedd Asesiad Llesiant Arfaethedig
## Proposed Areas for Well-being Assessment




Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordnans 100023387

Research and Analytics Service, Corporate Support Department
© Crown copyright and database rights 2016 Ordnance Survey 100023387

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD** | **7 Mehefin 2016** |
| **TEITL** | **Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015-16 - meysydd Gofal; Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai** |
| **PWRPAS** | **Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol** |

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir trosolwg o berfformiad y Cyngor hyd yma yn 2015/16. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Gofal; Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai sydd yn rhan o bortffolio'r aelodau Cabinet canlynol:

Y Cynghorydd Gareth Roberts
Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies
Y Cynghorydd Ioan Thomas

1.2 Mae'r adroddiad yn cyfarch y cynlluniau trawsnewidiol sydd yn y cynllun strategol yn ogystal ag yn tynnu sylw at y mesurau perfformiad sydd yn bwysig i bobl Gwynedd ac yn adlewyrchu gwaith dydd i ddydd y Cyngor.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

**2.0 Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**3.0 Prif negeseuon**

3.1 Mae'r prosiectau yn dangos ymroddiad i weithio mewn partneriaeth er budd pobl Gwynedd.

3.2 Mae prosiectau Gofal, a Thlodi, Amddifadedd, Economi, Tai yn adrodd ei bod yn gynamserol i ddangos effaith ar bobl Gwynedd.

3.3 Mae'r mesurau yn perfformio yn unol â'r disgwyl:

- Yn y maes Gofal, mae perfformiad mesurau yn awgrymu fod unigolion yn cael eu grymuso i fyw bywydau annibynnol. Gweler 5.1
- Mae materion Gofal yn parhau yn ardal Meirionnydd, sef materion gyda phobl sydd â chynllun gofal wedi'u hadolygu yn ystod y flwyddyn ac oedi trosglwyddo yn gysylltiedig ag ysbytai Tywyn â Dolgellau. Atodiad 1, Tud. 2.
- 35 o swyddi gwerth uchel wedi eu creu yn y maes Economi drwy gydweithio gyda chlystyrau busnes diwydiannau creadigol a thechnoleg gwybodaeth. Gweler 5.2.
- Gwelwyd £5.9miliwn o fudd i'r Economi leol drwy gefnogi digwyddiadau proffil uchel.
- Rydym wedi parhau i sefydlu unedau tai ychwanegol yn y maes Tai

**4.0 Prosiectau'r Cynllun Strategol**

Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2015/16 yn y meysydd Gofal, Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai. Mae'r prosiectau ym mherchnogaeth yr aelodau Cabinet unigol.

**Gofal**
**Y Cynghorydd Gareth Roberts**

**G1 Her Gofal**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn gwbl glir o'r her sydd yn ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy gydweithredu'n gymunedol.**
Mae'r prosiect hwn bellach yn weithredol ers 12 mis ac er bod llawer o weithgarwch sydd wedi bod, mae'n debyg ei fod gyn amserol i weld effaith y prosiect ar drigolion Gwynedd. Mae gwaith y prosiect dros y flwyddyn ddiwethaf wedi codi ymwybyddiaeth staff, aelodau etholedig, partneriaid a darparwyr o'r her sydd yn wynebu'r sector yn y dyfodol a thrwy hyn hefyd goblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd. O ran ceisio codi ymwybyddiaeth o'r ddeddf, mae tair sesiwn hyfforddi aelodau wedi eu cynnal dros y misoedd diwethaf, llyfryn gwybodaeth wedi ei ddatblygu ac erthyglau wedi eu rhannu'n fewnol gydag aelodau etholedig. Yn benodol wedyn o ran y gweithlu, mae cynadleddau staff wedi eu cynnal yn ogystal â bwletinau misol wedi cael eu rhyddhau er mwyn diweddaru staff ar faterion allweddol.

Penodwyd Rheolwr Llesiant ar 13 Mai 2016 a bydd y rôl gwbl newydd hon heb os yn rhoi hwb angenrheidiol i yrru elfennau llesiant y prosiect. Nid oes llawer o gynnydd wedi bod o ran ymgysylltu hefo'r cyhoedd yn ystod 2015/16, er hyn mae llawer o'r gwaith paratoi wedi ei wneud o ran mapio gwasanaethau a gweithgareddau mewn ardaloedd penodol a threialu mathau gwahanol o ymgysylltu e.e. sgwrs ar ffurf cwis. Pwrpas yr ymgysylltu gyda chymunedau fydd sbarduno'r datblygiad o weithgarwch ataliol fyddai'n lleihau gorddibyniaeth ar wasanaethau cymdeithasol. Disgwylir gweld cynnydd sylweddol o ran hyn yn ystod y misoedd nesaf.

Gwelwyd llwyddiant felly wrth gyflawni'r gwaith codi ymwybyddiaeth, gyda gwaith pellach i'w wneud er mwyn ymgysylltu gyda chymunedau.

**G2 Gweithio'n integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd ail ddylunio ein ffordd gyfredol o weithio gan sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd (pobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol yn yr achos yma) yn gwbl ganolog.**
Ym mis Chwefror ymwelodd holl aelodau Cabinet â'r tîm integredig yn Ysbyty Alltwen, sydd yn weithredol yn ardal Eifionydd. Cafodd aelodau'r Cabinet gyfle i siarad hefo staff er mwyn cael blas ar eu profiadau hwy o ran y newid yn y ffordd o weithio a thrwy hynny'r buddiannau sydd i drigolion Gwynedd o weithio'n integredig a rhoi'r unigolyn yn gwbl ganolog i'n gwasanaethau.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

Mae bwriad i ehangu'r prosiect ar draws y Sir ac mae cynnydd wedi bod o ran y datblygiadau hynny. Cafwyd cyfarfod adeiladol iawn gyda Dirprwy Swyddog Gweithredol y Bwrdd Iechyd ac mae cyfarfod pellach wedi ei drefnu hefo'r Prif Weithredwr newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn benodol o ran effaith y prosiect hwn mae'n debyg y gellir dweud fod trigolion Eifionydd, sydd wedi profi'r ffordd newydd o weithio, yn cael y buddion llawn o wasanaeth integredig sydd a'i ffocws yn gyfan gwbl ar yr hyn sy'n cyfri iddynt. Mae adborth gan yr unigolion wedi bod yn bositif iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn cadarnhau ein bod ar y trywydd cywir. Rydym yn dechrau gweld newid hefyd o ran be sy'n cael ei gomisiynu h.y. rydym yn dibynnu llai ar wasanaethau traddodiadol, ac yn ceisio cynnig opsiynau gwahanol i unigolion sy'n aml iawn yn cyfarch eu gwir anghenion yn well. Mae'r dystiolaeth yma yn dangos fod y prosiect yn gwneud cynnydd da.

**G3 Ail-strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Os am lwyddo gyda'r newid sylweddol a newid meddylfryd a diwylliant yr adran, mae'n hanfodol bod strwythur staffio'r adran yn addas i bwrpas ar gyfer y dyfodol. Pwrpas y prosiect hwn yw gweithredu ar ail-strwythuro'r adran.**

Mae llithriad a fu yn rhai camau o'r prosiect ar y cychwyn, sef penodi i'r haenau uwch reolaeth, yn parhau i gael effaith negyddol ar sicrwydd staff am y dyfodol a gall hyn gallai hynny gael effaith andwyol ar ddarpariaeth gwasanaeth. Fodd bynnag, rydym wedi llwyddo i gadw amserlen ail-strwythuro'r strwythur ehangach yr un peth. Mae sgôp y prosiect hwn wedi datblygu'n sylweddol ers comisiynu'r prosiect yn wreiddiol ac yn esbonio'r llithriad hwn. Yn wreiddiol strwythur yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn unig oedd dan sylw ond, yn dilyn dylanwad a datblygiad prosiect G2 (uchod) dros y flwyddyn ddiwethaf, mae rhan o'r strwythur (Pobl Hyn ac Anableddau Corfforol) bellach yn cael ei ddatblygu'n gwbl integredig gyda'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r Aelod Cabinet yn hyderus fod yr addasiad yma yn golygu strwythur mwy addas i bwrpas ar gyfer y dyfodol ac yn sicrhau fod gennym y trefniadau llywodraethu gorau posib er mwyn gallu gweithio'n integredig ac ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd. Er y newid, dylid nodi fod elfennau o'r prosiect nad ydynt yn ddibynnol ar ddylanwadau allanol (e.e. Anableddau Dysgu, Tai a Darparu) yn cael eu gweithredu yn unol â'r disgwyl. Mae'r elfennau o'r prosiect sydd felly wedi eu cyflawni yn galluogi staff i weithredu yn unol â disgwyliadau a buddion y ddeddf newydd.

**G4 Strategaeth Lletya Pobl Hyn**

**Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau cytundeb ar y Strategaeth Letya Pobl Hŷn a'i defnyddio i bwrpas trafodaethau datblygol gyda phartneriaid**

Pwrpas y prosiect oedd sicrhau cytundeb ar y Strategaeth Letya Pobl Hŷn a'i defnyddio i bwrpas trafodaethau datblygol gyda phartneriaid. Gellir cadarnhau fod y prosiect hwn wedi ei gwblhau o fewn yr amserlen a gafodd ei haddo yn y cynllun strategol ac fe gymeradwywyd y strategaeth gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2016.

Ar hyn o bryd does neb wedi cael budd o ganlyniad i'r prosiect ond bydd ei weithredu yn cyfrannu at sicrhau fod gennym y ddarpariaeth addas yn y mannau priodol ar gyfer pobl hyn y sir.

**G5 Tai Gofal Ychwanegol (Porthmadog)**

**Pwrpas y prosiect yma yw adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog.**

Mae'r gwaith o ddymchwel a chlirio wedi dechrau. Er y llithriad yn yr amserlen wreiddiol, mae'r Aelod Cabinet yn hyderus y byddwn wedi cyflawni'r hyn a addawyd erbyn diwedd cyfnod y cynllun strategol. O ganlyniad i dan wariant Llywodraeth Cymru, rydym wedi derbyn grant ychwanegol o £1.4m, ac wedi gallu ei ddefnyddio i dalu rhan fwyaf o'r swm oedd yn weddill o'r datblygiad hwn.

Ar hyn o bryd does neb wedi cael budd o ganlyniad i'r prosiect ond mae'n debyg fod y ffaith fod y datblygiadau wedi dechrau o ddifri yn rhoi cyfle i rai o drigolion y sir, sydd â diddordeb yn y math hwn o lety, gynllunio ymlaen.

**G6 Frondeg**

**Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen.**

Pwrpas gwreiddiol y prosiect oedd sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen. Mewn cyfarfod o'r Cabinet ar 19 Ionawr 2016, yn dilyn cyfnod o ymgysylltu ac ymgynghoriad ffurfiol, penderfynwyd datblygu model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu ar safle Frondeg, a dod â defnydd cyfredol yr adeilad i ben unwaith y bydd y datblygiad newydd ar gael.

Mae cyflawni pwrpas gwreiddiol y prosiect wedi cael effaith bositif ar drigolion Cartref Frondeg gan eu bod bellach yn glir am y ffordd ymlaen. Er bod y datblygiad newydd yn mynd i olygu newid sylweddol i'r trigolion mae'r effaith ar y cyfan yn un positif h.y. bydd y trigolion yn parhau i fyw yn y Frondeg fel ag y mae hyd nes y bydd y llety newydd yn barod.

**G7 Darpariaeth Fewnol**
**Pwrpas y prosiect yma yw penderfynu ar sut rydan ni'n rhedeg y Gwasanaeth Darparu (sy'n darparu gwasanaeth gofal) a gweithredu ar hynny.**
Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo er mwyn penderfynu ar sut rydan ni'n rhedeg y Gwasanaeth Darparu. Bydd opsiynau dechreuol yn cael eu cyflwyno i aelodau Cabinet yn fuan ac mae gwaith pellach wedi ei gomisiynu er mwyn cynnwys asesiad ariannol.

Cred yr aelod Cabinet bod angen ystyried y ffordd ymlaen yng nghyd-destun pa mor fregus yw'r farchnad gofal ar hyn o bryd, a'r potensial sydd i ymateb i hyn trwy gydweithio hefo'r Bwrdd Iechyd.

Ar hyn o bryd does neb wedi elwa o'r gwaith yma ac mae'n gyn amserol hefyd i ddatgan os oes unrhyw fudd yn debygol o ddeillio o'r prosiect.

**4.1 Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**

**Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies**
**T1 Swydd Gwerth Uchel ac o Ansawdd**
**Pwrpas y prosiect hwn yw creu'r amodau er mwyn creu swyddi gwerth uchel ac o ansawdd yn y sir.**
Yn ystod y flwyddyn, mae'r prosiect yma wedi rhoi pwyslais ar adnabod y sectorau arwyddocaol i Wynedd o ran creu swyddi a marchnata'r Gwynedd i sectorau er mwyn hybu mewnfuddsoddiad i'r ardal. Y sectorau sydd wedi'u hadnabod yw digidol, creadigol, ynni a gwyddoniaeth ac ymchwil. Hyd yma, mae'r prosiect wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i werthu potensial Gwynedd i ddatblygwyr, ac wedi chwarae rhan flaenllaw yn creu 35 o swyddi gwerth uchel yn yr ardal yn ystod y flwyddyn. Ceir manylion pellach ar rai o'r swyddi hynny yn *Atodiad 1 - Mesurau*.

Mae'r prosiect hefyd wedi bod yn gweithio gyda chwmnïau/busnesau gwerth uchel sy'n byw yn yr ardal. Fel enghraifft, yn ystod y flwyddyn, gweithiwyd gyda chlwstwr o gwmnïau digidol ym Mharc Menai sydd yn cyflogi dros 200 o bobl yn lleol, mewn swyddi o ansawdd. Yn ystod y flwyddyn, mae'r prosiect yma wedi rhoi cymorth i'r cwmnïau/busnesau yma i recriwtio pobl i swyddi sy'n codi. O ganlyniad i hyn, mae tri o bobl ifanc oedd wedi gadael yr ardal wedi symud yn ôl i Wynedd ac wedi'u penodi i swyddi gwerth uchel yn y maes digidol. Mae'r clwstwr digidol hefyd wedi adnabod y posibilrwydd o greu dros 200 o swyddi ychwanegol yn yr ardal yn ystod y blynyddoedd nesaf, ond yn rhagweld problemau recriwtio i'r

swyddi. Er mwyn ymateb i hyn, mae gwaith wedi'i wneud gyda'r sector addysg i greu cyrsiau Lefel A/AS o fewn y maes Cyfrifiadureg sy'n adlewyrchu'r sgiliau sydd eu hangen o fewn sector yn y Sir.

**Ardal Fenter Eryri**
Mae gwaith dwys wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn o ran Ardal Fenter Eryri. Er mai Llywodraeth Cymru sy'n arwain ar yr ardal fenter, mae'r prosiect yma wedi bod yn cydweithio'n agos gyda hwynt er mwyn hyrwyddo safle Trawsfynydd fel lle i adleoli'r SMR '*Small Modular Reactor*'. Bu gwaith lobïo llunwyr polisi a magu perthynas hefo cyrff ac unigolion dylanwadol yn digwydd er mwyn gwneud gwaith ymarferol i leihau'r risg i'r datblygwyr. Bu'r prosiect yn llwyddiannus yn diogelu 200 o swyddi ar safle Trawsfynydd drwy ddarbwyllo Magnox i barhau gyda'r gwaith o ddad-gomisiynu'r safle tan 2028 yn hytrach na chau'r safle yn gyfan gwbl a diswyddo staff i gyd erbyn 2016.

Gwelwyd buddsoddiad o £1.5m yn safle Llanbedr yn ystod y flwyddyn i uwchraddio'r safle fel ei fod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer awyrennau di-beilot.  Mae cwmni QinetQ wedi arwyddo cytundeb i ddefnyddio'r safle i redeg treialon RPAS '*Remotely Piloted Air Systems*' yn ystod mis Mawrth 2016. Mae cynllun lobïo ar gyfer y safle yma a'r safle porth gofod yn parhau.

**T2 Cadw'r budd yn lleol**
**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau bod gan fusnesau'r sir yr wybodaeth a'r gallu i fanteisio ar drefn gaffael gwasanaethau a nwyddau newydd y Cyngor.**
Mae'r Cyngor yn caffael canran mawr o'i wariant gyda busnesau lleol sydd werth dros £64miliwn i'r economi leol. Gan ei bod yn holl bwysig sicrhau bod ein cadwyni lleol yn ymwybodol o'r cyfleoedd i gytundebu gyda'r Cyngor a'r angen i sicrhau dealltwriaeth o drefniadau caffael y Cyngor, mae gwaith wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i adnabod y prif rwystrau sydd i'r farchnad leol gystadlu am gyfleoedd sydd yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r prif rwystrau sydd wedi'u codi gan fusnesau yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfleon, prosesau a gofynion caffael rhwystredig a chymhleth, ynghyd â diffyg capasiti yn y farchnad leol i gyflawni gwaith a chystadlu amdano. Mae'r prosiect erbyn hyn yn gweithio'n rhagweithiol i ymgysylltu gyda'r farchnad i baratoi cyflenwyr lleol ar gyfer y broses dendro.

Ceir tystiolaeth gref o'r effaith mae rhai o'r cytundebau mawr sydd wedi'i hennill i'r ardal wedi ei gael, ynghyd â'r buddion cymdeithasol sydd wedi deillio o'r rheiny. Er enghraifft, wrth ddefnyddio'r cymalau buddion cymunedol yn y cytundebau, wrth adeiladu Ysgol Bro Llifon, sicrhawyd bod

55% o is-gontractau wedi’u hennill gan gontractwyr yng Ngwynedd. Ceir enghreifftiau tebyg gydag adeiladu Ysgol Hafod Lon Newydd lle mae’r buddion craidd yn cynnwys:

- Wythnosau profiad gwaith yn cael eu cynnig i fyfyrwyr lleol o’r Colegau
- Dwy swydd wedi’u creu gan isgontractwyr lleol
- Pump o brentisiaethau wedi'u cynnig, ac wedi cael profiad ymarferol ar y safle
- Gwerth 80% o wariant yn gysylltiedig â’r prosiect wedi aros yng Nghymru, 47% o fewn Gwynedd

**Mewnosod tri chategori rheolaeth caffael o fewn y Cyngor**
Mae’r rhan yma o’r prosiect yn ymwneud â ffurfioli a chysoni prosesau caffael y Cyngor drwy fewnosod trefniadau prynu’n strategol (a elwir Rheolaeth Categori). Mae’r Tîm Categori ‘Pobl’ wedi ei sefydlu a’r ymgysylltiad i sefydlu trefniadau newydd gyda gwasanaethau o fewn y ddau gategori nesaf (Amgylchedd a Chorfforaethol) yn digwydd ar hyn o bryd.

**T3 Gwynedd Ddigidol**
**Pwrpas y prosiect hwn yw cefnogi ymdrechion i drawsnewid defnydd busnesau, gwasanaethau a thrigolion Gwynedd o dechnoleg drwy sicrhau bod darpariaeth o fand eang cyfoes ar draws y sir.**
Mae’r Rhaglen Cyflymu Cymru yn 83% yn gyflawn yng Ngwynedd a bellach mae 51,839 o gartrefi a busnesau yn gallu derbyn bandeang cyflym. Ymhellach i hyn, mae adroddiad Isadeiledd Ofcom 2015 (data o Haf 2015) yn dangos bod 93% o eiddo Gwynedd yn gallu cael mynediad i fandeang cyflym gyda 65% yn gallu derbyn cyflymder o >30MBps. Mewn ymgais i ddangos maint y cynnydd yma, yn 2012, roedd ein mynediad at fandeang cyflym yn 0, felly mae gweld cynnydd i 65% erbyn heddiw yn gam mawr ac yn dangos effaith gwaith y prosiect yma ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru.

Ceir effaith bositif ar fusnesau yng Ngwynedd o ganlyniad i’r prosiect yma yn ogystal. Gellir gweld enghreifftiau pellach trwy’r linc yma: https://vimeo.com/84204496.

Trwy’r prosiect yma, mae Gwynedd wedi arwain y ffordd yng Nghymru drwy ddwy raglen beilot ar gyfer datblygu’r dull o gefnogi busnesau i wneud gwell defnydd o dechnoleg i fasnachu. Treialwyd sesiynau gyda 50 o fusnesau Gwynedd. Mae gwerthusiad o’r canlyniadau yn nodi fod 71% o fusnesau, sydd gyfystyr â 36, yn adrodd iddynt ymchwilio i ddulliau o ddefnyddio technoleg newydd o ganlyniad i’r cymorth.

Yn ogystal, mae 7,000 o fusnesau Gwynedd wedi derbyn gwybodaeth yn y flwyddyn ddiwethaf i godi ymwybyddiaeth o'r manteision a'u hysbysu o'r cymorth sydd ar gael.

Ers i dreialon Gwynedd ddod i ben, mae rhaglen Genedlaethol bum mlynedd wedi cychwyn ers Ionawr 2016 fydd yn cynyddu'r niferoedd a all dderbyn cymorth.

Mae cydweithio hwylus a pharod wedi bod o'r cychwyn rhwng BT a'r Cyngor i weithredu'r cynllun o ran cyflawni'n lleol. Mae angen parhau i gydweithio a chyfathrebu, yn arbennig gan fod ardaloedd mae BT yn gweithio ynddynt erbyn hyn yn fwy anodd/anghysbell.

**T4 Cefnogi'r economi wledig**
**Pwrpas y prosiect yw creu'r amodau i gryfhau sail economi wledig Gwynedd gan annog mentrau lleol i sefydlu a datblygu er mwyn cynnal cyflogaeth ar draws cymunedau Gwynedd.**

Yn ystod y flwyddyn, mae'r prosiect yma wedi bod yn llwyddiannus yn denu buddsoddiad o £4 miliwn ar gyfer rhaglen LEADER (Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru) sy'n weithredol hyd at 2020. Erbyn hyn, mae brand Arloesi Gwynedd wedi'i ddatblygu ac mae gwaith ymchwil/gwaith datblygu drwy law gronfa LEADER yn cael eu cynnal mewn nifer o feysydd megis gofod gweithio ar y cyd i fusnesau, gwasanaeth wi-fi cyhoeddus ym mhentrefi gwledig, isadeiledd ceir trydan mewn canolfannau ymwelwyr, gwobrau busnes mwyaf Cymraeg yn y byd, prosiectau ynni cymunedol, cymorth arbenigol ar gyfer allanoli gwasanaethau anstatudol.

Mae pum thema wedi'u cytuno ar gyfer LEADER, sef:

- Ynni Adnewyddol
- Digidol
- Ffurf newydd o ddarparu gwasanaethau anstatudol
- Ychwanegu gwerth at hunaniaith ac adnoddau naturiol
- Cadwyni cyflenwi

Mae'n gynamserol i adnabod unrhyw ganlyniadau pendant o'r prosiect yma eto ac nid oes unrhyw ddata canlyniadau wedi'u cyhoeddi ar y prosiect hyd yma.

**T5 Safle Treftadaeth y Byd**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd creu budd economaidd o dreftadaeth gyfoethog Gwynedd.**

**Diwydiant Llechi**

Yn ystod y flwyddyn, mae'r gwerthusiad technegol wedi ei lunio a'i gyflwyno i Lywodraeth y DU, ac ymateb cadarnhaol wedi'i dderbyn. Bydd y cais nawr yn cael ei gyflwyno i'r Panel Arbenigol. Yn dilyn adborth diweddar, mae'n bwysig nodi mai ym mis Medi 2017 byddwn yn cael gwahoddiad i gyflwyno cais UNESCO yn hytrach na mis Mawrth 2017 fel y nodwyd yn wreiddiol.

Mae'r gwefan wedi'i chreu, www.llechi.cymru ond eto i'w lansio, ac mae gwaith pellach i'w wneud o ran creu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i gyd fynd gyda hi. Ar hyn o bryd, mae'r effaith gweledol i drigolion Gwynedd wedi bod yn gymharol isel gan fod mwyafrif o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni wedi bod yn bethau technegol/arbenigol sy'n gweithio tuag at yr enwebiad. Fe fydd mwy o effaith i'w weld yn y cyfnod sydd i ddod wrth lansio'r wefan, a digwyddiadau cymunedol amrywiol sydd wedi cael eu cynllunio ar gyfer tymor yr Hydref.

**Glannau Menai**

Mae cynlluniau Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn parhau am yr ail flwyddyn o weithrediad. Yn ogystal â hyn, mae cynlluniau busnes wedi eu paratoi ar gyfer safleoedd strategol a chais am arian Ewropeaidd wedi ei wneud. Yn dilyn cais llwyddiannus am adnoddau Llywodraeth Cymru, mae Cronfa Fenthyciadau Canol Tref Caernarfon gwerth £700,000 wedi ei sefydlu a'i lansio.

Er bydd rhan helaeth o ganlyniadau ac effaith y prosiect i'w gweld pan ddaw'r pecyn ariannol llawn i law, mae'n deg dweud bod effaith y prosiect yn cael ei weld:

- Gwell cyfleusterau i gefnogi pobl ddigartref a chefnogaeth pryniant tŷ i bobl ifanc digartref (Prosiect Mentro Mlaen GISDA)
- Gwelliannau cychwynnol i'r safleoedd strategol (Safle'r Ynys a'r Galeri) yn ogystal â datblygiadau amgen a chreadigol dros dro ar safle'r ynys
- Gwelliannau i'r stoc dai presennol (Cynllun Tai Gwag), gwelliannau effeithlonrwydd ynni (Cynllun ECO), yn ogystal â chamau ymlaen i ddatblygu safleoedd tai Hendre, Pendalar a Frondeg
- Nifer o weithgareddau creadigol yn lleol trwy gynllun Creu Cymunedau Cyfoes.

**T6 Gwella mynediad pobl y sir i waith ac ymateb i rwystrau**

**Pwrpas y prosiect hwn fydd hwyluso a gweithredu pecyn o brosiectau er mwyn cefnogi unigolion bregus i mewn i waith. Mae'n brosiect rhanbarthol (Gogledd Cymru) gyda Gwynedd wedi bod yn cyfrannu at gomisiynu'r gwaith.**

Yn ystod y flwyddyn, mae'r prosiect yma wedi bod yn llwyddiannus i ddenu arian Ewrop i weithredu rhaglenni sy'n mynd i'r afael â chefnogi grwpiau bregus o blant a phobl ifanc trwy TRAC 11-19 oed. Yn ystod y flwyddyn, mae 190 o unigolyn bregus yn derbyn cefnogaeth arbenigol a chwricwlwm amgen. Yn ystod cyfnod y prosiect, y gobaith yw targedu 480 o bobl ifanc bregus a chynnig cymorth iddynt o ran derbyn cymhwyster, derbyn hyfforddiant neu fynd i addysg.

Yn ogystal â'r gwaith yma, mae cynllun busnes Ad-Trac 16-24 oed wedi cael ei ddatblygu gyda phartneriaid megis Gyrfa Cymru. Disgwylir cymeradwyaeth arian Ewrop i'r cynllun yma fis Medi 2016.

Mae gwaith da iawn hefyd wedi digwydd gyda Phanel Ymgysylltu Pobl Ifanc 16+ Gwynedd. Prif bwrpas y panel yma yw mynd i'r afael â'r bylchau a rhwystrau sydd yn atal pobl ifanc rhag symud ymlaen i addysg/hyfforddiant neu waith. Mae gan y panel rôl o ran tracio pobl ifanc 16-18 oed sydd yn y categori NEET (dim mewn addysg, hyfforddiant a gwaith). Un o'r canlyniadau sy'n deillio o'r panel yma yw'r lleihad yn nifer o bobl ifanc sydd yn anhysbys neu ar goll. Yn ystod y 10 mis diwethaf, mae nifer y bobl ifanc sy'n dod o dan Haen 1 (sef pobl ifanc sydd â statws anhysbys ac wedi gadael gwasanaeth Gyrfa Cymru) wedi haneru, a hynny trwy weithredu system cadw mewn cyswllt a rhannu gwybodaeth.

Rydym yn parhau i ddisgwyl cymeradwyaeth gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i gynllun OPUS, sef cynllun ar gyfer grwpiau bregus o oedolion yng Ngwynedd i'w cefnogi i gyflogaeth gynaliadwy.

Yn Atodiad 2 – Astudiaeth Achos, ceir manylion pellach ar brofiad un person ifanc a gafodd ei gyfeirio at y prosiect yma, sy'n dangos y cydweithio cydlynus sy'n digwydd o safbwynt y person ifanc, a hynny ar draws asiantaethau.

**Y Cynghorydd Ioan Thomas**
**T7 Cydymdrechu yn erbyn tlodi**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd mabwysiadu a gweithredu strategaeth i Drechu Tlodi yng Ngwynedd ar y cyd gyda phartneriaid.**

Cafwyd sesiwn benodol hefo'r aelodau Cabinet i drafod y strategaeth dan sylw a chytunwyd i symud ymlaen i weithredu'r rhaglen waith. Yn gryno cytunwyd ar y ddwy flaenoriaeth isod:

**Tlodi Gofodol** – Mae'r strategaeth yn amlygu'r cymunedau hynny sydd yn dioddef fwyaf o ran tlodi. Byddwn yn blaenoriaethu'r cymunedau hynny sydd yn barod yn derbyn cefnogaeth trwy gynlluniau cenedlaethol, ond hefyd yn rhoi sylw i'r cymunedau eraill yng Ngwynedd sy'n dioddef o dlodi.

**Tlodi Poblogaeth** - Byddwn yn blaenoriaethu rhai grwpiau o'r boblogaeth e.e. aelwydydd un rhiant sydd ag incwm isel.

Mae'n gyn amserol eto i fesur effaith y prosiect gan fod y ffocws dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod ar gadarnhau'r sefyllfa yng Ngwynedd trwy adnabod y grwpiau, yr ardaloedd a'r math o dlodi sy'n flaenoriaeth. Mae'r strategaeth yn nodi sut y byddwn yn mesur effaith y gwaith a byddwn yn adrodd ar y perfformiad hynny mor fuan â phosib.

**T8 Adolygu Strategaeth Cyflenwad Tai**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd adolygu ein strategaeth i gynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai er mwyn sicrhau fod ein cyflenwad o dai yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd.**
Yn ystod 2015/16, cymeradwywyd achos busnes Model Ariannu Tai Fforddiadwy sydd yn cynnwys pedwar prif gynllun sef:

- **Sefydlu Tai Fforddiadwy i drigolion Gwynedd mewn ardaloedd gwledig** - Sefydlu'r model ariannu er mwyn cynyddu'r tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig, a rhagwelir y byddwn wedi dechrau adeiladu cyfanswm o 31 cartref newydd i drigolion yn ystod 2017/18.
- **Tai gwag yn ôl i ddefnydd** - Byddwn hefyd yn anelu i ddatblygu rhwng 10-15 o unedau tai gwag yn ôl i ddefnydd, sydd yn ychwanegol i'r cyfanswm blynyddol o 40 i 50 uned.
- **Darpariaeth ar gyfer pobl di gartref** - Rhagwelir y bydd angen gwneud gwaith pellach yn ystod 2016/17 cyn cychwyn gweithredu ar ddatblygu darpariaeth ar gyfer pobl ddigartref.
- **Darpariaeth i bobl hyn sy'n hybu annibyniaeth** - Byddwn wedi adnabod yr ardal lle mae angen darpariaeth i bobl hyn, a'r math o ddarpariaeth sydd ei hangen. Bydd yr argymhellion a gyflwynwyd fel rhan o'r Strategaeth Letya Pobl Hyn yn cael eu gweithredu o fewn y gwaith hyn yn ogystal ag unrhyw argymhellion o brosiect newydd 'Capasiti a chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac iechyd'.

Ar hyn o bryd does neb wedi cael budd o ganlyniad i'r prosiect hwn. Mae'r ffocws wedi bod ar ddatblygu model cynaliadwy i'r dyfodol ac adnabod beth yw'n blaenoriaethau o ystyried yr angen yng Ngwynedd. Er hyn rydym yn rhagweld y bydd y prosiect hwn maes o law yn cael effaith ar anghenion tai ystod eang o drigolion Gwynedd e.e. Trwy alluogi mwy o bobl Gwynedd i brynu tai fforddiadwy. Yn ogystal â hyn, bydd yn ein galluogi i roi llety i unigolion digartref a chyfrannu i gyfarch anghenion lletya pobl hyn y Sir.

## 5.0 Mesurau

### 5.1 Gofal

**Y Cynghorydd Gareth Roberts**

Mae pwrpas y gwasanaethau Oedolion wedi ei gytuno sef 'Helpu fi fyw fy mywyd fel dwi eisiau', ac mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod trefniadau mewn lle i ddal y wybodaeth sy'n dweud a yw'r gwasanaeth yn cyflawni hynny neu beidio.

Rhan annatod o'r pwrpas hwn, ac yn greiddiol i wasanaethau Gofal, yw'r angen i sicrhau bod y defnyddwyr yn ddiogel. Llwyddwyd, o'r holl atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, llwyddo i reoli'r perygl 99% o'r amser **(SCA/019)**.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf un o'r prif faterion yr adroddwyd arno ydi sefydlogrwydd cartrefi nyrsio ar draws Gwynedd. Mae'r sefyllfa yn amlygu pa mor ansefydlog yw'r sector ac yn cadarnhau'r angen i gynnig atebion mor fuan â phosib. Mae'r gyfradd oedi wrth drosglwyddo o ysbytai am resymau gofal cymdeithasol wedi dirywio'n sylweddol eleni **(SCA/001)** - cynnydd o 1.05 yn 2014/15 i 2.45 yn 2015/16. Ymddengys fod yr oedi yn fwy o broblem yn y cyswllt gydag Ysbytai Tywyn a Dolgellau na unrhyw le arall yn y sir h.y. O'r 30 achos yn ystod y flwyddyn mae 16 o'r rheini yn ymwneud â'r ysbytai hyn. Er hyn, o gymharu â Chymru gyfan, mae perfformiad Gwynedd yn parhau'n dda (ar sail ffigyrau drafft, Gwynedd sy'n perfformio'r 6 gorau yng Nghymru). Mae'r perfformiad hwn yn cynrychioli diffygion cyffredinol y system o ran galw uchel ar yr ysbytai, diffyg gwlâu yn y gymuned a hefyd prinder capasiti o ran gweithwyr proffesiynol a gofalwyr cartref mewn rhai ardaloedd penodol o Wynedd (Ar sail dadansoddiad dechreuol mae 66% o'r rhesymau dros Wynedd o ganlyniad i resymau gofal cartref yn benodol).

Yn dilyn o hyn mae'r mesur **SCA/007** yn 'adolygu cynlluniau gofal' ac yn dangos dirywiad o 85% yn 2013/14 i 79% erbyn 2015/16. O ddadansoddi'r

ffigwr hwn ymhellach fesul ardal, gwelir bod perfformiad Meirionnydd yn 68% o gymharu ag Arfon sy'n 91%. Credaf fod y dirywiad hwn yn amlygu eto'r prinder capasiti amlwg mewn rhai ardaloedd ac o ganlyniad wedyn y blaenoriaethu sydd wedi gorfod digwydd. Mae'r gwasanaeth, ar y cyd hefo partneriaid, yn ceisio ymateb i'r heriau hyn.

Ar nodyn mwy positif mae gweddill y mesurau sydd yn **Atodiad 1 (OED003, OED019, SCA002a** a **SCA002b)** yn awgrymu fod y gwasanaeth ar y trywydd cywir. Er enghraifft, mae gostyngiad i weld yng nghyfran y bobl sydd yn derbyn cefnogaeth draddodiadol yn y gymuned a hefyd yn ein cartrefi preswyl. Mae hyn yn awgrymu o bosib ein bod eleni yn dibynnu llai ar ofal traddodiadol o gymharu â'r blynyddoedd cynt. I gefnogi hyn mae twf graddol hefyd yn y defnydd o daliadau uniongyrchol **(OEDO19)** sydd wrth gwrs yn hybu ac yn grymuso unigolion i fyw bywydau fel y maent hwy eisiau ei fyw.

## 5.2 Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai

**Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies**
Mae'r gwasanaeth yn gweithio ar ddiffinio mesurau newydd i gyd-fynd gyda'r pwrpas er mwyn sicrhau ein bod yn mesur gwir effaith y gwaith ar drigolion Gwynedd. Yn benodol, tynnir sylw at y mesurau canlynol:

### i. Uchel 07 - Nifer y swyddi gwerth uchel wedi'u creu – 35

Mae'n nifer o swyddi gwerth uchel a grëwyd gyda chefnogaeth y Cyngor yn ystod 2015/16 yn dangos cynnydd bach ar y nifer yn 2014/15 ac yn unol â'r disgwyl. Deilliodd y swyddi o ganlyniad i ystod o ymyraethau gan y Cyngor gan gynnwys gwaith gyda chwmnïau unigol ynghyd â gwaith gyda chlystyrau o fusnesau o fewn sectorau gwerth uwch megis y diwydiannau creadigol a'r sector technoleg gwybodaeth. Mae'r 35 swydd yn cynnwys:

5 yn Zip World (Blaenau/Bethesda);
15 yn NMI Gaming (http://www.nmi-gaming.com/contact-nmi-gaming/offices/united-kingdom/) – Parc Menai;
4 yn Oxford Bioelectronics (http://oxfordbioelectronics.com/) – Parc Menai.

### ii. PENECON01 - Nifer y swyddi wedi eu creu gyda chymorth yr Adran Economi a Chymuned - 81

Gyda nifer o'r prif raglenni oedd yn darparu data '*swyddi wedi eu creu*' (megis y Gronfa Buddsoddi Leol) bellach wedi dod i ben mae'r nifer o swyddi sydd wedi eu creu gyda chymorth uniongyrchol y Cyngor wedi gostwng yn unol â'r disgwyl; er hyn, mae'r canlyniad o 81 o swyddi

newydd wedi eu cefnogi yn arwyddocaol yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael yn bresennol.

**Y Cynghorydd Ioan Thomas**
Mae mesurau'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar hyn o bryd yn cael eu mesur yn flynyddol ac felly ni fydd y wybodaeth ar gyfer 2015/16 ar gael i ni tan fis Mehefin. Mae angen penderfynu pa rai sydd fwyaf defnyddiol ac sydd angen eu casglu'n fwy cyson – neu wrth gwrs ddatblygu rhai o'r newydd os oes angen. Rhagwelir y bydd y gwaith yma'n cael ei wneud law yn llaw hefo'r gwaith o ail fodelu gwasanaeth rhwng Ebrill a Medi 2016.


Er hyn mae'r ystadegau o ran benthyciadau yn ein llyfrgelloedd (2015/16) wedi eu cyflwyno, ac mae'r tuedd o ran lleihad yn nifer y benthyciadau yn parhau. Rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y benthyciadau dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r tuedd lleol hwn yn dilyn patrwm cenedlaethol yn ogystal. Yn 2014/15 roedd nifer y benthyciadau yn 603,087 ac yn 2015 /16 roedd y niferoedd yn 570,678 – gostyngiad felly o 32,409 ar draws y sir.

Ar y cyfan mae'r mesurau sy'n ymwneud â'r maes tai wedi perfformio'n dda, ac mae nifer o'r mesurau nad ydynt yn arddangos perfformiad cystal yn gwneud hynny o ganlyniad i amseriad cwblhau cynlluniau mawr y maes e.e. **Tai - Strat6 - Nifer o unedau fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd.** Mae perfformiad y mesur hwn yn sylweddol is o'i gymharu â'r llynedd (48 o'i gymharu â 144). Y rheswm am hyn yw'r diffyg adnodd yn ystod y flwyddyn 2015/16 o ganlyniad i'r buddsoddiad ariannol sylweddol sydd wedi ei ymrwymo i ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol Porthmadog. Mae nifer yr unedau sy'n cael ei adrodd ym mlwyddyn 2014/15 yn cynnwys 42 uned Cae Garnedd ac felly yn egluro ryw gymaint ar yr amrywiaeth sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.

Llwyddwyd i sicrhau 61 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd yn 2015/16 (**Tai DAT01**). Er yn is na'r cyfanswm yn 2014/15, rydym wedi llwyddo i gael mwy o dai gwag yn ôl i ddefnydd na wnaethpwyd yn 2012/13 a 2013/14. Mae'n debyg fod perfformiad eleni yn dda o ystyried y buddsoddiad, ac yn uwch na'r hyn ragwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn sef 40 – 50 eiddo.

Mae'r trefniadau bellach mewn lle ar gyfer adrodd ar fesurau newydd y maes **Tai**. Mae rhai o'r mesurau 'newydd' hyn mewn gwirionedd yn ddata rheolaethol ers blynyddoedd e.e. ym maes digartrefedd. Er bod ychydig o bryder wedi bod o ran y broses o gasglu'r data, mae'r mesurau yn arddangos gwahaniaeth sylweddol i'r cwsmer. Un o'r mesurau hyn yw **Nifer**

**y dyddiau sydd rhaid aros mewn llety dros dro cyn bod yr achos wedi cael ei ddatrys** (Yn aml iawn mae'r datrysiad yn golygu dod o hyd llety sefydlog). Yn 2012/13 roedd y cyfartaledd y mesur hwn yn 124 diwrnod, ond erbyn 2015/16 mae'r cyfartaledd wedi gostwng i 71 diwrnod. Mesur arall allweddol i'r Gwasanaeth Digartrefedd ydi **Nifer y dyddiau y mae wedi cymryd i ddatrys problem ddigartref** (H.y. o'r pwynt cyswllt cyntaf hyd at y datrysiad)**.** Mae'r graff isod yn dangos gostyngiad positif o ran perfformiad y mesur hwn dros y pedair mlynedd diwethaf.




Mae'r gwasanaethau Cyswllt Cwsmer, Cofrestru a Gwybodaeth yn rhoi sylw pellach i'w pwrpas fel gwasanaethau.

Yn unol â'r gofyn cenedlaethol mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth hefyd yn cadw golwg ar ganran y ceisiadau Diogelu Data sy'n cael eu hateb o fewn 40 diwrnod calendr. Mae perfformiad y blynyddoedd diwethaf wedi bod fel a ganlyn:

| **2013 / 14** | **2014 / 15** | **2015 / 16** |
|---|---|---|
| **79%** | **94%** | **100%** |

Yn benodol o ran gwefan y Cyngor rhagwelir y byddwn yn cadw golwg ar fesurau fydd yn rhoi ystyriaeth i fodlonrwydd cwsmer a hefyd yn rhoi sylw i ganran neu nifer y defnyddwyr sy'n adrodd nad ydynt wedi derbyn y wybodaeth oedd angen arnynt. Mae'r holiadur ar lein yn gofyn i'r cwsmer '**Pa mor fodlon oeddech chi efo'ch ymweliad a'r wefan heddiw?**, **Gawsoch chi beth roeddech yn chwilio amdano?**, **Os na, beth oeddech chi'n chwilio amdano?**' Mae'r cwestiynau yma wedi bod yn rhan o'r

holiadur ers blwyddyn bellach, ac mae'n galluogi'r Tîm adnabod pa rannau o'r wefan sydd angen sylw er mwyn gwella.

## 6.0 Casgliad

6.1 Gwelir cynnydd cadarn ar y prosiectau trawsnewidiol. Mae perfformiad y mesurau yn unol â'r disgwyl, gyda datblygu mesurau newydd yn tystiolaethu fod gwasanaethau yn rhoi mwy o bwyslais ar bobl Gwynedd.

## 7.0 Argymhelliad

7.1 Nodi a derbyn yr adroddiad.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

*  =  Ffigwr is yn welliant

**Atodiad 1- Mesurau Perfformiad**

**Mesurau Gofal** (Y Cynghorydd Gareth Roberts)

| Cyf. | Mesur – diffiniad | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **OED003** | Galluogi - Canran o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal | 46% | 54% | 45% | Gwelliant | 64% |
| **OED019** | Nifer y defnyddwyr gwasanaethau oedolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol | - | 104 | 121 | Gwelliant | 135 |
| **SCA/001** | Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed. MESUR CENEDLAETHOL | 1.16 | 1.55 | 1.05 | Gwelliant | 2.42 |
| **SCA/002 a** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd. MESUR CENEDLAETHOL | 47 (4.7%) | 46 (4.6%) | 45 (4.5%) | Gwelliant* | 44 (4.4%) |
| **SCA/002 b** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. MESUR CENEDLAETHOL | 25 (2.5%) | 26 (2.6%) | 24 (2.4%) | Gwelliant* | 23 (2.3%) |
| **SCA/002 b LLEOL** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth ac eithrio rhai sy'n hunan ariannu. LLEOL | - | 20 (2%) | 18 (1.8%) | Gwelliant* | 17 (1.7%) |
| **SCA/007** | Canran y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | 77% | 85% | 83% | Cynnal | 79% |

*  =  Ffigwr is yn welliant

| Cyf. | Mesur – diffiniad | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **SCA/019** | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth) LLEOL | - | - | - | Gwelliant | 99% |

**Sylwadau**

**OED003 -** Perfformiad yn well na’r disgwyl ac o bosib yn adlewyrchu'r newid sydd wedi bod o ran ceisio sicrhau nad ydym yn cyfeirio achosion anaddas i dderbyn cefnogaeth Galluogi.

**OED019 -** Hwn yn fesurydd Cytundeb Canlyniadau ac wedi cwrdd â'r targed blynyddol. Mae’r cynnydd graddol sydd wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf o bosib yn adlewyrchu’r ymdrech o fod yn ceisio arfogi unigolion i fyw bywydau yn fwy annibynnol os yn bosib.

**SCA/001 -** Mae’r gyfradd oedi wrth drosglwyddo o ysbytai am resymau gofal cymdeithasol wedi dirywio’n sylweddol eleni - cynnydd o 1.05 yn 2014/15 i 2.45. Ymddengys fod yr oedi yn fwy o broblem yn y cyswllt gydag Ysbyty Tywyn a Dolgellau na unrhyw le arall yn y Sir h.y. O’r 30 achos yn ystod y flwyddyn mae 16 o rheini yn ymwneud a’r ysbytai hyn. Er hyn, o gymharu â Chymru gyfan, perfformiad Gwynedd yn parhau’n dda (ar sail ffigyrau drafft, Gwynedd yw’r 6ed awdurdod gorau). Ar sail dadansoddiad dechreuol mae 66% o’r rhesymau dros oedi o ganlyniad i broblemau Gofal Cartref yn benodol.

**SCA/002a -** Perfformiad y mesur yma yn unol â hyn a ddisgwylir ac yn mynd i’r cyfeiriad cywir o gymharu â’r blynyddoedd cynt. Mae'r mesur yma yn eithaf traddodiadol yn ôl y gwasanaethau sy'n cael eu cyfrif, ac eleni fydd y flwyddyn olaf y byddwn yn adrodd arno’n genedlaethol.

**SCA/002b -** Perfformiad y mesur yma yn unol â hyn a ddisgwylir ac yn mynd i’r cyfeiriad cywir o gymharu â’r blynyddoedd cynt - gyda chyfradd is o bobl hyn yn cael eu lleoli o fewn cartrefi gofal. Dyma'r flwyddyn olaf i hwn gael ei gasglu yn genedlaethol, ond er gwendidau yn y mesur, mae'n ddefnyddiol i ni weld os ydym yn lleoli llai o bobol mewn preswyl fel cyfradd o'r boblogaeth.

**SCA/002b (lleol) -** Perfformiad y mesur yma yn unol â hyn a ddisgwylir ac yn mynd i’r cyfeiriad cywir o gymharu â’r blynyddoedd cynt. Mae'r fersiwn hwn yn un lleol ac yn wahanol i'r un cenedlaethol gan ei fod yn eithrio hunan-arianwyr.

**SCA/007 -** Perfformiad anghyson ar draws y sir wedi achosi llithriad. Meirionydd - 59.7%, Dwyfor 76.3%, Arfon 87.6% ac Anableddau

Dysgu yn 67.2%. Y dirywiad yn ystod 2015/16 yn amlygu eto’r prinder capasiti amlwg mewn rhai ardaloedd o’r Sir.

**SCA/019 -** Perfformiad ar hyn o bryd yn 99% ond ni fydd y ffigwr yn derfynol. Yn ystod y flwyddyn cafwyd 185 achos i gyd. 176 o’r rheini wedi eu rheoli, 7 wedi gwrthod, 1 wedi tynnu’n ôl ac 1 arall ble nad yw’r cyfeiriad wedi ei reoli - ond sy’n derbyn sylw er mwyn cadarnhau os mai diffygion data sy’n gyfrifol yntau fod yr achos heb ei reoli’n effeithiol.

## **Mesurau Tlodi, Amddifadedd, Tai** (Y Cynghorydd Ioan Thomas)

| Cyf. | Mesur – diffiniad | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai - DAT01** | Nifer eiddo gwag hir dymor yn y Sir (6 mis neu fwy) wedi dod nol i ddefnydd. | 48 | 54 | 68 | Cynnal | 61 |
| **Tai - DAT04** | Nifer o dai ar y cynllun Tai Cynllun Lesu. | - | 57 | 63 | Cynnal | 53 |
| **Tai - PSR/002** | Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i’r Anabl. | 298 | 242 | 316 | Gwelliant* | 271 |
| **Tai - PSR/004** | Canran o'r anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. | 4% | 5% | 6% | Gwelliant | 5% |
| **Tai - Strat6** | Nifer o unedau fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd. | - | 70 | 144 | Cynnal | 48 |

* = Ffigwr is yn welliant

| Cyf. | Mesur – diffiniad | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai - TAI 03** | Y nifer o unedau llai sydd wedi eu sefydlu yn y sir mewn ardaloedd o angen o ganlyniad i: Ddarpariaeth tai fforddiadwy, Ddarpariaeth unedau tai gwag nôl i ddefnydd. | - | 28 | 117 | Cynnal | 38 |
| **Tai - TAI 05** | Nifer o unigolion/cyplau/teuluoedd sydd wedi elwa o ganlyniad i: o Ddarpariaeth tai fforddiadwy | - | 194 | 271 | Cynnal | 93 |
| **Cyllid - CD12.01** | Datblygu trefniadau ar gyfer cydymffurfio efo cynlluniau yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) pan fydd Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno yng Nghwynedd rhwng Medi a Thachwedd 2015, gan gynnwys hyfforddiant addas i staff a chydymffurfiaeth â thelerau'r Cytundebau Partneriaeth Cyflenwi. | - | Do | Do | Cynnal | Gweler y sylwadau |
| **Cyllid - CD12.03** | Yr amser (nifer dyddiau) a gymerir i brosesu hawliadau newydd am Fudd-daliadau Tai a Budddaliadau'r Dreth Gyngor. | 21.03 (Ch3) | 21.77 (Ch3) | 15.23 (Ch3) | Cynnal* | Gweler y sylwadau |
| **Cyllid - CD12.04** | Yr amser (nifer dyddiau) a gymrwyd i brosesu digwyddiadau o newid mewn Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor. | 3.79 (Ch3) | 5.20 (Ch3) | 3.62 (Ch3) | Cynnal* | Gweler y sylwadau |
| **Llyfrgelloedd - LCL/001 b** | Nifer ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 5,040 | 5,301 | 4,199 | Cynnal | Data ddim ar gael eto |
| **Llyfrgelloedd - LLYF05** | Canran o'r defnyddwyr sy'n graddio'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn dda iawn neu dda. | 97.7 | 95.5 | 96 | Cynnal | Data ddim ar gael eto |

* = Ffigwr is yn welliant

**Sylwadau**

**Tai - DAT01 –** Er yn is na blwyddyn 2014/15 mae'r perfformiad yn uwch na 2012/13 a 2013/14. Credir fod perfformiad eleni yn dda o ystyried y buddsoddiad ac yn uwch na'r hyn ragwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r mesurydd hwn yn mesur faint o unedau oedd yn wag am gyfnod o chwe mis ble mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i ddod yn ôl i ddefnydd.

**Tai - DAT04 -** Perfformiad yn unol â'r disgwyl. Mae'r tuedd dros y blynyddoedd yn dangos fod niferoedd wedi syrthio ond gwyddom fod galw am y math yma o eiddo wedi lleihau ac nad oes angen mwy gan y byddai yn rhoi pwysau ariannol os yw'r eiddo yn parhau yn wag am gyfnod. Byddwn yn adolygu lleoliad a maint yr eiddo i sicrhau ei fod yn gyd fynd a'r galw. Rydym yn defnyddio'r tai yma ar gyfer rhoi llety i bobl ddigartref.

**Tai - PSR/002 -** Perfformiad yn well na'r tair blynedd diwethaf ac, er bod lle i wella, mae'r perfformiad ar gyfer 2015/16 yn galonogol. Mae 94 diwrnod o welliant wedi bod o gymharu â'r flwyddyn gynt. Mae unrhyw leihad mewn dyddiau yn y mesurydd hwn yn golygu fod yr unigolyn yn derbyn arian grant ynghynt.

**Tai - PSR/004 -** Perfformiad yn well na'r blynyddoedd cynt. Mae'r gwasanaeth yn ceisio targedu a blaenoriaethu'r tai gwag hynny sydd mewn lleoliadau ble mae galw am eiddo cymdeithasol.

**Tai - Strat6 –** Perfformiad yn sylweddol is o gymharu â 2014/15 (48 i gymharu â 144). Mae'r niferoedd yr unedau sy'n cael ei hadrodd ym mlwyddyn 2014 - 15 yn cynnwys 42 uned Cae Garnedd ac felly yn egluro'r amrywiaeth sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.

**Tai - TAI 03 -** Y mesurydd yn cael ei weld fel 'data gweithgaredd' a dim uchelgais ffurfiol sydd angen ei gwrdd. Mae'r mesurydd hwn yn gysylltiedig hefo Strat6 a DAT01 ac felly yn dilyn unrhyw dueddiad yn y mesurau hyn.

**Tai - TAI 05 -** Mae'r perfformiad yn is o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf ac mae hyn yn gyd fynd a'r tuedd a welir yn y mesurydd Start6 uchod. Mae'r mesur hwn yn mesur nifer yr unigolion sydd wedi elwa o ddarpariaeth tai fforddiadwy.

**Cyllid - CD12.01 –** Nid yw'r cyfarfodydd monitro perfformiad wedi eu cynnal eto er mwyn cadarnhau a dilysu'r wybodaeth ar gyfer diwedd y flwyddyn. Bydd gwybodaeth y mesur hwn yn cael ei gynnwys yn adroddiad perfformiad y Cynghorydd Peredur Jenkins ar y 24/05/16.

**Cyllid - CD12.03 -** Nid yw'r cyfarfodydd monitro perfformiad wedi eu cynnal eto er mwyn cadarnhau a dilysu'r wybodaeth ar gyfer diwedd y flwyddyn. Bydd gwybodaeth y mesur hwn yn cael ei gynnwys yn adroddiad perfformiad y Cynghorydd Peredur Jenkins ar y 24/05/16.

**Cyllid - CD12.04 -** Nid yw'r cyfarfodydd monitro perfformiad wedi eu cynnal eto er mwyn cadarnhau a dilysu'r wybodaeth ar gyfer diwedd y flwyddyn. Bydd gwybodaeth y mesur hwn yn cael ei gynnwys yn adroddiad perfformiad y Cynghorydd Peredur Jenkins ar y 24/05/16.

**Llyfrgelloedd - LCL/001b -** Data ddim ar gael tan fis Mehefin.

**Llyfrgelloedd - LLYF05 -** Data ddim ar gael tan fis Mehefin.

* = Ffigwr is yn welliant

**Mesurau Economi** (Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies)

| Cyf. | Mesur Perfformiad | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | Cyfeiriad Uchelgais | 2015/16 Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Caff06d | Canran gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol | 40.35 | 40.33 | 40.42 | Gwelliant | Data yn barod Mehefin 2016 |
| Caff21 | Canran o'r targed Arbedion Effeithlonrwydd Caffael y Cyngor wedi gyflawni | - | - | 100% | Cynnal | Data yn barod Mehefin 2016 |
| Caff07 | Canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmniau o fewn Gogledd Cymru (os yw'r prif swyddfa gyda cod post o fewn Gogledd Cymru) | 57% | 58% | 54% | Cynnal | Data yn barod Mehefin 2016 |
| Caff08 | Canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmniau o fewn Cymru | 61% | 61% | 58% | Cynnal | Data yn barod Mehefin 2016 |
| ACH03 | Canran cwsmeriad sy'n fodlon hefo'r gwasnaeth Archifau | 97% | 97% | 98% | Cynnal | 96% |
| Celf06 | Canran cwsmeriad sy'n fodlon hefo'r gwasanaeth Amguefeydd a Chelfyddydau | - | - | - | Gosod gwaelodlin | 96% |
| TMGC4 | Budd i'r economi o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol | £4,994,155 | £4,666,626 | £4,814,867 | Bodlon gweld gostyngiad | £5,928,034 |
| Uchel07 | Nifer y swyddi gwerth uchel wedi'u creu | - | - | 34 | Gwelliant | 35 |
| PENECON01 | Nifer y swyddi wedi eu creu gyda chymorth yr Adran Economi a Chymuned | - | - | 234.5 | Bodlon gweld gostyngiad | 81 |
| PENECON02 | Nifer y busnesau wedi eu cefnogi yng Ngwynedd gan yr Adran Economi & Chymuned | - | 92 | 67 | Bodlon gweld gostyngiad | 28 |
| GD01 | Nifer cymunedau (daearyddol / o ddiddordeb) yn defnyddio technoleg mewn ffordd newydd | - | - | - | I'w osod | 5 |
| GD02 | Nifer o unigolion wedi derbyn cymorth I fynd ar-lein / defnyddio'r we er eu budd personol | - | - | - | I'w osod | 141 |
| YREI | Nifer busnesau'r Sir yn adrodd iddynt ddefnyddio technoleg (e.fusnes/ e.fasnachu) o ganlyniad I ymyrraeth Gwynedd | - | - | - | I'w osod | 36 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Digidol | | | | | |

**Sylwadau**

**Caff6d** Bu Llywodraeth Cymru drwy'r NPS (National Procurement Service) sefydlu trefn ble oedd Cynghorau Sir yn gallu cael trwydded i system Atamis am gost sylweddol is na'r system Spikes Cavell rydym wedi bod yn defnyddio'n hanesyddol. Mae'r system newydd yn cyflwyno ffigyrau / canrannau lleol dra gwahanol i'r ffigyrau cynt felly rydym yn y broses o wirio data a cheisio cael asesiad gan yr adran Gyllid.

**Caff07** Adrodd ar ffigyrau 2015/16 yn ystod chwarter 1 2016/17

**Caff08** Adrodd ar ffigyrau 2015/16 yn ystod chwarter1 2016/17

**ACH03** Er bod y canran wedi gostwng ychydig, mae canran uchel o ddefnyddwyr y Gwasanaeth archifau yn parhau i fod yn fodlon gyda'r Gwasanaeth. Nid oes adborth penodol gan gwsmeriaid pam ei fod ychydig yn is na llynedd, er bod pryderon wedi eu datgan am ansicrwydd i ddyfodol y gwasanaeth. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol gan y cyhoedd pan yr ymgynghorwyd a hwy, e.e.:.



"Archifau trefnus dros ben a staff gwybodus a pharod iawn eu cymorth"
"This is fantastic service offering access to our heritage and values. It is vital that there should always be access to this information, these archives do a fantastic job and are invaluable"
"Staff yn barod i helpu bob tro ac yn wybodus iawn am y deunydd sydd yn yr archifau"
"An excellent resource with helpful and knowledgeable staff"

**Celf06** Mae'n cynnwys :

- Neuadd Dwyfor 89% (lle i wella ar gyfer 2016/17)
- Amgueddfa Gwynedd 98%
- Celfyddydau Cymunedol 100% (yn fodlon iawn neu'n eithriadol o fodlon gyda'r gwasanaeth a chefnogaeth. ) Rhagwelir peth gostyngiad yn 16/17 gan fydd newidiadau i'r trefniadau cefnogi'r celfyddydau yn sgil penderfyniadau Her Gwynedd.

**TMGC4** Byddai'r ffigyrau yn uwch flwyddyn yma os byddai Wakestock wedi cymryd lle - colli buddsoddiad yn yr Economi oddeutu £1miliwn gan fod y digwyddiad wedi'i ganslo.

**Uchel7** Mae'n nifer o swyddi gwerth uchel a grëwyd gyda chefnogaeth y Cyngor yn ystod 2015/16 yn dangos cynnydd bacha r y nifer yn 2014/15 ac yn unol â'r disgwyl. Deilliodd y swyddi o ganlyniad i ystod o ymyraethau gan y Cyngor gan gynnwys gwaith gyda chwmnïau

unigol ynghyd a gwaith gyda chlystyrau o fusnesau o fewn sectorau gwerth megis y diwydiannau creadigol a'r sector technoleg gwybodaeth. Mae'r 35 swydd yn cynnwys:

- 5 Zip World (Blaenau/ Bethesda)
- 15 NMI Gaming – Parc Menai
- 4 Oxford Bioelectronics – Parc Menai

**PENECON01** Gyda nifer o'r prif raglenni oedd yn darparu data 'swydd wedi eu creu' (megis y Gronfa Buddsoddi Leol) bellach wedi dod i ben mae'r nifer o swyddi sydd wedi eu creu gyda chymorth uniongyrchol y Cyngor wedi gostwng yn unol â'r disgwyl; er hyn mae'r canlyniad o 81 o swyddi newydd wedi eu cefnogi yn arwyddocaol yng nghyd-destun yr adnoddau ar gael yn bresennol.

**PENECON2** Mae'r nifer o fusnesau sydd wedi eu cefnogi wedi gostwng oherwydd bod amryw o becynnau grant oedd wedi eu cynllunio i gefnogi busnesau wedi dod i ben.

**GD01** Cymorth wedi ei ddarparu i bump o gymunedau daearyddol/o ddiddordeb yn ystod 2015/16 trwy gydweithrediad gyda rhaglen LEADER Gwynedd (Arloesi Gwynedd Wledig) a Llywodraeth Cymru. Enghreifftiau yn cynnwys, treialu wi-fi cyhoeddus yn Aberdaron, cefnogi busnesau Stryd y Plas, Caernarfon I fanteisio ar y cyd o gyfryngau cymdeithasol, cefnogi atyniadau Eryri I gydweithio ar ddatblygu tocyn digidol ar y cyd.



**GD02** 141 o unigolion wedi eu cefnogi i ddefnyddio'r we drwy law sesiynau rhwydwaith Pencampwyr Digidol y sir yn ystod sesiynau yn Llyfrgelloedd lleol. Yn ychwanegol, 23 wedi dilyn hyfforddiant i'w galluogi i feddu'r sgiliau i helpu eraill i ddefnyddio'r we.

**YRE1** Gwynedd yn arwain y ffordd yng Nghymru drwy law dwy raglen beilot ar gyfer datblygu'r dull o gefnogi busnesau i wneud gwell defnydd o dechnoleg i fasnachu. Treialwyd sesiynau gyda 50 o fusnesau Gwynedd. Mae gwerthusiad o'r canlyniadau yn nodi fod 71% o fusnesau, sydd gyfystyr a 36, yn adrodd iddynt ymchwilio i ddulliau o ddefnyddio technoleg newydd o ganlyniad i'r cymorth.

Yn ogystal, mae 7,000 o fusnesau Gwynedd wedi derbyn gwybodaeth yn y flwyddyn ddiwethaf i godi ymwybyddiaeth o'r manteision a'u hysbysu o'r cymorth sydd ar gael.

Ers i dreialon Gwynedd ddod i ben, mae rhaglen genedlaethol 5 mlynedd wedi cychwyn ers Ionawr 2016 fydd yn cynyddu'r niferoedd all dderbyn cymorth.

## ATODIAD 2

## Astudiaeth Achos: Prosiectau Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai

**T6 Gwella mynediad pobl y sir i waith ac ymateb i rwystrau**

Mae'r panel yn trafod achosion unigol er mwyn adnabod a monitro os yw'r gefnogaeth neu ddarpariaeth gywir mewn lle. Cyfeiriwyd achos Person Ifanc A at y panel gan ei Gweithwyr Cymdeithasol. Mae'r unigolyn gydag amrediad o ffactorau cymhleth, heriol ac wedi gweithio gydag amrediad o asiantaethau lleol - ond erbyn cyrraedd y panel, dim ond yn cael mynediad i wasanaethau statudol yr awdurdod.

Mae Person Ifanc A wedi bod mewn gofal, ddim wedi cwblhau addysg uwchradd, dim cymwysterau a gydag anghenion dysgu dwys iawn, problemau teulu sylweddol ac yn byw bywyd 'chaotic'. Roedd hefyd yn wynebu'r posibilrwydd o orfod symud o'r cartref oherwydd sefyllfa teulu ac arian. Nod y panel yn y lle cyntaf oedd ail ymgysylltu gyda'r unigolyn er mwyn cael yr "hook" ar gyfer ei chefnogi i fynd i'r afael a rhai o'r ffactorau penodol. Fodd bynnag, nid hawdd oedd perswadio asiantaethau i weithio gyda'r unigolyn. Trafodwyd yr achos yn y panel , blaenoriaethu ei anghenion a phenderfynu mai datblygu perthynas oedd y cam cyntaf. Cytunodd GISDA (er nad yn gleient) i ymgymryd â'r rôl Gweithiwr Allweddol ac i weithio yn agos gyda'r unigolyn.

Mae'r Panel yn monitro cynnydd yn fisol ac mae Person Ifanc A wedi ymgysylltu gyda GISDA a bellach yn gweithio rhan amser yn ardal Porthmadog gyda chefnogaeth GISDA. Mae'r panel yn ddull effeithiol o rannu adnoddau, adnabod arbenigedd a sicrhau bod cydweithio cydlynus o safbwynt y person ifanc.